

CANLLAWIAU ATHRAWON

CYNNWYS

Cyflwyniad		3
Deunyddiau rhyngweithiol		7
Cysylltiadau trawsgwricwlaidd		9
Uned 1		16
Rhan 1	Ble mae Tom?	20
Rhan 2	Tom yn teithio	27
Rhan 3	Yn y gofod	35
Rhan 4	Tom yn Awstralia	38
Rhan 5	Helpu Sgrin	44
Uned 2		48
Rhan 1	Crad	51
Rhan 2	Croeso!	55
Rhan 3	Cychod	60
Rhan 4	Bownsio ... dringo ... llithro	66
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	70
Uned 3		73
Rhan 1	Cwpons	76
Rhan 2	Ble wyt ti'n byw?	83
Rhan 3	Ar y fferm	86
Rhan 4	Yr Ail Ryfel Byd	90
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	95
Uned 4		99
Rhan 1	Bocs arbennig	103
Rhan 2	Ewrop	108
Rhan 3	Y Ganolfan Ewropeaidd	113
Rhan 4	Chwarae a siopa	118
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	123
Uned 5		126
Rhan 1	Croeso 'nôl!	129
Rhan 2	Arwr	135
Rhan 3	Tân!	138
Rhan 4	Ozzy	141
Rhan 5	Ydych chi'n cofio?	143
Uned 6		145
Rhan 1	Parti ... parti ... parti	148
Rhan 2	Faint o'r gloch ydy hi?	152
Rhan 3	Ffrindiau	157
Rhan 4	Y parti	163
Rhan 5	I ffwrdd â ni!	166

CYFLWYNIAD

Y Pod-antur Cymraeg - P-aC4

Mae'r pecyn hwn wedi'i baratoi ar gyfer dysgu Cymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Y nod yw adeiladu ar batrymau iaith a geirfa sydd wedi'u cyflwyno ym Mhecynnau 1, 2 a 3, eu datblygu nhw ymhellach ac yna'u trosglwyddo nhw i gyd-destunau gwahanol, gan alluogi'r disgyblion i ddeall Cymraeg llafar ac ysgrifenedig, i siarad ac i ysgrifennu mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol bwrpasau.

Fe'u hanogir, felly, i:

- **siarad** a rhwyngweithio mewn gwahanol sefyllfaoedd, gan weithio fel unigolion ac mewn parau a grwpiau
- **gwrando a gwyllo**'n ofalus er mwyn deall ac ymateb i'r hyn a ddywedir
- **darllen** ystod eang o destunau er mwyn datblygu'n ddarllenwyr effeithiol
- **ysgrifennu** yn unol â'r pwrpas a'r gynulleidfa.

Yn ogystal â datblygu sgiliau iaith, mae'r pecyn yn darparu cyfleoedd dilys i gyflwyno meysydd eraill o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n galluogi'r disgyblion i ddefnyddio a gwella sgiliau datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Tynnir sylw at y cyfleoedd hyn ar ddechrau pob uned. Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac mae cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau pellach yn unol â hwnnw.

Cynnwys

Mae'r pecyn aml-gyfrwng hwn yn cynnwys y canlynol:

DVD

Mae'r DVD yn cynnwys chwe uned, pob un wedi'i rhannu'n bum rhan.

Deunyddiau darllen

15 o lyfrau stori a llyfrau ffeithiol

15 o gardiau darllen

Mae pob llyfr / cerdyn darllen yn berthnasol i ran benodol o'r DVD.

Geiriadur

Mae hwn yn cynnwys geiriau a glywir ar y DVD fel bod disgyblion / athrawon yn gallu chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd maen nhw'n eu clywed. Nid yw'n cynnwys pob gair anghyfarwydd sydd yn y deunydd darllen gan fod geirfa gynhwysfawr yng nghefn pob llyfr ac ar bob cerdyn darllen.

50 o gardiau siarad

Mae'r rhain yn berthnasol i'r unedau ac maen nhw'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio geirfa a phatrymau sy'n cael eu cyflwyno ar y DVD mewn gwahanol sefyllfaoedd fel eu bod yn cynnig cyd-destunau dilys ar gyfer cyfathrebu. Mae pob cerdyn yn cynnwys cyfeiriad penodol ynglŷn â lle y dylid ei gyflwyno, e.e. **P-aC4: Uned 1, Rhan 1.**

Gellid rhoi detholiad o gardiau addas i'r disgyblion unrhyw bryd fel eu bod nhw'n gallu adolygu'r patrymau a'r eirfa sy'n gysylltiedig â gwahanol sefyllfaoedd. Wrth i'r disgyblion fynd drwy bob pecyn, gellid ail-ddefnyddio cardiau siarad o becynnau blaenorol ar gyfer adolygu hefyd.

Gweithgareddau rhwyngweithiol

Cysylltir gweithgareddau rhwyngweithiol gyda'i gilydd mewn gêm ar y sgrin. Mae'r rhain yn gofyn i'r disgyblion gasglu llythrennau, ateb cwestiynau a llywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy storm o asteroidau a drwy ogof arallfydol.

Gweler yr adran **Deunyddiau rhwyngweithiol** am fwy o fanylion.

Canllawiau athrawon

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau sy'n cyd-fynd â phob uned, h.y.

- nodau pob uned
- rhestr o'r brif eirfa a'r patrymau a ddefnyddir ar y DVD – y ffurfiau newydd a'r rhai cyfarwydd
- canllawiau dewisol sy'n cynnig cyfarwyddyd cam wrth gam ynglŷn â sut y **gellid** defnyddio'r DVD, e.e. sut i gyflwyno ac atgyfnerthu patrymau iaith Cymraeg, pryd i ddefnyddio'r deunyddiau darllen a'r cardiau siarad a.y.b. Fodd bynnag, gan fod gan wahanol athrawon ddulliau gwahanol o ddysgu a gan fod amgylchiadau'n amrywio o ddosbarth i ddosbarth, dylech addasu'r canllawiau yn unol â'ch anghenion chi eich hun.
- cysylltiadau trawsgwricwlaidd ac awgrymiadau ynglŷn â datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif
- awgrymiadau ynglŷn â sut i drosglwyddo'r eirfa a'r patrymau i fywyd yr ysgol, e.e. sut i ofyn am wybodaeth yn gyffredinol, sut i ganmol, sut i ofyn am farn a sut i fynegi barn ac ati.

Patrymau Iaith P-aC4

Yn y ddogfen hon, byddwch chi'n dod o hyd i eirfa a phatrymau iaith y gallwch chi eu defnyddio mewn sefyllfaoedd pob dydd, e.e. wrth ofyn am wybodaeth a'i rhoi, wrth gyflwyno llyfr, wrth siarad am ddigwyddiad yn y gorffennol a.y.b. Yn ogystal, gellir eu defnyddio wrth gyfeirio at feysydd penodol o'r cwricwlwm, e.e. mewn gweithgareddau celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, addysg gorfforol ac ati neu wrth ymgymryd â gwaith mwy penodol sy'n ymwneud â'r Ail Ryfel Byd ac ati.

Defnyddiwch y patrymau Cymraeg hyn gymaint ag y gallwch chi – yn achlysurol drwy gydol y dydd ac wrth gyflwyno gwahanol feysydd o'r cwricwlwm. Anogwch y disgyblion i siarad Cymraeg mor aml â phosib, e.e. **Ga i help os gwelwch yn dda?**; **Esgusodwch fi**. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwybod yr eirfa berthnasol, anogwch nhw i ddefnyddio patrymau Cymraeg, e.e. **Dw i eisiau file os gwelwch yn dda**.

Defnyddio'r pecyn

Mae canllawiau penodol wedi cael eu paratoi ar gyfer pob uned ac mae'r rhain yn dangos sut y **gellid** defnyddio'r deunyddiau. Fodd bynnag, mae croeso i athrawon addasu'r rhain yn unol â'u harddull ddysgu eu hunain a gofynion eu dosbarthiadau. Dyma rai awgrymiadau cyffredinol:

- Defnyddiwch y deunydd yn rheolaidd.
- Chwaraewch y DVD mor aml â phosib – bydd gwrandao a gwylio'n rheolaidd yn gwella ynganiad a dealltwriaeth.
- Paratowch y disgyblion cyn gwylio uned ar y DVD, e.e. cyflwynwch y brif eirfa a'r patrymau iaith. Bydd hyn yn gwneud y profiad yn un mwy ystyrlon a phleserus.
- Dylai'r disgyblion wylïo'r ffilm sawl gwaith. Mae dangos unedau blaenorol yn ffordd dda o adolygu patrymau a geirfa.
- Manteisiwch ar y cyfleoedd sydd ar y DVD i'r disgyblion ryngweithio â'r cymeriadau, e.e. dylid eu hannog i ateb y cwestiynau sy'n cael eu cyfeirio atyn nhw.

Amrywiadau ieithyddol

Er mwyn ceisio sicrhau bod y pecyn yn berthnasol i ddisgyblion ledled Cymru, mae Beca, Crad a Dyfs yn defnyddio ffurfiau gogleddol ond mae Tom, Izzy a Ffion yn defnyddio ffurfiau sy'n gysylltiedig â De Cymru. Ni ddylai hyn achosi unrhyw anhawster oherwydd caiff y ffurfiau hyn eu cyflwyno a'u hailadrodd drwy gydol y pecyn, e.e.

Beca, Crad, Dyfs (Gogledd Cymru)	Tom, Izzy, Ffion (De Cymru)
rŵan	nawr
Mae'n ddrwg gen i.	Mae'n flin 'da fi / gyda fi.
Tyrd.	Dere.
Dos.	Cer.
fferins	losin

Sylwer:

DYLID YMGYMRD Â PHOB GWEITHGAREDD YN UNOL Â PHOLISIAU'R YSGOL A'R RHEOLIADAU IECHYD A DIOGELWCH PERTHNASOL.

Y Pod-antur Cymraeg⁴

Mae'r DVD a'r holl ddeunydd ychwanegol sy'n cyd-fynd ag e wedi'u seilio ar y Pod-antur Cymraeg, peiriant teithio sy'n caniatáu i'r cymeriadau deithio o le i le a thrwy amser. Wrth iddo deithio i wahanol leoliadau daearyddol a chyfnodau hanesyddol, mae'n rhoi cyfleoedd i dargedu amryw feysydd y cwricwlwm a sgiliau gwahanol. Yn gwyno, dyma'r 'stori':

Uned 1: Mae Beca wedi dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg ar ôl bod yn teithio ar ddiwedd Pecyn 3 ond mae'n sylwi bod Tom ar goll. Mae hi'n ymweld â Llanarthne, lle'r oedd e'n arfer gweithio, a'r ganolfan compostio, lle'r aeth y ddau ym Mhecyn 3, er mwyn chwilio amdano. Mae Sgrin yn dod o hyd iddo maes o law, yn teithio drwy'r gofod.

Mae Tom yn glanio yn Norwy ac Awstralia ac mae Beca a Sgrin yn trafod y gwledydd hyn. Mae Sgrin yn hel atgofion am gyfnodau hapus gyda'r cymeriadau sydd wedi ymweld â'r Pod-antur Cymraeg (Pecynnau 1-3) ac mae'n teimlo braidd yn drist. Felly, mae Beca'n penderfynu chwilio am Crad, Ffion, Izzy a Dyfs er mwyn gofyn iddyn nhw ddychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg a gwneud Sgrin yn hapus. Mae hi'n dod o hyd i e-bost oddi wrth Crad sy'n dweud ble mae e'n gweithio ac mae hi'n penderfynu mynd i'w weld.

Uned 2: Mae Beca'n ymweld â Zip World yng Ngogledd Cymru, lle mae Crad yn gweithio. Mae hi'n cael antur yno ac mae hi'n gwahodd Crad i ddychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Mae Sgrin wrth ei fodd bod Crad wedi dychwelyd. Mae Beca a Crad yn gwneud modelau o gychod ac yn trafod grymoedd ac yna maen nhw'n ymweld â chanolfan trampolinio o dan y ddaear yn Eryri.

Uned 3: Mae Crad yn dod o hyd i lyfr dogni yn y Pod-antur Cymraeg ac mae'r cymeriadau'n teithio'n ôl mewn amser i'r Ail Ryfel Byd – maen nhw'n ymweld â siop ac amgueddfa, lle mae Ffion yn gweithio, ac yn cyfarfod â faciwis a Merched y Tir.

Uned 4: Mae Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg er mwyn mynd i barti ym Mharis ac mae Crad yn dod o hyd i focs sy'n llawn nwyddau o Ewrop. Mae Crad a Sgrin yn trafod amryw wledydd yn Ewrop ac mae Crad yn gadael y Pod-antur Cymraeg er mwyn gofyn i Izzy, sy'n gweithio mewn Canolfan Ewropeaidd, ddod yn ôl. Mae Crad yn astudio gwaith gan Picasso yn y Ganolfan Ewropeaidd ac yn cyfarfod ag Izzy yno. Yn ogystal, mae e'n mynd i ysgol i chwarae pêl-law ac yna mae'n mynd i siop gydag Izzy – mae hi eisiau prynu cynhwysion er mwyn paratoi tapas ar gyfer arddangosfa Ewropeaidd mae hi'n ei threfnu. Ar ôl iddi wneud y bwyd a threfnu'r arddangosfa, mae'r ddau gymeriad yn dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg.

Uned 5: Mae Izzy a Sgrin wrth eu bodd i weld ei gilydd unwaith eto ac maen nhw'n hel atgofion am y gorffennol. Er bod Sgrin yn hapus i weld Izzy, mae e'n parhau i fod braidd yn drist nad yw'r cymeriadau eraill yn y Pod-antur Cymraeg, felly mae Crad ac Izzy'n penderfynu ymweld â Dyfs, sy'n gweithio i gwmni teledu, a'i wahodd i ddod yn ôl. Mae Dyfs yn gweithio ar **Prosiect Arwr**, sef cyfres o raglenni am arwyr ac mae e'n ymweld ag arwyr lleol – diffoddwr tân a chi tywys ar gyfer y deillion. Mae e'n dweud y bydd yn dychwelyd i'r Pod-antur Cymraeg ar ôl gorffen y prosiect.

Uned 6: Mae Izzy a Crad yn dechrau trefnu parti i Sgrin er mwyn ceisio codi'i galon ac maen nhw'n gwahodd y cymeriadau eraill. Maen nhw'n penderfynu peidio â ffonio Tom yn Awstralia oherwydd y gwahaniaeth mewn amser ac mae hyn yn arwain at egluro parthau amser. Mae'r cymeriadau'n cyrraedd, yn dod i adnabod ei gilydd ac yn cael amser gwych yn y parti. Maen nhw'n mwynhau eu hunain ac yn penderfynu aros yn y Pod-antur Cymraeg. Felly, maen nhw'n trafod beth hoffen nhw'i wneud a'i weld yn y dyfodol, sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion drafod beth hoffen nhw ei wneud yn y dyfodol wrth iddyn nhw symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Cydnabyddiaethau

Diolch i'r canlynol am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth wrth gynhyrchu'r **Pod-antur Cymraeg**:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
CWM Environmental
Zip World a Bounce Below
Bae Abertawe 1940au
Treginnis Isaf, Tyddewi (Farms for City Children)
Ysgol Gynradd Dewi Sant, Llanelli
Ysgol Gynradd Llandyfái
Asda, Llanelli
Gorsaf Dân Llanelli
Guide Dogs Cymru, yn enwedig Deborah Rees
Hanna Stevenson ac Ozzy
Cyngor Sir Ceredigion
Tourism Australia

Deunyddiau Rhyngweithiol

Y stori

Yn y gêm rhyngweithiol, mae Beca'n teithio'n ôl i'r Pod-antur Cymraeg. Wrth iddi deithio, rhaid iddi gwblhau gweithgareddau a rhaid i'r disgyblion ei helpu.

Gêm rhyngweithiol - cyfarwyddiadau

Cliciwch ddwywaith ar eicon y gêm rhyngweithiol.

Cliciwch ar **Dechreuwch**.

Bydd cyfarwyddiadau'n ymddangos ar waelod y sgrin, e.e.

Taflwch y dis.

Symudwch.

Eiconau

Mae sawl eicon i'w weld ar fwrdd chwarae'r gêm:

- **Eicon y llong goch**
Bydd yr eicon hwn yn arwain at gêm rhyngweithiol, e.e. **Saethwr Sydyn**, **Glanlwr y Gofod** neu **Troellwr y Twnnel**.

Dyma sut mae eu chwarae:

Saethwr Sydyn

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **llygoden** i lywio'r Pod-antur Cymraeg drwy storm o asteroidau gan chwilio, yr un pryd, am greigiau gwyrdd sy'n cynnwys llythrennau sy'n sillafu gair. Os byddan nhw'n sillafu'r gair yn gywir, bydd Beca'n symud ymlaen (yr un nifer o gamau ag sydd o lythrennau yn y gair a sillafwyd). Fodd bynnag, os bydd y Pod-antur Cymraeg yn taro yn erbyn asteroid, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Beca'n symud yn ôl (ar sail nifer y llythrennau).

Glanlwr y Gofod

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lanio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel a thrwy hynny gwblhau gair. Bydd glanio'n rhy gyflym, neu ar ongl wael, yn crasio'r Pod-antur Cymraeg ac felly bydd y gêm yn dod i ben. Bydd cwblhau'r gêm yn llwyddiannus yn golygu bod Beca'n cael symud ymlaen yr un nifer o sgwariau ag sydd o lythrennau yn y gair. Bydd peidio â chwblhau'r gêm yn symud Beca yn ôl yr un nifer o sgwariau.

Troellwr y Twnnel

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r **saethau** ar eu bysellfwrdd i lywio'r Pod-antur Cymraeg yn ddiogel drwy ogof arallfydol. Rhaid iddyn nhw geisio osgoi cyffwrdd ag ochrau'r ogof a rhaid casglu'r swigod sy'n cynnwys llythrennau. Os bydd y Pod-antur Cymraeg yn crasio, bydd y gêm yn dod i ben a bydd Beca'n symud yn ôl. Fodd bynnag, os llwyddir i gasglu digon o lythrennau i sillafu gair, bydd Beca'n symud ymlaen dros yr un nifer o sgwariau ag sydd o lythrennau yn y gair.

- **Cardiau**
Dylai'r disgyblion glicio ar **Dangoswch** i gael gweld ydyn nhw'n gorfod symud ymlaen neu'n ôl.
- **Gweithgaredd – cogiau melyn**
Mae'r gweithgaredd hwn yn profi gwybodaeth am y ffilm. Caiff cwestiwn ei ddarllen ar goedd ac, ar ôl cynnig ateb, bydd adborth uniongyrchol.

Mewn rhai gweithgareddau, bydd rhaid i'r disgyblion gwblhau gweithgareddau ar ddwy neu dair sgrin. Pan fydd hyn yn digwydd, byddan nhw'n derbyn y cyfarwyddyd **Cliciwch ar y sgrin i symud ymlaen**. Caiff y geiriau hyn eu darllen yn uchel.

Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn anghywir, bydd Beca'n symud un sgwâr yn ôl. Os bydd cwestiwn yn cael ei ateb yn gywir, bydd Beca'n symud ymlaen un sgwâr.

Er mwyn dychwelyd i'r prif fwrdd chwarae, dylai'r disgyblion glicio ar **'Nôl i'r gêm**.

- **Rhifau Positif a Negatif**

Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr sy'n cynnwys rhif negatif neu positif, rhaid iddo / iddi symud yn ôl neu ymlaen, yn dibynnu ar y rhif a ddangosir ar y sgwâr.

- **Marc cwestiwn**

Bydd glanio ar farc cwestiwn yn golygu bod angen i'r disgyblion ymgymryd ag unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.

- **Sgwâr gwag**

Os bydd y disgybl yn glanio ar sgwâr gwag, rhaid iddo / iddi daflu'r dis unwaith eto.

Pryd i chwarae

Mae'r bwrdd chwarae wedi'i rannu'n dair rhan ac mae pob rhan yn gysylltiedig ag unedau penodol.

Gellid chwarae'r gêm ar ôl i'r disgyblion gwblhau'r ddwy uned berthnasol, e.e. ar ddiwedd uned 2, uned 4 neu uned 6, neu gallen nhw chwarae rhan o'r gêm ar ddiwedd pob uned. Gellid chwarae'r tair rhan ar ôl i'r disgyblion gyrraedd diwedd Uned 6.

Cysylltiadau trawsgwricwlaidd

Mae'r grid canlynol yn dangos sut mae'r unedau'n ymwneud â meysydd eraill y cwricwlwm. Am wybodaeth fanylach, gweler y canllawiau ar gyfer pob uned a'r Rhaglenni Astudio priodol.

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Celf a Dylunio	• cynhyrchu posteri • cynhyrchu darnau o waith celf er mwyn cyfleu golygfa sy'n cael ei hysgogi gan y darn <i>Bore</i> gan Edvard Grieg • tynnu llun trol (h.y. <i>troll</i>) • cynhyrchu logos ar gyfer rocedi • trafod <i>Y Sgrech</i> gan Edvard Munch a chynhyrchu paentiad tebyg • cynhyrchu <i>collage</i> sy'n seiliedig ar Y Trol o dan y Bont • cynhyrchu darn o waith celf drwy ddefnyddio techneg 'dotiau' • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• peintio llechi neu gerrig • trafod gwaith Catrin Williams, tynnu lluniau o olygfeydd lleol mewn arddull debyg • dylunio'r gerdd Dw i wrth fy modd ... • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• tynnu lluniau o du blaen siopau o gyfnod yr Ail Ryfel Byd • dylunio posteri gan gynnwys sloganau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• astudio gwaith ac arddull Picasso a chynhyrchu darnau tebyg o waith celf • cynllunio gwaith celf sy'n cyfleu ffiestas Sbaenaidd a chwaraeon Ffinaidd • cynhyrchu collage neu symudyn, tynnu llun y cymeriadau ar ôl darllen am gerddorion Bremen a'u hanimeiddio • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• tynnu lluniau wynebau doniol • cynhyrchu logos, logos wedi'u dylunio a phosteri a.y.b. er mwyn hyrwyddo taith feiciau er budd elusen • cynhyrchu gwaith celf sy'n gysylltiedig ag idiomau am y tywydd	• gwneud hunanbortread • dylunio gwahoddiadau parti / nwyddau parti • gwneud delweddau i gyd-fynd â'u ryseitiau • cynhyrchu gwaith celf sy'n cyfleu dathliadau • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Dylunio a thechnoleg	• cynllunio / creu cerfluniau, rocedi • creu modelau 3D neu bypedau • cynllunio a chreu dijeridws • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• cynllunio a gwneud modelau o gychod • gwneud cychod jeli • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion	• cynllunio a chreu tu blaen siopau / model o Stryd Fawr yn ystod yr Ail Ryfel Byd • cynllunio a chreu llyfr dogni neu wrthrych o'r Ail Ryfel Byd • cynllunio a gwneud amrywiaeth eang o dasgau paratoi bwyd mewn dull diogel a hylan, e.e. ryseitiau o'r Ail Ryfel Byd • gwneud gwaith gwnïo yn unol â'r arwyddair, "Clytio a thrwsio"	• cynhyrchu arddangosfa dosbarth ar Ewrop, e.e. cynllunio a gwneud modelau a baneri • cynllunio a gwneud amrywiaeth eang o dasgau paratoi bwyd mewn dull diogel a hylan mewn perthynas â chynhyrchu bwyd o Ewrop • cynllunio a gwneud mygydau Sbaenaidd ar gyfer ffiestas Sbaenaidd • gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion		• cynllunio a chynhyrchu gwahoddiadau i barti • gwneud baneri parti, gan ddefnyddio gwahanol fathau o drionglaui • paratoi brechdan arwr iach ac ysgrifennu'r rysait • cynllunio a chynhyrchu nwyddau parti, e.e. platiau papur lliwgar, <i>serviettes</i>, lliain bwrdd a.y.b.
Saesneg	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig	• chwilio am wybodaeth ar y rhynggrwyd • cofnodi manylion yn ysgrifenedig

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Daearyddiaeth	• canfod a lleoli lleoedd / gwledydd ar glôb, atlas, map • astudio Norwy / Awstralia a chynhyrchu deunyddiau hyrwyddo • defnyddio TGCh er mwyn dod o hyd i wybodaeth a'i chyflwyno	• canfod a lleoli lleoedd / gwledydd ar glôb, atlas, map, gan ddefnyddio cyfesurynnau os yw'n briodol		• canfod a lleoli lleoedd / gwledydd ar glôb, atlas, map gan ddefnyddio cyfesurynnau os yw'n briodol • trafod rhai o brifddinasoedd Ewrop / y byd • adolygu pwyntiau'r cwrmpawd • trafod, ymchwilio i'r Ffindir a Sbaen (a gwledydd Ewropeaidd priodol eraill) • ymchwilio i'r ffordd Ewropeaidd o fyw a'i thrafod	• cynllunio llwybr beicio / cwrs ar gyfer ras feiciau yn yr ardal leol	• adolygu pwyntiau'r cwrmpawd • trafod parthau amser • trafod o ble mae'r bwyd rydym yn ei fwyta'n dod
Hanes	• cyfleoedd i adolygu'r cyfnod Fictoraidd • cyfleoedd i drafod teithio yn y gofod yn ystod y 1960au	• cyfle i ymchwilio i'r diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru	• trafod ac ymchwilio i'r Ail Ryfel Byd • nodi'r gwahaniaethau rhwng ffordd o fyw yn ystod yr Ail Ryfel Byd a'r unfed ganrif ar hugain • defnyddio amrywiaeth o adnoddau er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau • cyfathrebu syniadau mewn dulliau amrywiol	• cyfleoedd i gyflwyno agweddau ar hanes Ewrop, e.e. y teithiau fforio a aeth o Ewrop		• cyfleoedd i adolygu agweddau ar yr Ail Ryfel Byd

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
TGCh	• "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" • cynhyrchu darnau ysgrifenedig • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh e.e. er mwyn cynhyrchu posteri, taflenni, bwrdd stori, cartŵn, tocynnau ar gyfer ymweld â Zip World	• dylunio ac argraffu posteri • dod o hyd i wybodaeth o ffynonellau amrywiol at bwrpas penodol • defnyddio amrywiaeth o adnoddau TGCh, e.e. tynnu ffotograffau o'r broses o wneud model o gwch a'u rhoi ar y cyfrifiadur er mwyn eu cynnwys yn eu gwaith ysgrifenedig • gwneud cychod jeli	• cynllunio tu blaen siopau • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" • paratoi a rhoi cyflwyniad PowerPoint am fywyd yn ystod blynyddoedd y rhyfel	• cynllunio a chreu arddangosfa am Ewrop • "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" e.e. ynglŷn â Chaerdydd y Ffindir, Sbaen, Picasso, chwaraeon a.y.b. • cynhyrchu llyfrau • ffilmio gêm bêl-law a recordio sylwebaeth • cynllunio bwrdd stori er mwyn cyfleu chwedl cerddorion Bremen • animeiddio'r chwedl a recordio trosllais	• "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" e.e. ynglŷn â'r Fam Teresa, rasys beicio • cynhyrchu cyfres o raglenni byr ar y thema "Arwyr" • paratoi a rhoi cyflwyniad PowerPoint am arwr / arwres	• "darganfod gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ar gyfer diben a ddiffinnir" e.e. mewn perthynas â dathliadau • cynllunio gwahoddiad i barti
Mathemateg	• trafod oriau agor • adolygu arian • creu llinell amser • adolygu'r amser • trafod parthau amser	• mesur • addasu ryseitiau ar sail nifer y bobl fydd yn bwyta'r bwyd • adolygu arian • adolygu oriau agor • defnyddio cyfesurynnau	• adolygu oriau agor a gwneud cyfrifiadau mewn perthynas ag amser • pwyso a mesur cynhwysion • addasu ryseitiau drwy gyfrifo'r cynhwysion sydd eu hangen ar gyfer nifer gwahanol o bobl	• cyfeiriadau at nodweddion ciwboid • adolygu rhifolion • adolygu oriau agor a gwneud cyfrifiadau mewn perthynas ag amser • adolygu arian • trafod gwerth am arian drwy gymharu eitemau, pwysau, prisiau a.y.b.	• adolygu amser • cyfrifo cyfanswm yr arian a godir yn ystod y ras feiciau er budd elusen	• cyfrifo amser mewn rhannau gwahanol o'r byd • cyfle i wneud baneri parti drwy ddefnyddio mathau gwahanol o drionglau

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Mathemateg (parhad)			• ffracsiynau	• chwilio am dymheredd y Ffindir, Sbaen a Chymru yn ystod yr haf a'r gaeaf, gwneud graffiau a chymharu		
Cerddoriaeth	• trafod a gwerthuso cerddoriaeth gefndirol • adnabod offerynnau a disgrifio teimladau • gwranddo ar / gwerthuso'r darn Bore gan Edvard Grieg • dysgu a pherfformio Oes gafr eto? • gwranddo ar gerddoriaeth dijeridw a'i gwerthuso	• dysgu'r gân werin Gymraeg Fuoch chi 'rioed yn morio?	• gwranddo ar gerddoriaeth o gyfnod y rhyfel a'i gwerthuso • adnabod offerynnau a.y.b. • cerddoriaeth <i>swing</i> a'r bandiau mawr • cerddoriaeth jazz • perfformio darn syml fel 'band mawr'	• astudio a gwerthuso arddulliau gwahanol cerddoriaeth Ewropeaidd ac offerynnau sy'n gysylltiedig â gwledydd gwahanol • gwranddo ar gerddoriaeth Sibelius a'i gwerthuso	• dewis / cyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer y rhaglen ar arwyr	• gwranddo ar gerddoriaeth parti a'i gwerthuso

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Addysg gorfforol	• creu symudiadau dawns sy'n gysylltiedig â'r chwedl Y Trol o dan y Bont	• gweithgareddau trampolinio os ydynt yn briodol • trafod iechyd a diogelwch mewn perthynas â thrampolinio	• dysgu dawns o gyfnod yr Ail Ryfel Byd	• dawnsio mewn arddull Sbaenaidd / Ewropeaidd • ymchwilio i bêl-law a chwarae'r gêm • ymchwilio i chwaraeon Ewropeaidd eraill a chymryd rhan ynddynt	• cymryd rhan mewn ras feiciau / taith feiciau er budd elusen	• cymryd rhan mewn dawns parti, dawn werin Gymreig neu ddawns hopian • creu symudiadau gwahanol sy'n addas ar gyfer dawns parti • astudio, ymarfer a pherfformio dawnsiau o wledydd ar draws y byd • creu a pherfformio symudiadau cadw'n heini
Addysg grefyddol						• trafod dathliadau
Gwyddoniaeth	• adolygu'r planedau • trafod gwrthiant aer, ffrithiant mewn perthynas â modelau o rocedi • trafod tyrbinau gwynt ac ynni haul • trafod dulliau o wneud yr ysgol yn wyrddach • adolygu compostio	• gwneud gweithgareddau sy'n gysylltiedig â disgyrchiant • defnyddio deunyddiau gwahanol ar gyfer gwneud modelau o gychod • trafod y grymoedd sydd eu hangen ar gyfer gwneud i fodeli o gychod symud	• trafod bwyd iach, sut i wneud dau fath o fwyd yn iachach • cyfle i hau a phlannu ac i adolygu'r anghenion ar gyfer tyfiant iach mewn planhigyn	• adolygu dosbarthiad deunyddiau		• cyfle i drafod diodydd / bwydydd iach / afiach • dewis llenwadau iach ar gyfer brechdan arwr

	Uned 1 Ble mae Tom? Tom yn teithio Yn y gofod Tom yn Awstralia Helpu Sgrin	Uned 2 Crad Croeso! Cychod Bownsio ... dringo ... llithro Ydych chi'n cofio?	Uned 3 Cwpons Ble wyt ti'n byw? Ar y fferm Yr Ail Ryfel Byd Ydych chi'n cofio?	Uned 4 Bocs arbennig Ewrop Y Ganolfan Ewropeaidd Chwarae a Siopa Ydych chi'n cofio?	Uned 5 Croeso 'nôl! Arwr Tân! Ozzy Ydych chi'n cofio?	Uned 6 Parti ... parti ... parti Faint o'r gloch ydy hi? Ffrindiau Y parti I ffwrdd â ni!
Cymraeg ail iaith	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; gofyn ac ateb cwestiynau; cyflwyno gwybodaeth bersonol a ffeithiol; chwarae rôl; mynegi barn; gweithio'n annibynnol, mewn parau ac mewn grwpiau • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. gwybodaeth ffeithiol, cofnodion personol, rhestri, posteri, taflenni, negeseuon e-bost, stori a deialog sy'n ymwneud â'r paentiad, Y Sgrech, a.y.b.	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; gofyn ac ateb cwestiynau; chwarae rôl; mynegi barn, cyflwyno gwybodaeth bersonol; rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddynt, disgrifio cymeriad ffuglennol a.y.b. • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, posteri, taflenni, negeseuon e-bost, cerddi, senarios sy'n cyfleu priodoleddau ffrindiau da, sylwebaeth ar gyfer ffilm, gwahoddiadau a.y.b.	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; gofyn ac ateb cwestiynau, trafod gwybodaeth, rhoi cyfarwyddiadau, chwarae rôl, gweithgareddau yn y gadair goch, trafod ffotograffau a.y.b. • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, cwestiynau, brawddegau yn y gorffennol, paragraffau sy'n cyferbynnu bywydau gyfnod, llythyron, cardiaid post, a.y.b.	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; gofyn ac ateb cwestiynau; cyfleu profiadau personol a gwybodaeth ffeithiol; chwarae rôl, rhoi cyfarwyddiadau a.y.b. • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol at amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, darnau ffeithiol, llyfrau, disgrifiadau, gwerthusiad, taflenni, posteri, sylwebaeth, cwestiynau, ryseitiai, stori, deialogau a.y.b.	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; mynegi barn a chyfleu gwybodaeth bersonol a ffeithiol; chwarae rôl, trafod digwyddiadau o'r gorffennol a.y.b. • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ac ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, cwestiynau, darn personol, llythyron, darn am ddigwyddiad yn y gorffennol, sylwebaeth, darnau ffeithiol, a.y.b.	• cyfleoedd niferus i ddatblygu llafaredd, darllen ac ysgrifennu, e.e. • Llafaredd: gwyllo, gwrandio ac ymateb i ddeunyddiau clyweled; mynegi barn a chyfleu gwybodaeth bersonol a dychmygus; rhoi cyfarwyddiadau ac ymateb iddynt; chwarae rôl a.y.b. • Darllen: darllen mewn sefyllfaoedd amrywiol ac ymateb yn ddeallus, a.y.b. • Ysgrifennu: ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd ac ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, e.e. rhestri, ryseitiai, cwestiynau, negeseuon e-bost, gwahoddiadau, disgrifiadau, cofnodion mewn dyddiadur a.y.b.

Uned 1

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg ail iaith

Llafaredd

Anogir disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. sgwrsio'n anffurfiol gyda gweithiwr yng **Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**, gofyn am fwyd mewn caffi, trafod gwybodaeth ffeithiol, cyfnewid gwybodaeth a.y.b.

Maen nhw'n gofyn am farn ac yn ei fynegi mewn cyd-destunau amrywiol, gan ddefnyddio patrymau newydd a geirfa a ddysgwyd eisoes. Maen nhw'n chwarae rôl mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. mewn perthynas â'r chwedl **Y Trol o dan y Bont** a'r sefyllfaoedd a welir ar y cardiau siarad. Fe'u hanogir i chwarae rôl mewn sefyllfa ddychmygus sy'n seiliedig ar y paentiad, *Y Sgrech*, gan Edvard Munch, ac mae cyfleoedd i ddychmygu'r profiad o weithio yn yr Orsaf Ofod Ryngwladol a cherdded ar y lleud yn y 1960au. Maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gadair goch ac yn trafod yr hyn maen nhw'n ei ddysgu o ffotograffau.

Mae cyfleoedd i wylïo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wylïo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro. Gofynnir i'r disgyblion wrando'n ofalus ac i gofnodi patrymau penodol a glywir ar y ffilm.

Gellid rhoi gridiau sy'n seiliedig ar ddarnau penodol o'r ffilm i'r disgyblion a gellid gofyn iddyn nhw eu llenwi gyda'r wybodaeth angenrheidiol, e.e. gwybodaeth am fywyd yn yr ysgol / ystafell ddosbarth nodweddiadol o'r cyfnod Fictoraidd. Gallai'r disgyblion ysgrifennu am agweddau penodol ar y ffilm yn ogystal.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis ffeiliau o ffeithiau am dyrbinau gwynt a phaneli haul, yr Orsaf Ofod Ryngwladol, celf brodorion Awstralia, chwedl draddodiadol o Norwy am drol a llyfrau sy'n cynnwys proffiliau a gwybodaeth am y prif gymeriadau yng nghyfes y Pod-antur Cymraeg. Rhestrir cwestiynau cyffredinol y gellid eu gofyn yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** ac mae rhestr o gwestiynau sy'n berthnasol i'r llyfrau yng nghefn y llyfrau. Gallai'r disgyblion ddarllen ar goedd y sgript ffilm maen nhw'n ei hysgrifennu yn Rhan 2.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, posteri / taflenni er mwyn hyrwyddo **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** yn Llanarthne, hysbyseb sy'n dangos oriau agor adeilad cyhoeddus, sylwebaeth ffilm am ystafell ddosbarth Fictoraidd, darnau ffeithiol, deialog sy'n gysylltiedig â'r paentiad, *Y Sgrech*, a darn byr sy'n cynnwys eu barn am gerddoriaeth. Fe'u hanogir hefyd i ysgrifennu proffil o'r trol maen nhw'n ei gynllunio ac yn ei greu.

Yn Rhan 3, gofynnir i'r disgyblion ddychmygu eu bod yn byw yn yr Orsaf Ofod Ryngwladol neu'n cerdded ar y lleud ac yna ysgrifennu neges e-bost am eu profiadau.

Yn Rhan 4, mae cyfleoedd i ysgrifennu deunyddiau (poster / taflen / gwybodaeth ar gyfer gwefan).

Yn Rhan 5, mae'r disgyblion yn cael cyfle i ysgrifennu proffil amdanyn nhw'u hunain, eu ffrindiau neu enwogion ac i ddatblygu'r proffil yn ddisgrifiad llawnach o'r bobl hyn.

Saesneg

Anogir y disgyblion i wneud gwaith ymchwil mewn perthynas â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, teithio'r gofod ac Awstralia.

Mathemateg

Trafodir oriau agor mewn perthynas â **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** a'r caffi ac felly rhoddir cyfle i'r disgyblion drafod a gwneud cyfrifiadau mewn perthynas ag amser, e.e.

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn agor?

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn cau?

Sawl awr?

Am sawl awr mae'r siop ar agor ar ddydd ...?

Mae cyfleoedd i brynu pryd o fwyd mewn caffi a gall hyn arwain at adolygu arian a chyfrifo pris.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion greu llinell amser o ddyddiadau priodol sy'n gysylltiedig â theithio yn y gofod.

Os yw'n briodol, gellid cyflwyno'r cysyniad o barthau amser ar ddiwedd Rhan 4 a gallai'r disgyblion gyfrifo faint o'r gloch yw hi mewn rhannau gwahanol o'r byd. Mae mwy o waith mewn perthynas ag amser yn cael ei gyflwyno yn Uned 6.

Gwyddoniaeth

Mae rhan gyntaf yr uned yn adolygu'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r planedau a wnaed ym Mhecyn 3 ac mae hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach mewn perthynas â'r Orsaf Ofod Ryngwladol a theithio yn y gofod yn ystod y 1960au yn Rhan 3.

Mae cyfleoedd i wneud rocedi gan ddefnyddio defnyddiau gwahanol. Gellid gwneud i'r rhain "hedfan" er mwyn dangos gwrthiant aer, ffrithiant a.y.b.

Ar ddiwedd Rhan 1, cyflwynir tyrbinau gwynt a phaneli haul ac anogir y disgyblion i ystyried pa mor wyrdd yw eu hysgol ac i feddwl am ddulliau o'i gwneud hi'n wyrddach fyth.

Mae cyfleoedd i adolygu'r broses o wneud compost (a gyflwynwyd ym Mhecyn 3, Uned 4, Rhan 4) wrth i Beca ailymweld â chanolfan compostio yn Ne Cymru.

Hanes

Mae cyfleoedd i adolygu agweddau ar y cofnod Fictoraidd yn Rhan 2 ac mae Rhan 3 yn canolbwyntio ar deithio yn y gofod yn ystod y 1960au. Mae cyfleoedd i chwilio am fwy o wybodaeth ac i wneud llinell amser a.y.b.

Daearyddiaeth

Gofynnir i'r disgyblion ddod o hyd i leoliad gwledydd ar fap, glôb neu mewn atlas wrth iddyn nhw weld y Ddaear yn troelli yn y gofod. Yn ogystal, gallen nhw chwilio am Rwsia (yn dilyn y cyfeiriadau at Yuri Gagarin), America a Houston (yn dilyn y cyfeiriadau at deithio yn y gofod yn ystod y 1960au), Norwy ac Awstralia - gan gynnwys atyniadau twristaidd penodol. Rhoddir peth gwybodaeth benodol mewn perthynas â Norwy ac Awstralia a gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth a delweddau.

Gofynnir i'r disgyblion greu deunyddiau i hyrwyddo Awstralia. Gellid addasu'r canllawiau sy'n cael eu rhoi iddyn nhw er mwyn eu galluogi i ysgrifennu am unrhyw wlad neu ardal.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion ddylunio posteri er mwyn hyrwyddo Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, creu darn o waith celf sy'n cyfleu'r olygfa a ddaw i'r meddwl wrth wrando ar ddarn o gerddoriaeth o'r enw **Bore** (Edvard Grieg) a thynnu llun trol, y gellid ei gynnwys ar arwydd sy'n rhybuddio am y trol sy'n byw o dan y bont. Gallai'r disgyblion greu logos ar gyfer y rocedi maen nhw'n eu creu.

Ar ôl gweld y paentiad, *Y Sgrech* (Edvard Munch) yn Rhan 2, gallai'r disgyblion drafod y llun, gan roi sylw penodol i'r tôn, yr arlliwiau a'r naws, ac yna gallen nhw geisio ail-greu'r llun.

Gallen nhw gynhyrchu *collage* sy'n seiliedig ar y chwedl **Y Trol o dan y Bont** neu wneud cefnlen ar ei chyfer a gellid defnyddio hon wrth iddyn nhw ailadrodd y chwedl.

Cyflwynir arddull peintio traddodiadol o Awstralia, sef paentiadau o ddotiau gan frodorion Awstralia, a gofynnir i'r disgyblion drafod delweddau a chreu eu paentiadau dotiau eu hunain. Gofynnir iddyn nhw hefyd greu darn o waith celf ar y ddaear, gan ddefnyddio tywod, dail, hadau a.y.b. fel yr arferai brodorion Awstralia ei wneud.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** am batrymau iaith y gallai'r disgyblion eu defnyddio wrth wneud gwaith celf a'i werthuso.

Dylunio a thechnoleg

Ar ôl gweld y cerfluniau yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, gallai'r disgyblion gynllunio, gwneud a gwerthuso eu cerfluniau eu hunain. Yn ogystal, gallen nhw gynllunio a gwneud bwganod brain, blodau haul mawr a.y.b. a gallen nhw roi'r rhain yng ngardd yr ysgol.

Gallen nhw gynllunio a gwneud rocedi ar gyfer y gofod a thrafod sut mae'r cynllun yn effeithio ar gyflymder a pherfformiad.

Ar ôl darllen y chwedl **Y Trol o dan y Bont**, gallen nhw wneud modelau neu bypedau o'r prif gymeriadau a gellid defnyddio'r rhain ar gyfer ailadrodd y chwedl. Yn ogystal, gallen nhw wneud model o'r dirwedd a defnyddio hwn fel lleoliad ar gyfer ailadrodd y stori.

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud dijeridws, a gellid eu defnyddio wedyn er mwyn creu cerddoriaeth.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion greu symudiadau dawns sy'n cyfleu'r golygfeydd gwahanol yn y chwedl **Y Trol o dan y Bont**, e.e. y geifr yn trotian yn hapus dros y bont, y trol yn ymddangos i'w bygwth, ac yna'r ymosodiad olaf gan yr afr wyaf.

Cerddoriaeth

Gellid trafod y gerddoriaeth gefndirol sy'n gysylltiedig â'r darn sy'n dangos yr ysgol Fictoriaidd - neu, yn wir, unrhyw gerddoriaeth gefndirol arall. Gallai'r disgyblion ddisgrifio'r gerddoriaeth, dweud sut maen nhw'n teimlo, mynegi barn ac adnabod yr offerynnau. Gallai hyn arwain at sesiwn lle mae mathau ac arddulliau cerddorol gwahanol yn cael eu trafod.

Ar ôl gweld y cerflun o Edvard Grieg ar y ffilm, gallai'r disgyblion wrando ar ddarn o gerddoriaeth o'r enw **Bore** a mynegi barn amdano. Gallen nhw geisio gwrando ar offerynnau penodol a thrafod beth mae'r gerddoriaeth yn eu hatgoffa ohono. Yna, gallen nhw greu darn o waith celf sy'n cyfleu'r olygfa yn eu dychymyg.

Gallai'r disgyblion ddysgu a pherfformio'r gân werin Gymraeg, **Oes gafr eto?**

Ar ôl darllen am gelf draddodiadol brodorion Awstralia, a oedd yn cynnwys elfen storiol yn aml iawn ac a oedd yn cael ei hadrodd i gyfeiliant dijeridw, gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth dijeridw sydd ar y ffilm, mynegi barn a gwneud eu dijeridws eu hunain. Gallen nhw ddefnyddio'r rhain er mwyn creu cerddoriaeth debyg.

TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngwyd ar gyfer chwilio am wybodaeth am Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne a gallen nhw ddefnyddio TGCh ar gyfer dylunio a chynhyrchu poster, taflenni a.y.b.

Yn ogystal, gallen nhw wneud bwrdd stori o'r chwedl **Y Trol o dan y Bont** neu gallen nhw animeiddio'r chwedl. Byddai hyn yn golygu dylunio, sgriptio, animeiddio, recordio troslais a deialog ac effeithiau sain.

Gallai'r disgyblion ddylunio tocynnau ar gyfer *Zip World*.

Y Cwricwlwm Cymreig

Yn ogystal â dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, mae'r disgyblion yn cael cyfle i weld Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne, ar ffilm ac i ddysgu bod ffermydd gwynt yng Nghymru. Gallen nhw ddysgu'r gân Gymraeg draddodiadol, **Oes gafr eto?** hefyd.

Datblygu Meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith pobl eraill.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhad.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd ac i'w chyflwyno mewn ffurf briodol, gan ddefnyddio meddalwedd briodol.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhif yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau gwahanol, gan gynnwys holiaduron, a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 1: Rhan 1 – Ble mae Tom?

Nodau:

- Adolygu patrymau iaith a ddysgwyd ym Mhecynnau 1-3 a'u trosglwyddo i sefyllfaoedd a chyd-destunau gwahanol, e.e. y dyddiad a'r amser; y cwestiwn **Ydy ... ?** a'r atebion **Ydy.** a **Nac ydy.** a **rhy: rhy boeth; rhy oer;**
- Adolygu'r gwaith a wnaed ym Mhecyn 2 mewn perthynas â'r planedau ... a **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** yn Llanarthne
- Cyflwyno'r ffurf negyddol **Dydy ... ddim ...**, e.e. **Dydy Tom ddim yma.; Dydy hi ddim yn rhy boeth ar y Ddaear.**
- Trafod agweddau'n ymwneud â thechnoleg werdd drwy gyfrwng y Gymraeg, **tyrbin gwynt; tyrbinau gwynt, panel haul a cynhyrchu trydan**
- Cyflwyno ymadroddion newydd: **Amhosib!; Mae'n amhosib.; Posib!; Mae'n bosib.**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n neis bod yn y Pod-antur Cymraeg eto. Wyt ti o dan y bwrdd? Nac wyt. Dydy Tom ddim yma. Dydy hi ddim yn rhy boeth. Amhosib! Mae'n amhosib. Mae'n bosib. Os ydy Tom ar y ddaear ... Rhagfyr dau ddeg pedwar. Rhagfyr dau ddeg pump. O ddeg o'r gloch tan chwech o'r gloch. O ddeg o'r gloch tan hanner awr wedi pedwar. Mae hi'n braf ... Ydy, mae hi'n braf iawn. Dw i ddim yn gallu ffeindio Tom.	Noswyl Nadolig cerflun tyrbin gwynt, tyrbinau gwynt panel haul cynhyrchu trydan tŷ iâ = tŷ rhew Mae'n dywyll.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth wyt ti'n feddwl? Ble ydw i? Ble wyt ti? Ble mae Tom? Dw i ddim yn siŵr. Ydy e/o ar un o'r planedau? Ydy. / Nac ydy. Ydy Tom yma? Ydy, mae e/o yma. / Nac ydy, dydy e/o ddim yma. Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n bum munud i ddeg. Pryd mae'r caffi'n agor? Am ddeg o'r gloch. Yr amser gorffennol Roedd Tom yn y goedwig. Roeddwn i'n cario dŵr. Gorchmynion Tyrd o 'na. = Dere 'mlaen. Cer at y cylch coch. = Dos at y cylch coch.	bwrdd soffa lamp Y Planedau Mercher Gwener Y Ddaear Mawrth Iau Sadwrn Wranws Neifion rhy boeth rhy sych rhy oer rhy stormus rhy wyntog yr Ardd Fotaneg Genedlaethol

Patrymau eraill Mae'r Pod-antur Cymraeg yn hwyl. Mae'r Pod-antur Cymraeg yn anhygoel. Dw i ddim yn gallu gweld Tom. Gawn ni weld. Rydyn ni ar gau ...	Dydd Nadolig golau
---	---------------------------

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl?

Ble mae ...?

Beth am edrych?

Faint o'r gloch ydy hi rŵan / nawr?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch ran agoriadol y ffilm **Ble mae Tom?** (Uned 1, Rhan 1), hyd at y man lle mae Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg.

Adolygwch enwau'r planedau (a gyflwynwyd ym Mhecyn 3, Uned 1):

Pwy sy'n cofio?

Beth ydy enwau'r planedau?

Gofynnwch i grwpiau enwi'r 8 planed ac yna cymharwch y rhestri. Yna, gallai'r disgyblion eu gosod yn y drefn gywir os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny eisoes:

Pa drefn?

Yn gynta, mae ...

Yn ail, mae ...

Yn drydydd, mae ...

Yna, mae ...

Mae ... nesa at ...

Mae ... rhwng ... a ...

Yn ogystal, gallech chi ofyn iddyn nhw ddweud rhywbeth am y planedau a byddai hyn, eto, yn adolygu'r gwaith a wnaed ym Mhecyn 2 (Uned 1).

Mae ... yn oer / boeth.

Mae Mawrth yn rhy oer.

Mae planed Gwener yn rhy boeth.

Mae dŵr ar y Ddaear.

a.y.b.

Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 1** er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion drafod y planedau mewn grwpiau:

Siaradwch am y planedau.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau am y planedau a'u gofyn mewn cwis. Gellid rhoi marciau i'r timau sy'n rhoi'r atebion cywir e.e.

Ble mae ...?

Mae ... rhwng ... a ...

Mae ... nesa at ...

Pa liw ydy ...?

Oes dŵr ar ...?

Sut mae'r tywydd ar blaned ...?

- Gallech chi ddangos y darn eto a rhewi'r ffilm pan welir y Ddaear ar y sgrin a gofyn i'r disgyblion enwi'r gwledydd sydd i'w gweld. Os bydd angen, gallai'r disgyblion chwilio am yr enwau ar fap neu glôb neu mewn atlas.

- Pan fydd Beca'n cyfeirio at **Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol** ar ddiwedd yr adran, adolygwch beth mae'r plant yn ei wybod am yr ardd hon (cafodd ei chyflwyno ym Mhecyn 3, Uned 1) – neu chwiliwch am wybodaeth amdani e.e.

Ble mae'r Ardd Fotaneg Genedlaethol?

Beth sy yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol?

Gallai'r disgyblion ddylunio posteri neu daflenni am yr ardd, fel y bo'n briodol.

- Dangoswch weddill y ffilm.

Gallai'r disgyblion drafod a rhestru beth maen nhw wedi'i weld ar y ffilm a gellid cymharu'r rhestri:

Beth sy ar dy restr di?

Beth sy ar eich rhestr chi?

- Dangoswch ddechrau'r darn eto, lle mae Beca'n darllen yr oriau agor.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio ystyr y **Nadolig** a gofynnwch iddyn nhw beth y gallai **Noswyl Nadolig** a **Dydd Nadolig** ei olygu.

Gallech chi dynnu sylw at y dyddiadau sy'n cael eu crybwyll ar y ffilm hefyd:

Rhagfyr dau ddeg pedwar

Rhagfyr dau ddeg pump

Byddai hyn yn gyfle da i adolygu'r dyddiadau yn Gymraeg, e.e.

Pryd mae Noswyl Nadolig?

Dydd Nadolig

Dydd San Steffan

Dydd Calan

Noson Tân Gwylt

dy ben-blwydd di

Adolygwch y patrymau hyn:

Pryd mae'r ardd yn agor?

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn agor?

Pryd mae'r ardd yn cau?

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn cau?

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn cau ym mis Ebrill?

Am faint o'r gloch mae'r ardd yn cau ym mis Ionawr?

Am ...

Gallech chi ofyn y cwestiwn canlynol hefyd:

Sawl awr?

Am sawl awr mae'r (siop) ar agor ar ddydd ...?

Yna, gallai'r disgyblion chwilio am oriau agor atyniad twristaidd lleol, y llyfrgell leol neu adeilad cyhoeddus arall yn yr ardal a dylunio hysbysiadau tebyg. Gallen nhw ddarlunio'u gwaith fel y bo'n briodol.

Gellid dosbarthu taflenni tebyg i'r isod gan ofyn i'r disgyblion weithio mewn parau. Dylen nhw ofyn y cwestiynau uchod i'w gilydd er mwyn canfod pryd mae lleoedd gwahanol ar agor i'r cyhoedd. Yna, gallen nhw lenwi'r daflen:

Ble:	
Ar agor:	
Ar gau:	

- Dangoswch y darn byr nesaf, lle mae Beca'n siarad â pherson yn y dderbynfa. Gofynnwch:
Sut mae'r tywydd?
Mae hi'n braf iawn.

Tynnwch sylw at yr ymateb:
Ydy, mae hi'n braf iawn heddiw.

Hyd yma, mae **ydy** wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn ateb y cwestiwn **Ydy hi'n ...?**. Yma, mae'n cael ei ddefnyddio er mwyn cadarnhau datganiad.

Pan fyddwch yn trafod y tywydd bob bore, gallech chi neu'r disgyblion wneud datganiad yn hytrach na gofyn cwestiwn, ac yna gallai'r disgyblion gytuno neu anghytuno, e.e.

Mae hi'n braf heddiw.

Ydy. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Ydy, mae hi'n braf iawn heddiw. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Mae hi'n oer heddiw.

Ydy. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Ydy, mae hi'n oer iawn heddiw. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Mae hi'n bwrw glaw / eira heddiw.

Ydy. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Ydy, mae hi'n bwrw glaw / eira'n drwm. (neu **Nac ydy.** os ydyn nhw'n anghytuno).

Gallech chi ddefnyddio'r canlynol pe baech chi'n dymuno datblygu hyn maes o law:

Roedd hi'n braf ddoe. Oedd. (neu **Nac oedd** os ydyn nhw'n anghytuno).

Roedd hi'n oer neithiwr. Oedd. (neu **Nac oedd** os ydyn nhw'n anghytuno).

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 2** a gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa a nodir, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw:

A: Rwyf ti'n gweithio yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.

B: Beca wyt ti.

Siaradwch.

Gallen nhw ddatblygu'r sgwrs fel y bo'n briodol.

- Mae'r gwaith sy'n ymwneud ag amser uchod yn cael ei adolygu wrth i Beca ddarllen oriau agor y caffï a gellid gwneud rhagor o waith ar hyn fel y bo'n briodol. Sylwer ar yr ymadrodd canlynol, a gyflwynwyd eisoes mewn perthynas â dyddiadau'r cyfnod Tuduraidd a'r cyfnod Fictoraidd (Pecyn 2 a 3):

o (+ treigladd meddal) ... **tan** ... (+ treigladd meddal)
o ddeg o'r gloch tan hanner awr wedi pedwar

Gallai'r disgyblion gyfeirio yn ôl at y taflenni gan ddefnyddio'r ymadroddion hyn i egluro'r oriau agor. Efallai y gellid defnyddio taflenni / amserlenni eraill yn ystod sesiynau mathemateg yn ogystal er mwyn ymarfer y patrymau.

- Dangoswch y darn sy'n dangos Beca yn y caffi eto.
Gofynnwch i'r disgyblion addasu'r sefyllfa – mae Beca'n penderfynu cael rhywbeth i'w fwyta cyn dechrau chwilio am Tom eto.

Adolygwch y patrymau ar gyfer gofyn am bethau:

Dw i eisïau ... os gwelwch yn dda.

... os gwelwch yn dda.

Ga i ... os gwelwch yn dda?

Faint ydy ...?

Patrymau y gallai'r cynorthwydd eu defnyddio:

Pa fath?

Pa faint?

Sawl un? / Faint?

Ydych chi eisïau ... neu ...?

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 3** a gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd:

A: Rwyt ti yn y caffi yn chwilio am Tom ond rwyt ti eisïau bwyd.

B: Rwyt ti'n gweithio yn y caffi.

Siaradwch.

- Dangoswch ran nesaf y ffilm. Tynnwch sylw at y gair **cerflun**, gan egluro eu bod yn gyfarwydd â'r gair **llun** eisoes. Ystyr **cerfio** yw *to carve* ac felly ystyr **cerflun** yw llun sydd wedi cael ei gerfio.

Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei weld ac i fynegi barn:

Siaradwch am y cerflun.

Tarw ydy e/o.

Mae e'n/o'n frown.

Mae e'n/o'n fawr.

Mae e'n/o'n hardd.

Mae e'n/o'n hyfryd.

Mae e'n/o'n rhyfedd.

Mae e'n/o'n ofnadwy.

Dw i'n hoffi'r cerflun achos mae e'n/o'n ...

Dw i'n meddwl bod y cerflun yn ...

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud eu cerfluniau eu hunain. Cyflwynwch y geiriau allweddol isod:

clai

cyllell

rholio

taro

mowldio

gwneud siâp ...

tynnu

pinsio

torri

Dangoswch sut mae defnyddio'r rhain:

Dyma'r clai – clai du.

Dw i'n defnyddio clai du.
Dw i'n rholio'r clai.
Dw i'n taro'r clai.
Dw i'n gwneud siâp (tarw / ceffyl / mochyn / cylch / triongl) gyda'r clai.
Dw i'n tynnu'r clai ... yma ... ac yma ... ac yma ...
Dw i'n taro'r clai eto.
Dw i'n gwneud (coes / llinell).
Dw i'n gwneud (pen mawr / siâp sgwâr).
 a.y.b.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu cerfluniau. Wrth iddyn nhw weithio, dylen nhw ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Wyt ti'n mwynhau gwneud cerflun?

Ydw. Dw i'n mwynhau gwneud cerflun. / Nac ydw. Dw i ddim yn mwynhau gwneud cerflun.

Beth ydy'r cerflun?

... ydy e/o.

- Canolbwyntiwrch ar ran olaf y ffilm, sy'n cyflwyno'r **tyrbin gwynt**, y **panel haul** a'r **tŷ rhew / tŷ iâ**.

Tynnwch sylw at y termau uchod ac at yr ymadrodd:

cynhyrchu trydan

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i ddelweddau o dyrbinau gwynt a phaneli haul ac i ganfod gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r rhain yn gweithio – yn Saesneg neu yn Gymraeg fel y bo'n briodol.

Cyflwynwch y cerdyn darllen **Tyrbin gwynt ... Panel Haul** er mwyn egluro'r broses yn Gymraeg.

- Yna, gallai'r disgyblion drafod y cwestiwn:

Ydy'r ysgol yn wyrdd?

Gallen nhw drafod y cwestiynau canlynol:

Oes tyrbin gwynt yn yr ysgol?

Oes panel haul yn yr ysgol?

Oes biniau ailgylchu yn yr ysgol?

Oes gardd yn yr ysgol? Beth sy yn yr ardd?

Oes compost yn yr ysgol?

a.y.b.

Ydyn ni'n gwastraffu dŵr? (Gallech chi adolygu Pecyn 3, Uned 5, Rhan 4 yn y cyd-destun hwn.)

Ydyn ni'n diffodd y golau?

Ydyn ni'n ailgylchu papur?

Ydyn ni'n bwyta'n iach?

a.y.b.

Yr atebion ar gyfer y cwestiynau hyn yw naill ai **Ydyn** neu **Nac ydyn**.

Gallen nhw ystyried dulliau o wneud yr ysgol yn wyrddach, e.e.

Rhaid ailgylchu mwy.

Rhaid gwastraffu llai.

Rhaid tyfu ...

Dim gwastraffu dŵr.

Peidiwch gwastraffu dŵr.

Yn ogystal, gallen nhw wneud posteri neu daflenni neu lanlwytho gwybodaeth ar wefan yr ysgol er mwyn annog disgyblion i gymryd camau i gynorthwyo i wneud yr ysgol yn wyrddach.

- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi dysgu am y planedau.

Uned 1: Rhan 2 – Tom yn teithio

Nodau:

- Adolygu'r patrymau iaith a ddysgwyd ym Mhecynnau 1-3 a'u trosglwyddo i sefyllfaoedd a chyd-destunau eraill
- Ailymweld â'r ystafell ddosbarth Fictoraidd (Pecyn 3, Uned 3) er mwyn adolygu'r cyfnod Fictoraidd a'r amser gorffennol yn Gymraeg, **Roedd ...; Roedd y plant yn ... ; Roedden nhw'n ...**
- Gwerthuso darn o gerddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwerthuso paentiad drwy gyfrwng y Gymraeg ac ail-greu'r paentiad hwnnw gan efelychu'r arddull
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon, e.e. **Pwy wyt ti? Ble wyt ti'n byw? Faint ydy dy oed di? Wyt ti'n hoffi ...?** a.y.b.

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i eisiau gweld llun mwy. Pam wyt ti'n teithio? Achos dw i eisiau gweld y byd. Wyt ti'n dod 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg? Dim nawr / rŵan. Roedd e'n/o'n ysgrifennu miwsig. Beth ydy'r llun? Mae'r llun yma'n enwog.	drewi llun mwy glanio Norwy sgrechian

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydy Tom yn yr ardd? Ydy. / Nac ydy. Ble mae e/o? Dw i ddim yn gwybod. Gawn ni weld. Beth ydy hwn? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth am ...? Sut mae'r tywydd? Mae hi'n braf. Ga i weld llun o Norwy os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun? Dw i'n gallu gweld ... Pa liwiau sy yn y llun? Oren a brown. Sut wyt ti'n teimlo? Dw i'n teimlo'n ofnus. Wyt ti'n hoffi'r llun? Dw i ddim yn siŵr. Beth sy'n bod? Gorchmynion Edrycha. Cer at y cylch coch. = Dos at y cylch coch. Patrymau eraill Dydy Tom ddim yn hoffi'r athrawes. Dere yma. = Tyrd yma. Mae hi'n hardd yma.	yr ysgol Fictoraidd athrawes cas creulon y ganolfan gompostio Ych a fi! llun mwy cerdded coedwig mynyddoedd môr rhaeadr coedwig pont hardd teimlo'n drist

Mae hi'n anhygoel yma. Roedd athrawes gas yn yr ysgol.	
---	--

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau ...?; Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.

Dere yma = Tyrd yma; Dewch yma.

Edrycha.; Edrychwch.

Beth wyt ti'n wneud?; Beth ydych chi'n wneud?

Trafod paentiadau:

Mae'r llun yma'n enwog.

Beth ydy teitl y llun?

... – gan (Edvard Munch)

Pa liwiau sy yn y llun?

Coch ... ac oren ... a glas ... a gwyrdd ... a brown.

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Beth arall wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Wyt ti'n hoffi'r llun?

Ydw. / Nac ydw. / Dw i ddim yn siwr.

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n drist, dw i'n meddwl.

Ydy'r llun yn drist / hapus?

Mae'r llun yn ...

Ydy'r llun yn dda?

Ydy achos ... / Nac ydy, achos ...

Pam mae'r llun yn dda?

Achos mae'r (lliwiau)'n effeithiol ...

Mae stori yn y llun.

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Cyn dangos y ffilm, gallech chi adolygu'r geiriau sy'n gysylltiedig ag ystafell ddosbarth Fictoraidd. Gweler Pecyn 3, Uned 3, Rhan 3.
- Dangoswch ran gynta'r ffilm **Tom yn teithio** (Uned 1, Rhan 2) hyd at y man lle gwelir y Welsh Not o gwmpas gwddf y plentyn.
- Gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw wedi'i weld ar y ffilm:
Beth sy ar y ffilm?
Gwnewch restr.
Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr hira?

Pwy sy wedi ennill?
Sawl gair?
- Dangoswch y darn eto ac adolygwch yr eirfa wrth i amryw wrthrychau'r ystafell ddosbarth gael eu dangos. Gofynnwch:
Beth ydy hwn?
- Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i ysgrifennu sylwebaeth sy'n seiliedig ar beth maen nhw'n ei weld, felly chwaraewch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu nodiadau tra byddan nhw'n gwylio. Yna, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r sylwebaeth, e.e.
Dyma'r ...

Dyma'r plant. Maen nhw'n gwisgo ...
Dyma'r athrawes. Mae hi'n ...

Gellid ysgrifennu hyn yn yr amser gorffennol hefyd os yw'n briodol:

Dyma'r ...

Dyma'r desgiau. Roedd y desgiau'n hir.

Dyma'r llechi. Roedd y plant yn ysgrifennu ar y llechi.

Dangoswch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch i rai o'r disgyblion ddarllen eu sylwebaeth tra bydd y ffilm yn cael ei dangos.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 4** fel bod y disgyblion yn siarad yn rhydd am y cyfnod Fictoraidd: **Siaradwch am yr ysgol Fictoraidd.**

Dylai'r disgyblion siarad am yr ystafell ddosbarth Fictoraidd ac am fynd i'r ysgol yn ystod y cyfnod Fictoraidd gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn siarad ynghyd ag unrhyw batrymau a geirfa sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Yn ogystal, gallech chi adolygu agweddau eraill ar fywyd yn ystod y cyfnod Fictoraidd (Pecyn 3, Uned 3) fel y bo'n briodol.

- Eglurwch eich bod yn mynd i wrando ar y gerddoriaeth gefndirol a'ch bod chi'n mynd i ofyn cwestiynau amdani. Adolygwch sut i fynegi barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig?

Mae'n dawel.

araf

gyflym

gryf

uchel

Gallech chi gyflwyno'r canlynol ac adolygu teimladau hefyd:

Mae'n bwerus.

ymlaciol

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn dawel.

dda

wych

ardderchog

ofnadwy

araf

gyflym a.y.b.

Dw i'n teimlo'n hapus.

drist

ofnus

nerfus

fywiog

Dw i'n teimlo wedi blino.

Dangoswch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar y gerddoriaeth. Yna, gofynnwch iddyn nhw drafod hyn mewn grwpiau:

Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig?

Sut wyt ti'n teimlo?

Sut mae'r miwsig yn gwneud i ti deimlo?

Dw i'n teimlo'n ...

Gallech chi ofyn iddyn nhw drafod y canlynol hefyd:

Pa offerynnau wyt ti'n gallu clywed?

Dw i'n gallu clywed ...

Gellid gwahodd y disgyblion i ddod â CDs o'u hoff gerddoriaeth i'r dosbarth a gellid eu chwarae er mwyn atgyfnerthu'r patrymau uchod.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu am y darnau gwahanol maen nhw'n eu clywed hefyd, e.e.

Darn 1

Enw:

Offerynnau:

Mae'r miwsig yn ...

Dw i'n teimlo'n ...

- Dangoswch y rhan nesaf, lle mae Beca'n ymweld â chanolfan compostio. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau sy'n seiliedig ar y cynnwys, e.e.

Ble mae Beca?

Ble mae Beca'n mynd?

Pam mae Beca'n mynd i'r ...?

Beth sy yn y ...?

Pa liw ydy'r lori?

Beth mae Beca'n wisgo?

Beth ydy enw'r compost?

Ydy Tom yn y ...?

Beth sy'n digwydd?

Yna, gallai'r disgyblion ofyn y cwestiynau hyn mewn cwis a gellid rhoi marciau i'r grwpiau am atebion cywir.

- Gallech chi dynnu sylw at y symbolau ac at yr arwydd Cymraeg a welir ar y sgrin:
Gwastraff o'r ardd
Gallai'r disgyblion wneud arwyddion tebyg ar gyfer eu man compostio neu ar gyfer yr ardd yn yr ysgol.
- Gellid adolygu'r gwaith a wnaed ym Mhecyn 3, Uned 4, Rhan 4 (y ganolfan compostio) os yw'n briodol.
- Dangoswch y darn eto a thynnwch sylw at ddefnydd Beca o:
Ydy o yn y ...? Nac ydy. (neu **Ydy** ar gyfer ateb cadarnhaol).

Os ydych chi'n dymuno adolygu'r patrwm hwn, gallech chi guddio gwrthrych yn yr ystafell a gofyn i'r disgyblion ofyn cyfres o gwestiynau er mwyn dod o hyd iddo.

Yn yr un modd, gallech chi ddefnyddio map o'r byd a dychmygu bod Tom yn ymweld â gwlad benodol. Ysgrifennwch enw'r wlad ar ddarn o bapur, e.e.

Mae Tom yn (Ffrainc).

Gofynnwch i'r disgyblion ofyn cyfres o gwestiynau er mwyn canfod ble mae e:

Ydy Tom yn Awstria?

Nac ydy.

Ydy Tom yn Ffrainc?

Ydy. (Dangoswch y frawddeg sydd wedi cael ei hysgrifennu ar y darn o bapur.)

Gallai'r disgyblion wneud y gweithgaredd hwn eu hunain.

- Gallech chi ofyn iddyn nhw ysgrifennu ar ddarn o bapur ble mae Tom yn eu barn nhw.
Gofynnwch iddyn nhw ddarllen eu brawddegau ar goedd ond, cyn symud ymlaen, dywedwch
Gawn ni weld ...

- Dangoswch y darn olaf yn ei gyfanrwydd.
Gofynnwch i'r disgyblion:
Ble mae Tom?
[Ateb: **Yn Norwy.**]

Gwiriwch a oes unrhyw ddisgyblion wedi dyfalu lleoliad Tom yn gywir yn y cam blaenorol a gofynnwch iddyn nhw chwilio am leoliad Norwy ar fap, mewn atlas neu ar glôb.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol sy'n gysylltiedig â'r ffilm:

Sut mae'r tywydd yn Norwy?

Mae hi'n oer.

Mae hi'n braf.

Beth mae Tom yn wneud yn Norwy?

Mae e'n/o'n cerdded yn y goedwig.

Mae e'n/o'n gweld trol.

Beth ydych chi'n ddysgu am Norwy o'r ffilm?

Mae Norwy yn hardd.

Mae Norwy yn hyfryd.

Mae mynyddoedd yn Norwy.

Mae trols yn Norwy.

Beth ydy enw'r llun ar y ffilm?

Beth ydy teitl y llun ar y ffilm?

Beth ydy enw'r artist?

Edvard Munch.

- Dangoswch y paentiad ar y ffilm:

Mae'r llun yma'n enwog.

Pa liwiau sy yn y llun?

Coch ... ac oren ... a glas ... a gwyrdd ... a brown.

Mae'r lliwiau'n gryf.

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Beth arall wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Wyt ti'n hoffi'r llun?

Ydw. / Nac ydw. / Dw i ddim yn siwr.

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n drist, dw i'n meddwl.

Ydy'r llun yn drist / hapus?

Mae'r llun yn ...

Ydy'r llun yn dda?

Pam mae'r llun yn dda?

Achos mae'r lliwiau'n effeithiol – oren tywyll ... oren golau ... brown.

Achos mae'r person yn ddiddorol.

Achos mae e'n/o'n ddiddorol / rhyfedd.

Gallech chi dynnu sylw at yr **arlliwiau gwahanol**.

Edrychwch ar y glas golau a'r glas tywyll.

Edrychwch ar yr oren tywyll a'r oren golau.

Yna, gallai'r disgyblion lawrlwytho delwedd o'r paentiad ac ysgrifennu darn byr amdano, e.e.

Dyma ... gan ...
Teitl y llun ydy ...
Yn y llun, dw i'n gallu gweld ...
Mae'r llun yn ddiddorol achos ...
Mae'r lliwiau'n gryf - ...
Mae'r llun yn drist achos ...
Dw i'n meddwl bod y llun yn ... achos ...
Yn y llun, dw i'n gallu gweld ...

- Gallai'r disgyblion geisio ail-greu'r paentiad, gan ddefnyddio arlliwiau gwahanol.

Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 5.**

A: Rwyf ti'n cerdded. Yn sydyn, rwyf ti'n stopio ac rwyf ti'n sgrechian.

B: Gofynna beth sy'n bod?

Gallai'r disgyblion chwarae'r rôl yma, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau neu eiriau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Dylid tynnu sylw at y patrymau canlynol – efallai y bydd y rhain yn llai cyfarwydd:

Dw i wedi colli ...

O, Bechod!

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu'r ddeialog a gellid arddangos y gwaith hwn yn yr ystafell ddosbarth, a'i roi o gwmpas llun o'r *Sgrech*.

- Gallech chi chwarae'r darn sy'n cyfeirio at Grieg eto a thynnu sylw at y darn o gerddoriaeth sy'n chwarae yn y cefndir.

Yna, chwaraewch fersiwn sy'n cael ei chwarae gan gerddorfa lawn a dywedwch beth yw'r teitl: *Y Bore*, gan Grieg.

Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid a dychmygu'r bore sy'n cael ei gyfleu yn y darn. Beth sy'n dod i'r meddwl wrth wrando ar y gerddoriaeth – beth maen nhw'n gallu'i weld? Gallen nhw greu darnau o waith celf er mwyn cyfleu'r golygfeydd hyn.

Os yw'n briodol, gallech chi adolygu:

Pa offerynnau wyt ti'n gallu clywed? (a gyflwynwyd ym Mhecyn 2, Uned 5)

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion fynegi barn am y gerddoriaeth a gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 6.**
Gwrandewch ar y miwsig.
Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?
Siaradwch mewn grŵp.

Gallai'r disgyblion drafod y gerddoriaeth, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau a geiriau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Gallen nhw ysgrifennu am y gerddoriaeth hefyd.

Teitl y miwsig ydy ... gan ...

Yn y miwsig, dw i'n gallu clywed ...

Mae'r miwsig yn ddiddorol achos dw i'n gallu gweld ...

Mae'r miwsig yn ...

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ... achos ...

Dw i'n teimlo'n ...

- Mae'r ffilm yn gorffen gyda chyfeiriadau at y trols. Gofynnwch:
Pwy ydy'r trols?
Beth ydy'r trols?

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i ddelweddau o drols a'u dangos i'r grŵp. (Efallai y bydd angen i chi gyflwyno / adolygu rhannau'r corff.):

Dyma trol mawr / trol bach.
Edrychwch ar y trwyn mawr / trwyn bach.
Edrychwch ar y clustiau mawr / clustiau bach.
Mae e'n/o'n drewi.
Ych a fi.

- Darllenwch y gyfrol **Y Trol o dan y Bont**, sef chwedl draddodiadol o Norwy, ac yna gwnewch y gweithgareddau sydd yng nghefn y gyfrol honno.
- Gallech chi ddilyn y camau sy'n cael eu hyrwyddo gan Pie Corbett*, e.e.
 - Gwnewch fap stori.
 - Defnyddiwch y map stori y tro nesaf y byddwch yn adrodd y stori a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei arddangos yn yr ystafell ddosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu mapiau stori eu hunain.
 - Adroddwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu'n raddol.
 - Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau, ymadroddion a.y.b. rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
 - Wrth i'r disgyblion ddysgu'r stori, gwahoddwch nhw i adrodd y stori yr un pryd â chi.
 - Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus, gallai grwpiau adrodd y stori e.e. merched, bechgyn, grwpiau sy'n eistedd o gwmpas byrddau a.y.b.
 - Gellid sefydlu cylchoedd stori lle gallai'r disgyblion adrodd storïau i'w gilydd, a chynorthwyo'i gilydd yn ôl yr angen.
 - Gallai'r disgyblion feimio golygfeydd penodol hefyd.
 - Gallen nhw actio golygfeydd penodol, e.e. pan fydd y trol yn herio'r geifr.
 - Gallen nhw actio'r stori, efallai yn ystod gwasanaeth yr ysgol, gan ddefnyddio props priodol.
 - Gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn yn y gadair goch yn ogystal, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd yn y gadair goch a gallai'r disgyblion eraill ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:
Pwy wyt ti?
Y trol ydw i.
Sut wyt ti?
Dw i'n ofnadwy / grac / flin. / Dw i'n teimlo'n ofnadwy / grac / flin.
Pam?
Achos mae'r buchod geifr yn cerdded dros y bont.
Beth wyt ti eisiau?
Dw i eisiau bwyta'r buchod geifr ...
Ble mae'r buchod geifr?
Ar y bryn.
- Gallai'r disgyblion ysgrifennu arwydd ar ffurf rhybudd a gallai gynnwys delwedd o'r trol, e.e.

Byddwch yn ofalus!
Mae trol mawr ych a fi yn byw o dan y bont.

Rhaid croesi'r bont yn dawel. Dim sŵn! Dim siarad! Dim chwerthin!

Rhaid croesi'r bont yn ofalus.

- * Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
 Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007
- Gallai'r disgyblion wneud y canlynol:
 - *collage* sy'n cyfleu golygfeydd gwahanol o'r chwedl
 - pypedau, e.e. pypedau bysedd / pypedau ffyn i gyfleu'r cymeriadau; gellid defnyddio'r rhain mewn gweithgareddau chwarae rôl.
 - modelau o'r dirwedd a'r cymeriadau; gellid defnyddio'r rhain wrth i'r disgyblion ailadrodd y chwedl.

Gallen nhw wneud bwrdd stori hefyd a fyddai'n golygu defnyddio sgiliau TGCh.

- Gallai'r disgyblion ddysgu'r gân werin Gymraeg, **Oes gafr eto?**
- Gellid creu symudiadau dawns er mwyn cyfleu'r golygfeydd gwahanol, e.e. y geifr yn trotian yn hapus ar draws y bont, y trol yn ymddangos ac yn eu bygwth, a'r ymosodiad gan yr afr fawr.
- Pan fydd gan y disgyblion afael gadarn ar y stori, gellid eu gwahodd i'w haddasu hi, e.e. gallen nhw newid:
 - y cymeriadau
 - y trol o dan y bont
 - y sgwrs
 - y diwedd.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Dylen nhw ailadrodd y stori bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd stori a pharau cyn ceisio'i hysgrifennu hi, gyda'ch cymorth chi ar y dechrau.
- Dylai'r disgyblion ysgrifennu a darlunio'u gwaith yn briodol.
- Yn ogystal, gallen nhw gynhyrchu animeiddiad o'u stori – neu o'r stori wreiddiol am y trol. Byddai hyn yn golygu dylunio, sgriptio, animeiddio, recordio troslais, deialog ac effeithiau sain.

Uned 1: Rhan 3 – Yn y gofod

Nodau:

- Trafod byw ar yr Orsaf Ofod Ryngwladol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Dysgu am deithio yn y gofod yn ystod y 1960au drwy gyfrwng y Gymraeg
- Atgyfnerthu a defnyddio ffurfiau'r amser gorffennol – **roedd ...** ac **roedden nhw'n ...** mewn cyd-destun gwahanol a chyflwyno'r ymadrodd **aeth ...**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae e'n/o'n lwcus. Mae pobl eraill yn teithio yn y gofod. Mae pobl yn byw yn y gofod. Ble maen nhw'n byw? Maen nhw'n byw mewn gorsaf arbennig. Sut maen nhw'n teithio i'r orsaf? Mewn roced. Mae rocedi eraill wedi teithio ... Dyma nhw'n mynd ...	gorsaf arbennig dyn Rwsia cosmonot y dyn cynta(f) arwr diolch roced bwysig iawn astronot yr astronot arall America o gwmpas

Yr amser gorffennol	
Yn 1961, roedd dyn o Rwsia yn teithio mewn roced yn y gofod. Pwy oedd e/o? Roedd Yuri Gagarin yn gosmonot. Roedd pawb yn hapus. Roedd pawb yn hoffi Yuri Gagarin. Roedd e'n/o'n arwr. Roedd y roced yn mynd i'r Lleuad. Roedd yr astronots yn siarad â phobl yn Houston. Roedd Neil Armstrong a Buzz Aldrin yn cerdded ar y Lleuad. Roedd y chwe degau'n gyffrous iawn. Roedd pobl yn teithio yn y gofod. Roedd e'n/o'n wych. Roedden nhw'n hapus iawn. Ble oedd Michael Collins? Roedd e'n/o'n teithio o gwmpas y Lleuad. Aeth rocedi ...	

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble maen nhw'n byw yn y gofod? Gorchmynion Edrycha. Ymadrodd arall Does dim llawer o ffilm.	teithio y gofod gorsaf pawb hapus roced y Lleuad i fyny baner

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha.; Edrychwch.

Wyt ti eisiau gweld ffilm o ...?; Ydych chi eisiau gweld ffilm o ...?

Anhygoel!

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Yn y gofod** (Uned 1, Rhan 3) drwyddi.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?

Mae'r ffilm yn ddiddorol iawn.

Mae'r ffilm yn ofnadwy.

Mae'r ffilm yn ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol iawn achos dw i'n mwynhau dysgu am y gofod.

Dw i wedi mwynhau'r ffilm achos mae'n ddiddorol.

- Dangoswch y ffilm fesul darn. Stopiwch y ffilm ar ôl yr adran sy'n ymwneud â'r Orsaf Ofod Ryngwladol.

Gofynnwch i'r disgyblion chwilio am ddelweddau o'r Orsaf Ofod Ryngwladol, yna cyflwynwch y ffeil ffeithiau, **Yn y Gofod**.

Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion wedi deall y wybodaeth. Yna, gallen nhw ysgrifennu cwestiynau a gellid defnyddio'r rhain mewn cwis neu gallech chi ofyn cwestiynau, e.e.

Beth mae'r bobl yn fwyta?

Ble maen nhw'n cysgu?

Beth maen nhw'n hoffi gwneud?

a.y.b.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 7** lle mae grŵp, **Partner B**, yn holi unigolyn, **Partner A**, am ei brofiadau / phrofiadau:

A: Rwyf ti'n gweithio yn y gofod.

B: Gofynnwch gwestiynau i A.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion chwarae rôl y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Yna, gallen nhw ddychmygu eu bod nhw'n byw yn yr orsaf ofod. Dylen nhw ysgrifennu neges e-bost at eu teulu neu eu ffrindiau, e.e.

At: Oddi wrth: Pwnc:
Helo ... Dw i yn yr orsaf ryngwladol yn y gofod. Dw i'n teimlo'n ... Dw i'n bwyta ... Yn y nos, dw i'n ... Rhaid cadw'n heini, felly dw i'n ... Yfory, dw i'n mynd i gerdded yn y gofod, felly, rhaid ... Mae byw yn y gofod yn ... Hwyl fawr!

- Canolbwyntiwrch eto ar y darn o'r ffilm sy'n dangos teithio yn y gofod yn ystod y 1960au.

Gallai'r disgyblion chwilio am leoliad Rwsia a Houston, America, ar fap neu ar glôb.

Gallen nhw chwilio am wybodaeth am deithio yn y gofod yn ystod y 60au a gwneud llinell amser. Gallen nhw chwilio am wybodaeth am Apollo 11 yn benodol.

Gan fod yna gyfeiriad at y ffaith bod yr astronotiaid Americanaidd wedi cadw mewn cysylltiad â'r ganolfan reoli yn Houston, gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 8**:

A: Rwyf ti'n cerdded ar y Lleuad.

B: Rwyf ti yn Mission Control, yn Houston. Siaradwch.

Dylai'r disgyblion chwarae rôl y sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau a geirfa sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Gallai'r disgyblion anfon neges e-bost at eu teuluoedd ar ôl hyn, e.e.

At: Oddi wrth: Pwnc:
Helo ... Dw i 'nôl yn Apollo 11. Dw i'n teimlo'n ... achos ... Heddiw, es i ar y Lleuad. Roedd e'n/o'n ... Roedd hi'n ... (y tywydd) ar y Lleuad. Roedd ... yn teithio ... Dw i'n dod adre rŵan / nawr. Wela i di ar ... Hwyl fawr!

Uned 1: Rhan 4 – Tom yn Awstralia

Nodau:

- Dysgu am Awstralia drwy gyfrwng y Gymraeg ac yna cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo
- Adolygu iaith ddisgrifiadol a pherswadiol sy'n addas ar gyfer deunyddiau hyrwyddo
- Adolygu trafod gwaith celf drwy gyfrwng y Gymraeg ac edrych yn benodol ar arddull artistig, frodorol, draddodiadol o Awstralia, ei ail-greu a'i werthuso
- Dechrau gwaith mathemategol mewn perthynas â pharthau amser, os yw'n briodol
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth mae e'n/o'n wneud yn Awstralia? Dw i ddim yn gwybod. Mae'n bosib ... tua ... centimetr wrth ... centimetr	O'r diwedd! enwog ton, tonnau sgwba-blymio abseilio craig weithiau dail ewcalyptws yn uchel llygad dannedd hirsgwar = petryal neidr dot, dotiau yn garedig

Dw i wedi ...
Dw i wedi syrffio ar draeth Bondi. Dw i wedi deifio. Dw i wedi dringo Pont Sydney. Dw i wedi gweld Ayers Rock. Dw i wedi gweld cangarw a coala. Dw i wedi teithio yn yr <i>Outback</i> . Dw i wedi teithio i lawr afon mewn caiac ... a dw i wedi gwneud naid bynji.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ... Beth ydy'r sŵn? Beth ydy hwn? Beth ydy'r rhain? Beth ydy e/o? Beth sy'n bod? Beth sy'n digwydd? Beth sy yn y llun? Pa liwiau sy yn y llun? Wyt ti'n hoffi ...? Gorchmynion Tyrd i Awstralia. = Dere i Awstralia.	traeth, traethau (g)lan y môr dringo cerdded rhaeadr gwlad hardd coeden dail dawnsio dawns i oddi wrth syrpreis anrheg cinio

Patrymau eraill

Dyma'r ...
 Mae rhai pobl yn ...
 Mae llawer o bobl yn ...
 Maen nhw'n ...
 Mae Awstralia'n ddiddorol.
 Mae Awstralia'n gyffrous.
 Mae Awstralia'n anhygoel.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ...

Beth ydy'r sŵn?

Beth am siarad â ...?

Beth mae e'n/o'n wneud?

Beth ydy hwn?

Beth ydy e/o?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Tom yn Awstralia** (Uned 1, Rhan 4) hyd at y man lle mae Sgrin yn cynnig dangos y ffilm o Awstralia, ac mae'n dweud:
Un funud ... Barod?

Gwnewch yn siŵr bod y disgyblion wedi deall beth sy'n digwydd drwy ofyn cwestiynau perthnasol, e.e.

Ble mae Tom?

Beth mae Tom yn wneud yn Awstralia?

Mae e'n/o'n syrffio.

deifio

dringo (Pont Sydney)

gweld Ayers Rock

gweld cangarŵ a coala

teithio (yn yr Outback)

teithio mewn caiac

gwneud naid bynji

Rhestrwch y rhain ar y bwrdd gwyn.

Tynnwch sylw at y ffaith fod Tom yn dweud ei fod **wedi** gwneud y pethau hyn – pwysleiswch **wedi** yn y brawddegau canlynol:

Dw i wedi syrffio ar draeth Bondi.

Dw i wedi deifio.

Dw i wedi dringo Pont Sydney.

Dw i wedi gweld Ayers Rock.

Dw i wedi gweld cangarŵ a coala.

Dw i wedi teithio yn yr Outback.

Dw i wedi teithio i lawr afon mewn caiac ... a dw i wedi gwneud naid bynji.

Yna, mae e'n dweud:

Roedd e'n grêt.

Gofynnwch i'r disgyblion drosglwyddo'r patrymau hyn i'w sefyllfaoedd nhw eu hunain, e.e.

Beth wyt ti wedi gwneud heddiw?

Dw i wedi cerdded i'r ysgol.

Dw i wedi rhedeg ar yr iard.

Dw i wedi bwyta cinio.

Dw i wedi ysgrifennu.

Dw i wedi darllen.

Dw i wedi canu.

Dw i wedi siarad Cymraeg.

Gallech chi atgoffa'r disgyblion eu bod nhw'n gwybod **Dw i wedi blino** eisoes.

Ceisiwch ddefnyddio'r patrymau hyn gyda'r disgyblion fel y bo'n briodol drwy gydol y dydd, e.e. ar ddiwedd gweithgaredd:

Beth wyt ti wedi gwneud?

Ar ôl cinio: **Beth wyt ti wedi bwyta?**

Ar ôl cwblhau tasg: **Wyt ti wedi gorffen?**

- Dangoswch y darn hwn eto a chanolbwyntiwrch ar y gerddoriaeth gefndirol.

Trafodwch y gerddoriaeth hon gan ddefnyddio patrymau sydd wedi cael eu cyflwyno eisoes yn yr uned hon.

- Canolbwyntiwrch ar y darn lle mae Tom yn mynegi barn am Awstralia:

Anhygoel!

Mae Awstralia'n anhygoel!

Mae Awstralia'n hyfryd.

Mae Awstralia'n gyffrous.

Mae Awstralia'n wych.

- Gwnewch yn siwr fod y disgyblion yn deall ystyr y brawddegau hyn – maen nhw wedi cael eu defnyddio sawl gwaith o'r blaen.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 9:**

A: Beca wyt ti. Siarada gyda Tom.

B: Tom wyt ti. Siarada gyda Beca.

Dylai'r disgyblion chwarae rôl gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw eirfa a phatrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

- Symudwch ymlaen at ran nesa'r ffilm – y ffilm am Awstralia. Cyn ei gwyllo, fodd bynnag, gofynnwch i'r disgyblion wyllo'n ofalus iawn oherwydd bydd angen iddyn nhw restru beth maen nhw'n ei weld ar y ffilm wedyn.

- Dangoswch y ffilm am Awstralia. Gallech chi stopio'r ffilm bob hyn a hyn er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion ateb y cwestiynau, e.e.

Beth ydy hwn?

Beth ydy'r rhain?

Os nad ydyn nhw'n siŵr ai crocodeil neu aligator yw'r anifail sydd i'w weld tua diwedd y ffilm, gallen nhw chwilio am wybodaeth am y ddau anifail hyn, e.e. nodweddion corfforol, ble maen nhw'n byw a.y.b. ac yna penderfynu pa anifail sydd i'w weld ar y ffilm.

- Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau a rhestru beth welon nhw ar y ffilm – yn Gymraeg os oes modd – ond dywedwch wrthyn nhw am ddefnyddio geiriau Saesneg os nad ydyn nhw'n siŵr beth yw'r geiriau Cymraeg.

Cynharwch y rhestri.

- Gofynnwch iddyn nhw restru pa weithgareddau mae modd eu gwneud yn Awstralia:

Mae'n bosib...

Dangoswch y darn eto fel eu bod nhw'n gallu gweld y gweithgareddau eto. Yna, gallen nhw chwilio am ragor o wybodaeth.

- Gofynnwch iddyn nhw restru'r farn sy'n cael ei mynegi.
Mae'r Tŷ Opera'n ddiddorol iawn.
Mae Awstralia'n ...

Dangoswch y darn eto fel eu bod nhw'n gallu clywed y farn eto.

Gofynnwch i'r disgyblion fynegi eu barn eu hunain am Awstralia:

Mae Awstralia'n wych achos ...
Dw i'n meddwl bod Awstralia'n ... achos ...

Eglurwch eu bod nhw'n mynd i ysgrifennu deunyddiau hyrwyddo am Awstralia, e.e. taflen, poster neu wybodaeth y gellir ei lanlwytho ar wefan. Byddan nhw'n gallu defnyddio'r wybodaeth sydd ar y ffilm ond dylen nhw chwilio am ragor o wybodaeth a delweddau lle y bo modd.

Adolygwch batrymau iaith priodol, e.e.

- Ffeithiol:

Mae traethau / llynnoedd / afonydd / mynyddoedd / gwlad hardd / parciau yn Awstralia.

Dyma'r trefi:

Mae ... yng Ngogledd Awstralia.

Mae ... yn Ne Awstralia.

Mae ... yng Ngorllewin Awstralia.

Mae ... yn Nwyrain Awstralia.

- Disgrifiadol:

Sylwer: mae treigladd meddal os dych chi'n defnyddio ansoddair ar ôl 'yn':

t>d; p>b; c>g; d>dd; b>f; g> -; m>f

uchel: Mae Ayer's Rock yn uchel.

coch: Mae Ayer's Rock yn goch.

perffaith: Mae'r traethau'n berffaith.

da: Mae'r bwyd yn dda iawn.

glas: Mae'r môr yn las iawn.

bendigedig: Mae traeth Bondi yn fendigedig.

mawr: Mae'r Outback yn fawr.

- Perswadiol:

Dewch i weld y ...

Ydych chi'n hoffi syrffio ... deifio ... snorclo? Dewch i Awstralia achos mae'n hwyl.

Tyrd / Dere i weld y ...

Wyt ti'n hoffi syrffio ... deifio ... snorclo? Tyrd / Dere i Awstralia achos mae'n gyffrous.

Beth am ddod i Awstralia i weld y ...?

Beth am ddod i Awstralia i fwynhau'r ...?

Yna, gallai'r disgyblion ddarllen gwaith ei gilydd a mynegi barn a.y.b.

- Dangoswch y darn olaf, lle mae Beca'n derbyn anrheg oddi wrth Tom. Ar ôl iddi ofyn **Beth ydy o?**, gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth yw e:
Beth ydy e/o? Dyfaluwch.

Mae'r adran hon yn adolygu ac yn datblygu'r patrymau iaith a gyflwynwyd yn Rhan 2, ble y trafodwyd paentiad Edvard Munch, *Y Sgrech*.

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld neidr.

Wyt ti'n hoffi'r llun?

Ydw, mae'r neidr yn wych.

Pa liwiau sy yn y llun?

Brown ... a du ... a gwyn ... Mae'n hardd.

Edrycha'n ofalus ar y llun. Beth wyt ti'n gallu gweld?

Dotiau! Dw i'n gallu gweld dotiau. Waw – llun neidr ... o ddotiau.

Mae'r llun yma'n dod o Awstralia.

Gellid defnyddio'r patrymau uchod i drafod gwaith celf a lluniau'n gyffredinol yn yr ystafell ddosbarth fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n realistig mewn sesiynau celf a dylunio.

- Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 10** fel bod y disgyblion yn cael cyfle i ddefnyddio'r patrymau hyn a thrafod paentiad dotiau arall o Awstralia.
Siaradwch am y llun.

Sylwer: Gallai'r geiriau canlynol for o gymorth i'r disgyblion:

crwban

patrwm

llinellau

- Gallai'r disgyblion chwilio am ragor o enghreifftiau ar y rhyngwrdd, gan ddewis llun sy'n apelio atyn nhw, ei lawrlwytho neu ei argraffu a'i drafod, gan ddefnyddio'r patrymau iaith uchod.

Eglurwch fod y lluniau hyn, yn draddodiadol, yn cyfleu agweddau ar fydd natur neu'n adrodd stori.

- Cyflwynwch y ffeithlen **Dotiau**. Eglurwch sut mae'r dull dotiau o baentio wedi datblygu o greu darnau o waith celf ar y ddaear, gan ddefnyddio deunyddiau megis dail, tywod, cerrig mân a.y.b., i beintio gyda ffyn a phaent y byddai brodorion Awstralia'n ei wneud eu hunain ac yna i dechnegau heddiw, sy'n defnyddio paent a brwshys.

Gallai'r disgyblion efelychu'r dulliau traddodiadol o greu gwaith celf drwy gasglu deunyddiau addas ac yna gallen nhw weithio mewn grŵp er mwyn cynhyrchu gwaith celf ar y ddaear drwy ddefnyddio'r deunyddiau hyn.

Yna, gallen nhw ddatblygu'r broses a gwneud eu paentiadau dotiau eu hunain. Dylen nhw ddewis testun, efallai'n gysylltiedig â byd natur, dewis paent a phaentio drwy wneud cyfres o ddotiau.

Mae patrymau iaith y gellir eu defnyddio ar gyfer disgrifio beth maen nhw'n ei wneud ac er mwyn gwerthuso'u gwaith ar gael yn y ddogfen **Patrymau Iaith PaC4**.

- Eglurwch fod brodorion Awstralia yn arfer canu a chwarae dijeridw tra bydden nhw'n creu'r darnau hyn o waith celf.

Dangoswch luniau o dijeridw a chwaraewch ddarn o gerddoriaeth dijeridw. Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig?

Mae'n ...

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ...

Eglurwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i wneud dijeridws lliwgar a gofynnwch iddyn nhw am syniadau ar gyfer eu gwneud:

Rydych chi'n mynd i wneud dijeridws.

Beth ydych chi'n mynd i ddefnyddio?

Dw i'n mynd i ddefnyddio ...

Beth ydych chi'n mynd i wneud?

Gallen nhw awgrymu'r deunyddiau a'r camau yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Gallech chi ddilyn y dull hwn:

Rhaid cael / Mae angen:

Rholyn cardbord

Paent

Brwsh

Papur

Glud

Plu

Siapiau papur

Os ydych chi'n defnyddio un rholyn cardbord hir*:

Peintiwch y rholyn yn lliwgar. Beth am ddefnyddio dotiau?

- Gludwch bethau ar y rholyn, e.e. plu, siapiau papur.
- Defnyddiwch ddarn o bapur i wneud côn a gludwch y darn ar y top (fel ceg yr offeryn).
- Eisteddwch ar y llawr.
- Rhowch un pen y dijerdw yn eich ceg a'r pen arall ar y llawr a chwaraewch y dijerdw.

* Os ydych chi'n defnyddio rholiau papur cegin, bydd angen eu gludo yn ei gilydd er mwyn creu rholyn hir.

Defnyddiwch bapur brown a glud i gludo'r rholiau i wneud un rholyn hir.

Chwaraewch y darn o gerddoriaeth dijerdw eto a gofynnwch i'r disgyblion geisio cynhyrchu'r un math o sain ar eu dijerdws nhw.

- Os yw'n briodol, gallech chi ddechrau gwneud gwaith ar barthau amser. Dangoswch ddiwedd y darn eto a gofynnwch:

Faint o'r gloch ydy hi yn y Pod-antur Cymraeg?

Faint o'r gloch ydy hi yn Awstralia?

Eglurwch fod y Pod-antur Cymraeg yn hedfan uwchben Cymru. Sut, felly, mae hi'n ddau o'r gloch y bore yng Nghymru ond yn ganol dydd ar Tom yn Awstralia?

Gallech chi ddangos map o'r byd sy'n dangos rhai o'r parthau amser gwahanol (e.e. gweler y gyfrol **Amser**, Uned 6) ac ar ôl egluro, gofynnwch gwestiynau megis:

Mae hi'n bump o'r gloch y bore yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi yn Awstralia?

Mae hi'n saith o'r gloch y nos yng Nghymru, faint o'r gloch ydy hi ym Mrasil?

a.y.b.

Mae mwy o waith mewn perthynas â pharthau amser yn cael ei gyflwyno yn Uned 6.

Uned 1: Rhan 5 – Helpu Sgrin

Nodau:

- Ailgyflwyno cymeriadau o becynnau eraill
- Disgrifio pobl yn Gymraeg
- Atgyfnerthu trafod lluniau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy edrych ar ffotograffau
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae hi'n dawel yma ... Ydy, mae hi'n dawel yma. Dyddiau da! Beth maen nhw'n wneud? Dw i'n cofio. Dw i yng Nghymru. Dw i'n gweithio. Dw i'n mynd i ofyn i ...	cyn wedyn gwifren wib; y wifren wib

Y gorffennol

Pwy oedd yn y Pod-antur Cymraeg?
Pwy oedd wedyn?
Yn gynta, roedd Crad a Ffion.
Wedyn, roedd Dyfs ac Izzy.
Roedd pawb yn hapus yn y lluniau.

Disgrifio personoliaeth

Mae Crad yn ddoniol (iawn).
Mae e'n/o'n garedig iawn.
Mae e'n/o'n berson neis iawn.

Roedd ... yn llawer o hwyl.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau gweld Crad a Ffion? O, ydw, os gwelwch yn dda. Sawl person? Oes ... yn y llun? Ble maen nhw? Beth ydych chi'n feddwl? Beth am ddarllen neges Crad? Oes e-bost yma? Oes. / Nac oes. Ble wyt ti? Ble mae Zip World? Ga i fynd i Gymru os gwelwch yn dda? Pam? Dw i eisiau mynd i ... Wyt ti'n gallu gweld ... ar y map? Ydw. / Nac ydw. Gorchmynion	gwersylla coedwig yn gynta yn ail yn drydydd buwch Dydd Gŵyl Dewi dod 'nôl e-bost oddi wrth neges Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru ger un funud / un munud dim problem tocyn bwrdd

Rhaid cael tocyn. Cer at y cylch coch. = Dos at y cylch coch. Patrymau eraill Mae hi'n dawel yma. Dyma nhw. Mae ... yn ddoniol. Dyna hwyl!	croeso
---	--------

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau gweld lluniau o ...?

Beth ydych chi'n feddwl?

Beth am edrych ar y cyfrifiadur?

Beth am ddarlennu ...?

Ga i fynd i ... os gwelwch yn dda?; Cei. / Na chei.

Wyt ti'n gallu gweld ... ar y map?; Ydw. / Nac ydw.

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Helpu Sgrin** (Uned 1, Rhan 5) hyd at ddiwedd y darn sy'n dangos Crad a Ffion yn y **pwll nofio**.

Gallech chi adolygu'r gwaith a wnaed eisoes mewn perthynas â nofio os yw'n briodol, yn enwedig mewn perthynas ag ymddwyn mewn modd addas mewn pwll nofio. Gweler Pecyn 1, Uned 5, Rhan 4 am fwy o fanylion.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion drafod mewn grwpiau beth maen nhw'n ei gofio am Crad a Ffion.
- Gallech chi dynnu sylw at y patrymau sydd yn y rhan hon o'r ffilm:
Mae hi'n dawel yma.
Ydy.
Mae hi'n dawel iawn.

Mae Crad yn ddoniol.

Ydy, mae Crad yn ddoniol iawn.

Mae'r enghreifftiau hyn yn atgyfnerthu'r patrwm a gyflwynwyd yn Rhan 1 yr uned hon:

Mae hi'n braf.

Ydy, mae hi'n braf iawn.

Gallech chi atgyfnerthu'r patrwm hwn yn naturiol yn yr ystafell ddosbarth bob dydd.

- Dangoswch ran nesa'r ffilm hyd at y darn sy'n dangos Dyfs ac Izzy'n rapio.

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y rap a gallen nhw berfformio'r rap eu hunain. Gallen nhw addasu'r geiriau hefyd ac ysgrifennu eu fersiynau eu hunain.

Io, ho, ho ... rapio ...

Io, ho, ho ... rapio ...

Io, ho, ho ... cŵl!

Mae rapio'n rili cŵl,

Mae rapio'n hwyl a sbri,

Dewch, ffrindiau da,

I rapio gyda fi.

Io, ho, ho ... rapio ...

Io, ho, ho ... rapio ...

Io, ho, ho ... cŵl!

- Dangoswch y rhan nesaf, lle mae Beca a Sgrin yn trafod y ffotograffau. Y nod yma yw atgyfnerthu'r patrymau a ddysgwyd eisoes wrth drafod gwaith celf a'u trosglwyddo i sefyllfaoedd gwahanol, e.e.

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Beth arall wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ...

Pwy sy yn y llun?

Ble maen nhw?

Sawl person / plentyn sy yn y llun?

a.y.b.

- Yna, gallai'r disgyblion ddod â'u ffotograffau eu hunain i'r ystafell ddosbarth ac yna, gan ddefnyddio'r patrymau uchod, gallen nhw eu trafod yn Gymraeg.

Gallen nhw ysgrifennu amdany'n nhw hefyd, gan ddefnyddio patrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw eisoes:

Dyma ...

Rydyn ni yn ...

Dw i'n gwisgo ... ac mae ... yn gwisgo.

Rydyn ni'n ...

Dw i'n mwynhau ...

Mae ... yn wych / grêt.

Maen nhw yn ...

Mae ... yn gwisgo ... ac mae ... yn gwisgo ...

Maen nhw'n ...

Mae ... yn mwynhau ...

Mae ... yn wych / grêt.

- Dangoswch y rhan nesaf, lle mae Beca yn dod ar draws neges e-bost Crad a'r ffilm o Zip World. Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw wedi'i ddysgu o'r neges:

Beth ydych chi'n ddysgu o'r e-bost?

(Mae'r patrwm **Beth ydych chi'n ddysgu o'r llun?** wedi cael ei gyflwyno eisoes.)

Helo Sgrin.

Sut wyt ti?

Ble wyt ti rŵan? Dw i yng Nghymru. Dw i'n gweithio yng Ngogledd Cymru. Dw i'n gweithio yn Zip World. Edrycha ar y fideo.

Dw i'n hapus iawn ond dw i eisiau dod 'nol i'r Pod-antur Cymraeg.

Hwyl fawr,

Crad

Mae Crad yng Ngogledd Cymru.

Mae e'n/o'n gweithio yn Zip World.

Mae e'n/o'n hapus.

Mae e/o eisiau dod 'nol i'r Pod-antur Cymraeg.

Gofynnwch:

Sut mae Beca'n teimlo?

Mae hi'n teimlo'n hapus / gyffrous achos mae hi eisiau gweld Crad.

- Dangoswch y rhan olaf.
Gofynnwch i'r disgyblion:
Ble mae Zip World?
Beth sy yn Zip World?

Tynnwch sylw at y tocyn:

Zip World ger Bethesda

Tocyn: un person

Gofynnwch i'r disgyblion ddylunio tocyn lliwgar, cyffrous a fyddai'n hyrwyddo'r lleoliad.

- Cyflwynwch y gyfrol **Dyddiau Da!** i orffen yr uned.
- Yna, gallai'r disgyblion wneud y gweithgareddau sy'n cael eu rhestru ar ddiwedd y gyfrol.

Uned 2

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg ail iaith

Llafaredd

Anogir disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. gofyn am fanylion personol, rhoi cyfarwyddiadau i'w gilydd mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a gwneud cychod, trafod yn anffurfiol, ond yn fanwl, ble maen nhw'n hoffi mynd, mynegi barn mewn sefyllfaoedd amrywiol, gan gynnwys trafod gwaith celf a disgrifio cymeriad ffuglennol.

Yn ogystal, mae cyfleoedd i actio'r sefyllfaoedd sydd yn y gyfrol **Pwy ydy'r ffrind da?**

Mae cyfleoedd i wyllo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wyllo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro. Gofynnir iddyn nhw wrando'n ofalus ac i gofnodi patrymau penodol a glywir ar y ffilm.

Gellid dosbarthu gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm a gellid gofyn i'r disgyblion eu llenwi gyda'r wybodaeth angenrheidiol.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis ffeil ffeithiau am wifren wib, neges e-bost, cerdd a dau lyfr. Mae un o'r llyfrau'n cynnwys senarios penodol a gofynnir i'r disgyblion eu trafod ac mae'r llall yn llyfr am gychod. Ceir rhestr o gwestiynau cyffredinol yn y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC4 ac mae rhestr o gwestiynau penodol sy'n berthnasol i'r llyfrau ar ddiwedd pob llyfr.

Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd ddisgrifiadau o gymeriadau, deialogau sydd yn y gyfrol **Pwy ydy'r ffrind da?**, sylwebaeth ffilm a chyfarwyddiadau mae'r disgyblion eu hunain yn eu hysgrifennu.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu rhestri, posteri a thaflenni mewn perthynas â Zip World, cerdyn post ar ran Beca a neges e-bost ar ran Crad. Gofynnir iddyn nhw ysgrifennu am gymeriadau gwahanol o lyfrau neu raglenni teledu. Mae cyfleoedd i ysgrifennu cyfarwyddiadau sy'n dangos sut i wneud model o gwch a gellid cynnwys ffotograffau gyda'r gwaith hwn. Ar ôl darllen y gyfrol **Pwy ydy'r ffrind da?**, mae cyfleoedd i ysgrifennu senarios tebyg a gellid actio'r rhain. Anogir y disgyblion i ysgrifennu sgript sylwebaeth ar gyfer rhannau o'r ffilm yn ogystal.

Mae cyfle i ysgrifennu gwahoddiadau neu lythyron yn gwahodd pobl i fynychu regata.

Saesneg

Anogir y disgyblion i wneud gwaith ymchwil mewn perthynas â Zip World, cychod a Catrin Williams, yr arlunydd o Gymru.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i adolygu arian wrth i Crad brynu llechen wedi'i haddurno ar gyfer Sgrin yn y siop anrhegion yn Llechwedd. Yn ogystal, gellid trafod oriau agor wrth i'r disgyblion siarad am ble maen nhw'n hoffi mynd yn Rhan 4.

Mae cyfleoedd i fesur mililitrau o ddŵr wrth baratoi **Cychod Jeli** ac i addasu rysâit ar gyfer 4 person fel ei bod yn gwneud digon o gychod jeli ar gyfer mwy / llai o bobl.

Gallai'r disgyblion ddefnyddio cyfesurynnau wrth chwilio am leoedd amrywiol ar fap.

Gwyddoniaeth

Mae'r gair "disgyrchiant" yn cael ei gyflwyno yn Rhan 2 ac mae'r cysyniad yn cael ei egluro'n syml. Gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach wrth i'r disgyblion gynnal arbrofion er mwyn dangos grym disgyrchiant.

Mae cyfleoedd i wneud modelau o gychod drwy ddefnyddio deunyddiau gwahanol ac i drafod pa rymoedd sydd eu hangen ar gyfer gwneud iddyn nhw symud. Mae'r gyfrol **Cychod ... Cychod ... Cychod** yn cynnwys rysâit y gallai'r disgyblion ei pharatoi.

Hanes

Mae cyfeiriadau at y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod Fictoraidd a gellid datblygu hyn ymhellach.

Daearyddiaeth

Gofynnir i'r disgyblion ddod o hyd i leoedd ar fap, gan ddefnyddio cyfesurynnau os yw'n briodol.

Celf a dylunio

Ar ôl gweld y llechen mae Crad wedi'i phrynu i Sgrin, gallai'r disgyblion baentio llechi, os oes rhai ar gael, neu gerrig eraill.

Gallai'r disgyblion drafod gwaith Catrin Williams, yr arlunydd o Gymru, chwilio am ragor o wybodaeth amdani a phaentio golygfeydd lleol, gan ddefnyddio lliwiau ac arddull debyg.

Yn ogystal, gallen nhw ddarlunio'r gerdd **Dw i wrth fy modd ...** neu eu fersiynau eu hunain ohoni.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** am batrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth i'r disgyblion wneud gwaith celf a'i werthuso.

Dylunio a thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud modelau o gychod, gan ddewis amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ac yna gwerthuso'r gwaith gan ddefnyddio patrymau iaith a restrir yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

Addysg gorfforol

Os yw'n briodol, gellid cynnal gweithgareddau ar y trampolîn ar ôl gwyllo Crad a Beca yn yr hen chwarel yn Rhan 4. Gellid trafod materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn perthynas â defnyddio trampolîn hefyd.

Cerddoriaeth

Cyflwynir y gân werin Gymraeg draddodiadol i blant, **Fuoch chi 'rioed yn morio?**, ac mae'r patrymau sy'n gysylltiedig â chanu a gyflwynwyd ym Mhecyn 2 yn wreiddiol yn cael eu hadolygu hefyd.

TGCh

Gallai'r disgyblion ddylunio a chynhyrchu posteri a thaflenni am Zip World. Fe'u hanogir hefyd i dynnu ffotograffau o'r camau gwahanol yn y broses o wneud cychod a'u cynnwys gyda'u gwaith ysgrifenedig.

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am Zip World, cychod a Catrin Williams, yr arlunydd o Gymru.

Y Cwricwlwm Cymreig

Yn ogystal â dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, rhoddir gwybodaeth sylfaenol am y diwydiant llechi yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod Fictoraidd a gwelir bod rhai o'r hen chwareli wedi cael eu troi'n atyniadau twristaidd bellach.

Cyflwynir y gân werin Gymraeg i blant, **Fuoch chi 'rioed yn morio?**.

Mae'r arlunydd o Gymru, Catrin Williams, yn cael ei chyflwyno yn y gyfrol **Cychod ... Cychod ... Cychod** ac anogir y disgyblion i chwilio am ragor o wybodaeth amdani hi a'i gwaith.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae'r disgyblion yn dysgu bod rhai disgyblion yn Bangladesh yn mynd i'r ysgol ar gwch. Mae'n eu casglu nhw a'u cymryd nhw i fyny'r afon lle maen nhw'n cael eu haddysgu ar y cwch.

ABCh

Mae cyfleoedd i drafod materion iechyd a diogelwch mewn perthynas â gweithgareddau antur ac i siarad am gyfeillgarwch ar ôl darllen y gyfrol **Pwy ydy'r ffrind da?**.

Datblygu Meddwl

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith pobl eraill. Gofynnir iddyn nhw ddyfeisio dulliau o wneud model o wifren wib ac i ystyried a dewis deunyddiau sy'n addas ar gyfer gwneud modelau o gychod.

Gallai'r disgyblion gynllunio a threfnu regata; byddai hyn yn golygu cydweithio'n agos iawn wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhad.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrdd ac i gyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf briodol, gan ddefnyddio meddalwedd briodol.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau gwahanol, a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 2: Rhan 1 – Crad

Nodau:

- Adolygu gwaith a wnaed yn y pecynnau blaenorol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch:
Rhaid ...; Dim ... !
- Tynnu sylw at atyniad cyffrous yng Ngogledd Cymru a thrwy hynny gynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion o atyniadau twristaidd yng Nghymru
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes mewn cyd-destunau ystyrlon, e.e. gofyn am / rhoi manylion personol

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae'n hir iawn. Mae'n uchel iawn. Wyt ti dros saith oed? Sut wyt ti'n gwybod? Sut wyt ti'n gwybod fy enw i?	clymu

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ga i helpu? Ga i fynd ar y wifren wib os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Faint ydy dy oed di? Ble wyt ti'n byw? Dw i'n byw yn ... Beth wyt ti'n hoffi gwneud? Dw i'n hoffi ...achos ... Dw i'n hoffi ... yn fawr. Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Barod? Beth sy yn y bag? Gorchmynion Tyrd 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg. = Dere 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg. Patrymau eraill Dw i eisiau mynd ar y wifren wib. Dw i ddim eisiau mynd ar y wifren wib. Roedd e'n/o'n gyffrous. Mae'r Pod-antur Cymraeg yn anhygoel. Mae Sgrin yn drist / unig.	cyffrous cyflym beicio Eryri bob dydd Sadwrn yn drist yn unig yn hapus syrpreis

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrychwch ar y ...

Ga i helpu?; Cei. / Na chei.

Ga i fynd ...?; Cei. / Na chei.

Rhaid (clymu'r gwallt).

Sut wyt ti'n gwybod?

Beth wyt ti'n hoffi gwneud?

Wyt ti'n barod?

Beth sy yn y ...?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Crad** (Uned 2, Rhan 1), hyd at y man lle mae Beca'n gwibio ar y wifren wib ac fe'i gwelir yn cyrraedd y pen arall.
- Gallech chi dynnu sylw at y **cerflun** sydd ar ddechrau'r ffilm. Gofynnwch i'r disgyblion, **Beth ydy hwn?**
Tynnwch sylw at y ffaith ei fod wedi cael ei wneud o **lechi**. Yna, gallech chi gyflwyno pethau eraill sydd wedi cael eu gwneud o lechi, gan egluro bod y wifren wib wedi cael ei lleoli mewn hen chwarel lechi yng Ngogledd Cymru.

Gallech chi hefyd gyflwyno'r ffeithlen **Y Wifren Wib**, sy'n rhoi gwybodaeth ragarweiniol am y wifren wib a lechi. Mae hi hefyd yn cyflwyno geiriau a fydd yn cynorthwyo'r disgyblion i ddeall y ffilm, yn enwedig:

yn hir
yn uchel

- Dangoswch y darn eto, ond y tro hwn, gofynnwch i'r disgyblion wrando ar y camau diogelwch mae Crad yn dilyn. Pa gwestiynau mae e'n gofyn i Beca a pham? Pa gyfarwyddiadau mae e'n rhoi iddi? Tynnwch sylw at y geiriau canlynol – mae'n bosib eu bod yn anghyfarwydd i'r disgyblion:

y wifren wib
gwallt
clymu
gemwaith
sandalau

Gallech chi adolygu'r patrymau canlynol hefyd, a'u hymarfer yn yr ystafell ddosbarth neu mewn perthynas â'r pwll nofio neu sefyllfa berthnasol arall:

Dim ...
Rhaid ...

Gofynnwch i'r disgyblion gymharu syniadau mewn grwpiau:

Y cwestiynau a ofynnir yw:

Faint ydy dy oed di?
Wyt ti dros saith oed?

Gallech chi ofyn:

Pam mae e'n/o'n gofyn y cwestiynau?
Rhaid bod dros saith oed i fynd ar y wifren wib.

Y cyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi yw:

Rhaid clymu'r gwallt.
Rhaid gwisgo helmed.

Dim gemwaith ar y wifren wib.
Dim sandalau a fflip fflops ar y wifren wib.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 11**, sy'n rhoi cyfle i ymarfer y patrymau hyn:
A: Beca wyt ti ac rwy't ti eisiau mynd ar y wifren wib.
B: Crad wyt ti ac rwy't ti'n gofyn cwestiynau i Beca ac yn helpu Beca.
Siaradwch.

Sylwer: dim ond geiriau cyntaf y patrymau angenrheidiol sydd ar y cerdyn hwn oherwydd y nod yw ceisio gwneud i'r disgyblion ffurfio'u patrymau eu hunain. Os bydd hyn yn rhy anodd iddyn nhw, gallech chi ddangos y darn eto a gofyn iddyn nhw gofnodi sut mae'r patrymau hyn yn cael eu defnyddio ar y ffilm.

- Dangoswch weddill y ffilm.
- Canolbwyntiwch eto ar y rhan lle mae Beca'n disgrifio'r profiad ac anogwch y disgyblion i ddefnyddio'r ymadroddion hyn pan fyddan nhw'n disgrifio digwyddiad yn y gorffennol:
Roedd o'n grêt ... roedd o'n gyffrous ... roedd o'n gyffrous iawn, iawn. Roedd o'n antur.
Roedd e'n grêt ... roedd e'n gyffrous ... roedd e'n gyffrous iawn, iawn. Roedd e'n antur.

- Dangoswch y darn ble mae Crad yn gofyn i Beca am ei manylion personol eto ac, mewn grŵp, gofynnwch i'r disgyblion nodi'r cwestiynau mae e'n gofyn:
Pwy wyt ti?
O ble wyt ti'n dod?
Ble wyt ti'n byw?
Faint ydy dy oed di?
Beth wyt ti'n hoffi gwneud?
Wyt ti'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg?

Mae'r holl gwestiynau hyn wedi cael eu cyflwyno a'u hadolygu'n gyson drwy gydol y pecynnau blaenorol. Gofynnwch i'r disgyblion sut y gallen nhw ofyn am hyd yn oed ragor o wybodaeth:

Beth wyt ti'n hoffi gwneud?, e.e.

Ble wyt ti'n hoffi ...?

Pryd wyt ti'n hoffi ...?

Pam wyt ti'n hoffi ...?

Gyda pwy wyt ti'n hoffi ...?

Wyt ti'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg?

Pam wyt ti'n hoffi'r Pod-antur Cymraeg?

Beth wyt ti'n hoffi yn y Pod-antur Cymraeg?

Beth wyt ti'n hoffi gwneud yn y Pod-antur Cymraeg?

Ble wyt ti'n hoffi mynd yn y Pod-antur Cymraeg?

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 12:**
A: Crad wyt ti. Rwyt ti'n gofyn cwestiynau am Beca.
B: Beca wyt ti. Rwyt ti'n gofyn cwestiynau am Crad.
Siaradwch.

Gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn, ynghyd â'r rhai a adolygwyd uchod, dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa sydd ar y cerdyn. Os nad ydyn nhw'n cofio manylion am Crad, gallen nhw gyfeirio eto at y gyfrol **Dyddiau Da!** (Uned 1, Rhan 5).

- Gallai'r disgyblion chwilio ar y rhyngwrdd am ragor o wybodaeth am Zip World a gallen nhw ddylunio a chreu poster / taflenni. Gallen nhw dynnu lluniau neu lawrlwytho delweddau i'w cynnwys yn eu gwaith.
- Gallai'r disgyblion ysgrifennu cerdyn post ar ran Beca. Gallen nhw ddweud – yn Gymraeg:
 - *I'm having fun in the Pod-antur Cymraeg.*
 - *I went to Zip World, near ... (ger)*
 - *I went on the zip wire.*
 - *it was great / exciting / fun / an adventure.*
 - *I saw Crad there.*
 - *He is in the Pod-antur Cymraeg now.*
 - *Bye!*

Gofynnwch iddyn nhw, mewn grwpiau, sut y bydden nhw'n dweud y brawddegau uchod yn Gymraeg:

- *I'm having fun in the Pod-antur Cymraeg* – **Dw i'n cael hwyl yn y Pod-antur Cymraeg /**

Dw i'n mwynhau yn y Pod-antur Cymraeg.

- *I went to Zip World, near ...* **Es i i Zip World ger ...**

- *I went on the zip wire.* - **Es i ar y wifren wib.**

- *It was great / exciting / fun / an adventure.* – **Roedd e’n/o’n wych / grêt / gyffrous / hwyl / antur.**
- *I saw Crad in Zip World.* – **Gwelais i Crad yn Zip World.**
- *He is in the Pod-antur Cymraeg now.* – **Mae e / o yn y Pod-antur Cymraeg nawr / rŵan.**
- *Bye!* – **Hwyl fawr!**

Gallai'r disgyblion gynnwys syniadau a phatrymau iaith newydd fel y bo'n briodol, wrth gwrs. Yn ogystal, gallen nhw gysylltu'r brawddegau hyn drwy ddefnyddio **a** ac **ac** neu, os yw'n briodol, cysyllteiriau eraill megis **ond**.

- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.
Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?
Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n gyffrous iawn.
Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi gweld y wifren wib.

Gallech chi ofyn am eu barn am y wifren wib yn ogystal.
Beth wyt ti'n feddwl o'r wifren wib?
Beth ydych chi'n feddwl o'r wifren wib?

Gallen nhw drosglwyddo rhai o'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod er mwyn ateb y cwestiwn hwn.

Uned 2: Rhan 2 – Croeso!

Nodau:

- Adolygu teimladau: **Dw i'n teimlo'n hapus, Dw i mor hapus** a chyflwyno'r ymadrodd **Dw i wrth fy modd ...**
- Cyflwyno geiriau sy'n disgrifio personoliaeth. (Gweler yr enghreifftiau isod.) Gellid defnyddio'r disgrifiadau hyn i ddisgrifio merch drwy newid **Mae e'n/o'n ...** i **Mae hi'n ...**
- Cyflwyno'r gair **disgyrchiant** ynghyd â pheth gwybodaeth sylfaenol am ddisgyrchiant. Gellid datblygu'r gwaith hwn fel y bo'n briodol.
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau newydd a Geirfa

Patrymau	Prif eirfa
mor (+ treigladd meddal) Dw i mor hapus. Dw i mor hapus achos dw i 'nôl yn y Pod-antur Cymraeg. Dw i wrth fy modd ... Sut berson ydy ...? Pa fath o berson ydy ...? Mae ... yn ... (+ treigladd meddal) Mae e'n/o'n ddoniol . Mae e'n/o'n ddiddorol . Mae e'n/o'n garedig . Mae e'n/o'n feddylgar . Mae e'n/o'n hoffus . Mae e'n/o'n ffrind da. Mae e'n/o'n hyfryd . A bod yn onest ... Mae e'n/o'n gallu bod yn ddwl / wirion . Beth sy'n bod ar bawb?	golygus crio disgyrchiant to llechen, llechi chwythu

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti'n teimlo'n drist? Nac ydw, dw i'n teimlo'n hapus. Wyt ti'n barod i ...? Wyt ti'n hapus i ...? Wyt ti eisiau syrpreis? Ydw. / Nac ydw. Beth am chwarae tric? Ydy e'n/o'n berson neis? Ydy. / Nac ydy. Gorchmynion Sefa. Stopiwch. Esgusodwch fi. Edrychwch ar yr afal. Patrymau eraill Dyma ... Dyma'r ...	soffa bwrdd rhewgell blodau lamp Pa ffordd? I fyny? I lawr? I'r chwith? I'r dde?

Siarad am y gorffennol

Ble oedd Crad? (Roedd e/o) yn Zip World.	
Beth wnest ti yn Zip World? Gwelais i Crad. Es i ar y wifren wib.	

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti'n barod i ...?; [Hefyd: Ydych chi'n barod i ...?]

Wyt ti'n cofio ...?; [Hefyd: Ydych chi'n cofio ...?]

Pa fath o berson ydy ...? (e.e. wrth drafod cymeriadau mewn llyfrau, rhaglenni teledu a.y.b.); **Mae ... yn ...**

Esgusodwch fi.

Stopiwch.

Ble oedd ...?

Beth wnest ti ...?

Beth sy yn y ...?

Ardderchog!

Wth egluro disgrychiant yn syml:

Edrychwch ar y ...

Mae'r ... yn syrthio / symud.

Pa ffordd?

I fyny?

I lawr?

I'r chwith?

I'r dde?

Mae'r ... yn syrthio / symud i lawr achos disgrychiant.

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Croeso!** (Uned 2, Rhan 2) hyd at y man lle mae Sgrin yn dweud ei fod yn cofio Crad:

Ydw, dw i'n cofio Crad, wrth gwrs.

Gofynnwch:

Sut mae Crad yn teimlo?

Gofynnwch iddyn nhw restru'r pethau mae e'n hapus i'w gweld:

Beth mae e'n/o'n hapus i weld?

Mae e'n / o'n hapus i weld y ...

- Cyflwynwch yr ymadroddion canlynol ac eglurwch eu hystyr:

Dw i mor hapus.

Dw i wrth fy modd yn y Pod-antur Cymraeg.

Dangoswch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion godi'u dwylo pan fyddan nhw'n clywed yr ymadroddion hyn.

Yna, gallai'r disgyblion restru lleoedd ble maen nhw'n teimlo'n hapus, e.e.

Ble wyt ti'n hapus?

Dw i'n hapus ...

Dw i wrth fy modd yn y pwll nofio.

ar y cae chwarae

yn y ganolfan hamdden

adre / gartref

yn y car

yn yr ysgol

yn nhŷ Nain / Mam-gu

yn Wrecsam / Llanelli a.y.b

Gofynnwch:

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira(f)?

Sawl un? / Faint?

Darllenwch y rhestr.

Tra bydd y disgyblion yn gwrando ar ei gilydd, gallen nhw roi llinell drwy'r geiriau sy'n cael eu darllen ac maen nhw wedi eu nodi a rhoi 5 marc iddyn nhw'u hunain am unrhyw eiriau sydd ar ôl ar eu rhestr ar ôl i'r rhestr gyflawn gael ei darllen. Yn yr un modd, bydd y grŵp sydd wedi darllen y rhestr yn cael 5 marc am bob gair sydd ar ôl ar eu rhestr nad ydynt ar restr neb arall.

Yna, gallai'r disgyblion lunio brawddegau sy'n dweud pam maen nhw'n hoffi bod yn y lleoedd hyn, e.e.

Dw i wrth fy modd yn y pwll nofio achos dw i'n hoffi nofio ac mae nofio'n dda i ti.

Dw wrth fy modd yn yr ysgol achos dw i'n hoffi chwarae gyda ffrindiau.

a.y.b.

- Cyn symud ymlaen i'r adran nesaf, adolygwch yr ansoddeiriau canlynol sy'n disgrifio person:

yn neis

yn ddoniol

yn ddiddorol

yn hyfryd

yn garedig

Cyflwynwch y canlynol:

yn feddylgar (dangoswch fod yr ymadrodd yn debyg i'r gair **meddwl**)

yn hoffus (dangoswch fod yr ymadrodd yn debyg i'r gair **hoffi**)

yn olygus

yn ddwl

yn wirion

Gallech chi greu cardiau Cymraeg neu Saesneg er mwyn atgyfnerthu'r ffurfiau hyn, eu cymysgu ac yna gofyn i'r disgyblion baru'r ansoddeiriau priodol.

- Dangoswch y darn nesaf hyd at y man lle mae Beca'n dweud, **Esgusodwch fi**, ar ôl i Crad daflu'r hances boced ar y bwrdd. Yna, mae'n ei rhoi heibio'n daclus.

Tra bydd y disgyblion yn gwrando, gofynnwch iddyn nhw godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed un o'r ansoddeiriau uchod.

Gofynnwch iddyn nhw,

Sut berson ydy Crad?

Mae Crad yn / Mae e'n/o'n ...

Yna, gallai'r disgyblion dynnu llun o Crad, ysgrifennu'r cwestiwn uchod a disgrifio'i bersonoliaeth.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddisgrifio cymeriadau mewn llyfrau neu ar y teledu er mwyn trosglwyddo'r patrymau hyn i gyd-destun gwahanol, e.e.

Mae ... yn ddoniol.
Mae ... yn ddiddorol.

Byddai cyflwyno **Cerdyn Siarad 13** yn rhoi cymorth petai ei angen:
Siaradwch am gymeriad mewn llyfr.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu am gymeriadau mewn llyfrau / ar y teledu, darllen eu disgrifiadau ar goedd i grŵp a gofyn i'r grŵp ddyfalu pwy yw'r cymeriadau.

- Darllenwch y gyfrol **Pwy ydy'r ffrind da?**
Nod y llyfr yw cymharu ymddygiad pobl wahanol mewn sefyllfaoedd tebyg a dewis pa gymeriadau yw'r ffrindiau da:
Pwy ydy'r ffrind da?
... ydy'r ffrind da.
Mae ... yn ffrind da.

Gallech chi ofyn am resymau, e.e.

Pam mae ... yn ffrind da?
Achos mae e'n/o'n / hi'n helpu.
Achos mae e'n/o'n / hi'n rhannu.
Achos mae e'n/o'n / hi'n cymryd tro.
Achos mae e'n/o'n / hi'n meddwl am ...
Achos mae e'n/o'n / hi'n garedig.
Achos mae e'n/o'n / hi'n feddylgar.

Yna, gallai'r disgyblion actio'r sefyllfaoedd hyn, efallai yng ngwasanaeth yr ysgol.
Yn ogystal, gallen nhw feddwl am sefyllfaoedd newydd sy'n enghreifftio cyfeillgarwch, ysgrifennu sgript ac actio'r sgript newydd – yng ngwasanaeth yr ysgol, efallai.

- Dangoswch y darn nesaf, sy'n ymdrin â **disgyrchiant** – hyd at y man lle mae Crad yn egluro pam mae e'n gallu cerdded ar y llawr yn hytrach na hofran yn yr awyr.
- Unwaith eto, tynnwch sylw at yr ymadrodd **Dw i wrth fy modd** a gofynnwch i'r disgyblion am ragor o enghreifftiau.
- Tynnwch sylw penodol at gwestiwn Beca: **Sut mae'r wifren wib yn gweithio?**

Pwysleisiwch y gair **disgyrchiant** ac ail-ddangoswch yr enghreifftiau sy'n dangos sut mae disgyrchiant yn gweithio.

Gwelir yr animeiddiadau a'r darn sy'n dangos y ffair ddwywaith ynghyd â sylwebaeth y tro cyntaf. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar gyfer yr ail dro maen nhw'n ymddangos a gofynnwch i rai ohonyn nhw ddarllen eu sylwebaeth ar goedd tra bydd y darnau'n cael eu hail-ddangos.

Yna, gallai'r disgyblion gynnal arbrofion sy'n ymwneud â disgyrchiant.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion wneud gwifren wib fach er mwyn gweld a yw'n gweithio ai peidio (byddai'n rhaid sicrhau bod un pen yn uwch na'r pen arall).

Gallech chi gyflwyno'r gweithgaredd drwy ddweud:

Beth am wneud gwifren wib?
Dyma'r clai.
Dyma'r pren.
Dyma'r llinyn.
Dyma'r clipiau papur. (wedi'u cysylltu â'i gilydd o bosib)
Dyma'r siswrn.

Sut mae gwneud gwifren wib?

Yna, byddai'n rhaid i'r disgyblion weithio allan sut y gallen nhw wneud gwifren wib:

Rhaid torri'r pren.

Rhaid rhoi'r pren yn y clai.

Rhaid torri'r pren arall.

Rhaid rhoi'r pren arall yn y clai.

Rhaid clymu'r llinyn ar y pren yma ... ac ar y pren yma.

Rhaid rhoi'r clipiau papur ar y llinyn.

A dyna ni .. gwifren wib.

Ydy hi'n gweithio?

Gawn ni weld.

- Dangoswch y darn olaf, lle mae Crad yn rhoi syrpreis i Sgrin.
- Ar ôl cwestiwn Beca, **Beth sy yn y bag?**, gallai'r disgyblion awgrymu beth sydd yn y bag.
(Ateb: **llechen**)

Yna, gallai'r disgyblion greu cynllun y gellid ei baentio ar lechen, os oes un ar gael, neu ar gerrig mawr.

Tra byddan nhw'n gweithio, dylen nhw ofyn i'w gilydd:

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Beth ydy'r llun?

(Blodyn.)

Wyt ti'n hoffi'r llun?

Ydw, dw i'n hoffi'r llun – mae'n ...

Yna, gellid gwerthuso'r gwaith, gan ddefnyddio'r eirfa a'r patrymau sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

Uned 2: Rhan 3 – Cychod

Nodau:

- Cyflwyno cân werin Gymraeg draddodiadol i blant
- Adolygu ymadroddion Cymraeg y gellir eu defnyddio yn ystod sesiynau canu, e.e. **yn araf; yn gyflym; yn dawel; yn uchel; gyda’n gilydd; dilyna fi; dilynwch fi**
- Adolygu sut mae gwneud pethau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddefnyddio naill ai **Rhaid** neu’r ffurfiau gorchmynnol
- Edrych ar rymoedd drwy gyfrwng y Gymraeg – **gwthio; tynnu; chwythu**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Cynllunio gwaith Dylunio a Thechnoleg: Edrycha ... edrycha ar luniau ... meddylia ... cynllunia ... dewisa beth wyt ti eisiau. Beth sy’n bod? Dydy’r cwch ddim yn symud. Rhaid gwthio / tynnu / chwythu. Dewch ’mlaen! (h.y. disgyblion yn annog cystadleuwyr mewn ras gychod)	cân (y gân) cwch, cychod porffor streipiog smotiog gwthio tynnu chwythu

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi’n hoffi’r gân? Beth ydych chi’n feddwl o’r gân? Barod? Ydych chi eisiau canu? Beth wyt ti’n wneud? Dw i’n ... Beth ydych chi’n wneud? Rydyn ni’n ... Pam wyt ti’n ...? Achos dw i eisiau ... Beth wyt ti’n ddefnyddio? Dw i’n defnyddio ... Beth am rasio? Pa gwch sy’n mynd i ennill? Fi sy’n ennill. Gorchmynion Gwrandewch. Edrycha. Patrymau eraill Cana gyda fi. Dilynwch fi. Edrycha ar y bwrdd. Dechreuwa. Mae rasio cychod yn hwyl. Dw i wrth fy modd yn rasio cychod.	yn araf rŵan / nawr yn dawel Gyda’n gilydd! papur pren ffon coctel glud corc carton sudd oren carton pop siswrn gwelltyn, gwellt llinyn elastig cylllell

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi'n hoffi'r gân?

Beth ydych chi'n feddwl o'r gân?

Ydych chi eisiau canu?

Gwrandewch.

Gyda'n gilydd.

Dilynwch fi.

Yn araf.

Yn dawel.

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ...

Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ...

Edrycha ... edrycha ar luniau ... meddylia ... cynllunia ... dewisa beth wyt ti eisiau.

Wyt ti'n barod am y ...?

Beth am dynnu / wthio / chwythu?

Barod?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i glywed Crad yn canu cân werin draddodiadol i blant a'u bod nhw'n mynd i gael cyfle i'w chanu. Eglurwch fod y gân yn sôn am rywun sy'n hwylio i Ynys Manaw mewn padell ffrio a bod hyn wedi bod yn brofiad trist.

Cyflwynwch y geiriau allweddol:

Fuoch chi 'rioed ...?

morio

padell ffrio

crio

- Dangoswch y ffilm **Cychod** (Uned 2, Rhan 3) hyd at y man lle mae'r ddau gymeriad wedi canu.
- Adolygwch yr ymadroddion sy'n gysylltiedig â chanu a gyflwynwyd yn wreiddiol ym Mhecyn 2 (Pecyn 2, Uned 5, Rhan 1):

Gyda'n gilydd

Dilyna fi / dilynwch fi

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r ymadroddion Cymraeg am:

slowly – **yn araf**

quickly – **yn gyflym**

quietly – **yn dawel**

loudly – **yn uchel**

Rhowch gopi printiedig o'r gân i'r disgyblion:

Fuoch chi 'rioed yn morio?

Wel, do mewn padell ffrio

Chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Maaaaaaanaaaaaan

A dyna lle bûm i'n crio."

Gofynnwch:

Ydych chi eisiau canu?

Yna, gallai'r disgyblion ganu'r gân ac, efallai, meimio symudiadau priodol.

- Dangoswch y darn nesaf, lle mae Crad yn egluro ei fod yn gwneud cychod oherwydd ei fod e eisiau cynnal ras gychod. Stopiwch y ffilm ar ôl iddo ddangos y deunyddiau gwahanol y bydd yn eu defnyddio ar gyfer gwneud y cychod – ar ôl iddo ddweud,
Wel, Beca, dechreua.

- Gofynnwch i'r disgyblion restru'r deunyddiau mae e wedi'u rhoi ar y bwrdd a rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn.

Dangoswch y darn eto a gwiriwch eu bod nhw wedi cyfeirio at bob un.

Er mwyn atgyfnerthu'r geiriau, gallech chi gasglu'r deunyddiau hyn ac unrhyw ddeunyddiau eraill y gellid eu defnyddio i wneud modelau o gychod a'u rhoi ar fwrdd gyda labeli sydd wedi eu cymysgu. Gallech chi ofyn i'r disgyblion osod y labeli ger y deunyddiau priodol.

- Yna, gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud cychod bach, gan ddefnyddio deunyddiau priodol. Yn ogystal â'r geiriau uchod, cyflwynwch / adolygwch eiriau a phatrymau perthnasol:

Cwch, cychod

hwyl (sail) (os yw'n briodol)

triongl

baner (os yw'n briodol)

Wrth iddyn nhw weithio, gallen nhw ddefnyddio'r patrymau yma:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n ...

Dylen nhw ddisgrifio'r hyn maen nhw'n ei wneud tra byddan nhw'n gwneud y cychod:

Dw i'n (torri'r ...)

Yn gynta(f), dw i'n ...

Yna, dw i'n ...

Gallen nhw ddangos i rywun arall sut i wneud cwch drwy ddefnyddio **rhaid** neu ffurfiau gorchmynnol, e.e.:

Rhaid (torri'r ...)

Yn gynta(f), rhaid ...

Yna, rhaid ...

Torrwch y ...

Yn gynta(f), lliwiwch y ...

Yna, gludwch y ...

Byddai cyflwyno **Cerdyn Siarad 14**, sy'n cynnwys patrymau iaith perthnasol, yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad petai angen:

Sut mae gwneud cwch?

Yn ogystal, gallech chi ofyn iddyn nhw dynnu ffotograffau o gamau gwahanol yn y broses fel eu bod nhw, ar ôl gorffen, yn gallu ysgrifennu am y broses a chynnwys ffotograffau i ddangos y camau hyn.

Ar ôl gorffen, gallen nhw werthuso'r cychod, gan ddefnyddio patrymau iaith sydd yn y ddogfen

Patrymau Iaith P-aC4.

- Dangoswch y darn nesaf, ble mae Crad a Beca'n gwneud cychod. Stopiwch y ffilm pan fyddan nhw'n dweud, "Da-ra".

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddisgrifio sut mae Crad a Beca'n gwneud eu cychod:

Beth mae Crad yn wneud?

Mae e'n/o'n ...

Beth mae Beca'n wneud?

Mae hi'n ...

Wyt ti'n hoffi cwch Crad / Beca?

Pam?

- Ail-ddangoswch y darn lle maen nhw'n gwneud cychod a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar y camau mae Crad a Beca'n eu cymryd. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu sylwebaeth i gyd-fynd â'r darn yma o ffilm.

Yna, gofynnwch i rai o'r grwpiau ddarllen y sylwebaeth ar goedd tra bydd y ffilm yn cael ei dangos eto.

- Dangoswch y darn nesaf. Canolbwyntiwch ar y rhan lle maen nhw'n rhoi'r cychod ar y dŵr ac maen nhw'n aros yn llonydd. Gofynnwch:

Pam dydy'r cychod ddim yn symud?

Trafodwch hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Yna, gofynnwch:

Sut mae'r cychod yn mynd i symud?

Rhaid gwthio.

Rhaid tynnu.

Rhaid chwythu.

- Dangoswch y darn nesaf, lle mae'r cymeriadau'n penderfynu **gwthio'r cwch, tynnu'r cwch a chwythu'r cwch** hyd at y man lle mae Sgrin yn gofyn iddyn nhw ydyn nhw eisiau gweld ffilm sy'n dangos plant yn cynnal rasys cychod.

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddefnyddio'r grymoedd hyn ar eitemau gwahanol er mwyn gwneud iddyn nhw symud, e.e.

llyfr ar fwrdd

beic

car bach

cwch bach ar ddŵr

a.y.b.

Gallen nhw lenwi gridiau tebyg i'r un isod, gan egluro pa rym sydd angen ei ddefnyddio er mwyn gwneud i'r gwrthrych symud.

Beth?	Tynnu?	Gwthio?	Chwythu?
Llyfr	Rhaid tynnu.	Rhaid gwthio.	
Car bach	Rhaid tynnu.	Rhaid gwthio.	Rhaid chwythu.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddefnyddio'r geiriau **gwthio** a **tynnu** er mwyn llunio arwyddion y gellid eu gosod ar ddrysau priodol yn yr ysgol, e.e.:

Gwthiwch. neu **Rhaid gwthio.**

Tynnwch. neu **Rhaid tynnu.**

- Dangoswch weddill y ffilm, lle mae'r disgyblion yn rasio'u cychod.

Gallai'r disgyblion ddisgrifio'r cychod a thrafod pa rai sy'n debygol o ennill, a pham – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Pa gwch sy'n mynd i ennill?

Y cwch (gwyrdd) achos ...

Yn ogystal, gallen nhw wneud sylwadau ar y regata ar y ffilm. Gofynnwch:

Beth mae'r plant yn wneud?

Gallen nhw gynnal eu regata eu hunain. Byddai hyn yn arwain at lawer o drafod, cynllunio a threfnu, e.e.

Beth am gael regata?
Pryd?
Ble?

Beth ydyn ni'n mynd i wneud?
Beth ydyn ni'n mynd i wisgo?

Beth am gael miwsig?
Pa fiwsig?
Beth am gael bwyd?
Pa fwyd?
a.y.b.

Byddai cyflwyno **Cerdyn Siarad 15** yn rhoi cefnogaeth os bydd ei hangen:
Rydych chi'n mynd i drefnu regata.
Siaradwch am hyn.

Gallai'r disgyblion wahodd dosbarthiadau eraill, e.e.

REGATA BLWYDDYN 6
Bydd regata Blwyddyn 6 ar ... (dyddiad)
Bydd y regata yn ... (lle)
Ydych chi eisiau dod?
Dewch i fwynhau rasio cychod. Mae'n hwyl!

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu llythyron at yr athrawon / y Pennaeth yn eu gwahodd i'r digwyddiad. Dyma enghraifft o lythyr y gallen nhw ysgrifennu, ond gallen nhw newid y cynnwys, wrth gwrs.

	Cyfeiriad
	Dyddiad
Annwyl ...	
Rydyn ni wedi gwneud cychod yn y dosbarth ac rydyn ni'n cael regata ar ... (dyddiad), yn ... (lle).	
Ydych chi eisiau dod? Mae rasio cychod yn hwyl ac rydyn ni'n mynd i gael amser da.	
Bydd miwsig a bwyd.	
Mae croeso mawr i chi.	
Yn gywir	

- Gallech chi gyflwyno'r gyfrol **Cychod ... Cychod ... Cychod** sy'n cynnwys gwybodaeth am fathau gwahanol o gychod, Catrin Williams, yr arlunydd o Gymru, a rysâit ar gyfer gwneud cychod jeli.

Yna, gallai'r disgyblion wneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu ar ddiwedd y gyfrol.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y llyfr:

Beth wyt ti'n feddwl o'r llyfr?

Beth ydych chi'n feddwl o'r llyfr?

Mae'r llyfr yn ddiddorol iawn.

Mae'r llyfr yn ofnadwy.

Mae'r llyfr yn ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol iawn achos dw i'n mwynhau dysgu am gychod.

Dw i wedi mwynhau'r llyfr achos mae e'n/o'n ddiddorol.

Uned 2: Rhan 4 – Bownsio ... dringo ... llithro

Nodau:

- Adolygu mynegi teimladau: **Dw i'n teimlo'n nerfus. Dw i'n teimlo'n ofnus. Dw i wrth fy modd**
- Adolygu ymddiheuro: **Mae'n ddrwg gen i ...** Hefyd: **Mae'n flin 'da fi.**
- Adolygu sut i ysgrifennu deunyddiau hyrwyddo yn Gymraeg
- Siarad am hoff le
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Patrymau a geirfa newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i wedi torri'r llechen. O ble mae'r llechi'n dod? O'r ddaear. Mae'n dywyll. Oes pobl yn gweithio o dan y ddaear heddiw? Nac oes.	llithro rhwyd, rhwydi

Siarad am y gorffennol

Roedd pobl yn gweithio o dan y ddaear i gael y llechi. Yn Oes Fictoria, roedd pobl yn gweithio yma – roedd y bobl yn cael y llechi o dan y ddaear – ond heddiw, rydyn ni'n mynd i gael hwyl. Roedd hi'n teimlo'n nerfus. Roedd hi'n teimlo'n ofnus
--

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n digwydd? Beth ydy'r sŵn? Gawn ni fynd i Gymru i nôl llechen arall? Cewch. / Na chewch, Ble mae llechwedd? Ydych chi'n gallu gweld y map? Ble ydyn ni? Beth ydy'r rhain? Oes pobl yn gweithio o dan y ddaear heddiw? Nac oes. Wyt ti'n teimlo'n nerfus / ofnus? Wyt ti'n barod? Y dw. / Nac ydw. Gorchmynion Tyrd i fownsio o dan y ddaear. Tyrd, rhaid mynd 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg. Edrycha ar y lliwiau. Arhosa yma. Patrymau eraill Mawredd mawr! Mae'n ddrwg gen i. = Mae'n flin 'da fi. Dim ots.	bowsio dringo nôl llechen, llechi Oes Fictoria trên bach llithren mawr enfawr

Dw i'n teimlo'n nerfus. Dw i'n teimlo'n ofnus. Dw i wrth fy modd yn bownsio, dringo a llithro.	
--	--

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Rhaid tacluso.

Dyna well.

Beth ydy'r sŵn?

Beth sy'n digwydd?

Gawn ni fynd i ...? Cewch. / Na chewch.

Edrychwch ar y map. Ydych chi'n gallu gweld Cymru?

Ydyn. / Nac ydyn.

Ydych chi'n gallu gweld (Gogledd Cymru)?

Edrycha ar (y lliwiau).; Edrychwch ar (y lliwiau).

Tyrd = Dere. Hefyd: **Dewch.**

Wyt ti'n barod? Hefyd: **Ydych chi'n barod?**

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Bowncio ... dringo ... llithro** (Uned 2, Rhan 4) drwyddi.

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n gyffrous.

Mae'n ddiflas iawn.

Mae'n ofnadwy.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych achos mae'n hwyl.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol, yn lliwgar ac yn gyffrous.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi bowncio, dringo a llithro.

Yna, gallech chi ofyn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r lle ar y ffilm?

Beth ydych chi'n feddwl o'r lle ar y ffilm?

Gellid trosglwyddo'r patrymau uchod i'r cyd-destun hwn.

- Dangoswch y dechrau eto, lle mae Beca'n clirio ac yn taro'r llechen ar ddamwain.

Gallai'r disgyblion addasu'r sefyllfa hon, e.e.

A: O, naaaaaaaaaa!

B: Beth sy'n digwydd? / Beth sy'n bod?

A: Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi.

B: Beth sy'n bod?

A: Dw i wedi torri'r

A: O, diar ... wel dim ots.

B: Dw i'n gwybod – beth am fynd i ... i nôl ... arall?

A: Syniad da.

- Canolbwyntiwrch ar y darn lle mae Sgrin yn dangos map o Gymru a lleoliad Llechwedd. Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i'r lleoliad ar fapiau llai. Gallen nhw roi cyfesurynnau, efallai.

Canolbwyntiwrch hefyd ar y geiriau **llechen** a **llechi** ac adolygwch y gwaith a wnaed cyn hyn:
Ble ydych chi'n gweld llechi?

- Dangoswch y darn nesaf eto, hyd at y man lle maen nhw'n mynd drwy'r drws gwyrdd. Canolbwyntiwrch ar y poster a gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y geiriau:
bownsio
dringo
llithro

Cyflwynwch
rhwyd, rhwydi

Bydd y geiriau hyn yn cael eu defnyddio yn yr uned eto pan fydd y disgyblion yn paratoui deunyddiau hyrwyddo.

- Gofynnwch sut mae Beca'n teimlo:
Sut mae Beca'n teimlo?
Mae hi'n nerfus.
Mae hi'n ofnus.
Mae hi'n ofnus achos mae hi'n dywyll o dan y ddaear.

Yna, gofynnwch:
Sut mae Crad yn teimlo?
Mae e'n/o'n teimlo'n hapus iawn.
Mae e'n/o'n teimlo'n hyderus iawn.

- Dangoswch y darn nesaf eto – sy'n dangos y ceudwll o dan y ddaear. Gofynnwch i'r disgyblion wyllo'n ofalus oherwydd bydd angen iddyn nhw baratoi cwestiynau'n seiliedig ar beth maen nhw'n ei weld ar y ffilm.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu 5 cwestiwn y gellid eu gofyn mewn cwis, e.e.

Beth sy yn Llechwedd?
Beth maen nhw'n wisgo?
Sut mae Beca / Crad yn teimlo?
Beth mae Beca a Crad yn wneud?
Pa liwiau sy o dan y ddaear?
Ydy Beca'n hoffi bownsio?
Pa liwiau sy yn Llechwedd?
Oes llechi yn Llechwedd?

a.y.b.

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu deunyddiau ar gyfer hyrwyddo'r ganolfan bownsio, gan ddefnyddio geiriau o'r ffilm ynghyd ag iaith addas arall.

Dylen nhw chwilio am ragor o wybodaeth, gan gynnwys delweddau, a gallen nhw wneud map i ddangos y lleoliad.

Yn ogystal, dylen nhw adolygu sut i ysgrifennu'n berswadiol er mwyn hyrwyddo atyniad. Gweler Uned 1, Rhan 4.

- Dangoswch ddiwedd y ffilm eto, lle mae Crad yn mynd i brynu llechen i Sgrin. Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 16**, sy'n adolygu gwaith blaenorol sy'n gysylltiedig â gofyn am bethau / prynu pethau:

A: Crad wyt ti ac rwyf ti yn y siop, yn prynu llechen i Sgrin.
B: Rwyf ti'n gweithio yn y siop.
Siaradwch.

Dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 17** er mwyn adolygu gwaith a wnaed eisoes mewn perthynas â hamdden, oriau agor, a.y.b.
Mae Crad a Beca'n hoffi mynd i fownsio, dringo a llithro yn Llechwedd. Ble ydych chi'n hoffi mynd?
Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion drafod mor fanwl â phosib ble maen nhw'n hoffi mynd, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn. Gallen nhw ysgrifennu am y lle yma hefyd.

- Cyflwynwch y neges e-bost **Bownsio ... Dringo ... Llithro** a'i darllen gyda'r dosbarth. Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y cynnwys.

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i'r ymadroddion canlynol yn y darn:

How are you?

Today was great.

I went to Llechwedd.

We went bouncing, climbing and sliding.

(I) had to wear ...

It was exciting.

It was great.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu neges e-bost at ffrindiau ar ran Crad.

- Os yw'n briodol, gellid gwneud gweithgareddau ar y trampolîn ar ôl gwylio'r rhan hon o'r uned a gellid trafod materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch mewn perthynas â defnyddio trampolîn. Gallech chi atgoffa'r disgyblion o'r cyfarwyddiadau roddodd Crad i Beca yn Rhan 1 yr uned hon.

Uned 2: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nod:

- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth ydy’r gair? Ga i fynd ar y wifren wib rŵan / nawr? Cei. / Na chei. Wyt ti’n gwisgo sandalau neu fflip fflops? Ydw. / Nac ydw. Ydych chi eisiau canu? Sut wyt ti’n teimlo? Dw i wrth fy modd Ydy Crad yn dda, yn dda iawn neu yn ardderchog? Gorchmynion Tyrd gyda fi. Gyda’n gilydd. Dilynwch fi. Tria eto. Patrymau eraill Rhaid clymu’r gwallt. Dim gemwaith. Mae ... yn ... (+ treigladd meddal), e.e. Mae Crad yn dd oniol. Mae Crad yn g aredig. Mae Crad yn hwyl. Mae Crad yn ffrind da.	llechen, llechi cwch, cychod gwthio tynnu chwythu bownsio dringo gwallt tocyn gwifren wib (y wifren wib)

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy’r gair / geiriau?

Ga i fynd i ...? Cei. / Na chei.; [Hefyd: **Gawn i fynd i ...? Cewch. / Na chewch.**]

Ydych chi eisiau canu?

Gyda’n gilydd – iawn.

Dilynwch fi.

Un ... dau ... tri

Sut wyt ti’n teimlo? Dw i’n teimlo’n ...

Tria eto. Hefyd: **Triwch eto.**

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o’r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi’n cofio?** (Uned 2, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar y rhan gyntaf.

Dylai’r disgyblion roi’r geiriau Cymraeg am yr eitemau sy’n cael eu dangos ar y sgrin.

Adran 2

- Cyn dangos y rhan nesaf, eglurwch y bydd angen i'r disgyblion roi'r cyfarwyddiadau priodol. Adolygwch sut mae gwneud hyn, e.e.

Rhaid ...

Dim ...

Adolygwch y geiriau canlynol hefyd:

clymu

gemwaith

harnais

Dangoswch y darn, stopiwch y ffilm a gofynnwch i'r disgyblion am y cyfarwyddiadau perthnasol.

Adran 3

- Nod y darn nesaf yw adolygu disgrifio cymeriad person.

Chwaraewch y DVD a gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r geiriau fel eu bod nhw'n gallu ateb y cwestiwn:

Sut berson ydy Crad?

Adran 4

Mae'r adran hon yn adolygu'r gân werin Gymraeg i blant, **Fuoch chi 'rioed yn morio?**

Adran 5

Bwriad yr adran nesaf yw annog y disgyblion i ddweud cymaint ag y gallan nhw pan ofynnir cwestiwn iddyn nhw.

- Dangoswch y darn ble y gofynnir i Crad:

Sut wyt ti'n teimlo?

Gellir clywed yr ateb ar y ffilm.

Gofynnwch i'r disgyblion ateb cwestiwn Sgrin:

Wel, blant, ydy Crad yn dda, yn dda iawn neu yn ardderchog?

Gofynnwch iddyn nhw gynnal pleidlais ac yna dangoswch yr adran nesaf, lle mae'r thermometr yn dangos ei fod wedi rhoi ateb **da**.

Yna, dylai'r disgyblion drafod sut y gallai wella'i ateb, e.e. gallai roi ateb llawnach, mynegi mwy o farn a rhoi rhesymau a gallai ddefnyddio amser arall y ferf.

Dangoswch y darn nesaf a gofynnwch i'r disgyblion ateb cwestiwn Sgrin eto.

Yna, gellid gofyn yr un cwestiwn i'r disgyblion – neu gwestiwn arall a dylen nhw ei ateb mor llawn ag y bo modd, e.e.:

Sut wyt ti'n teimlo?

Beth wyt ti'n hoffi?

Beth wyt ti'n wneud ar ddydd Sadwrn?

a.y.b.

- Cyflwynwch y gerdd, **Dw i wrth fy modd ...**

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i'r geiriau Cymraeg am y pum synnwyr yn y gerdd.

Ar ôl darllen y gerdd, gofynnwch i grwpiau o ddisgyblion dynnu lluniau i gyfleu ystyr y penillion gwahanol.

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw'n hoffi gweld, clywed, blasu, arogli a theimlo. Gofynnwch iddyn nhw geisio meddwl am eiriau Cymraeg.

Beth wyt ti'n hoffi gweld?

Dw i'n hoffi gweld ...

Beth wyt ti'n hoffi clywed?

Dw i'n hoffi clywed ...

Beth wyt ti'n hoffi blasu?

Dw i'n hoffi blasu ...

Beth wyt ti'n hoffi arogli?

Dw i'n hoffi arogli ...

Beth wyt ti'n hoffi teimlo?

Dw i'n hoffi teimlo ...

Gallai'r disgyblion ddefnyddio **Dw i wrth fy modd yn** yn lle **Dw i'n hoffi** uchod.

Nawr, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu cerdd debyg, e.e.

Dw i'n hoffi gweld

Mot, y ci bach du a

Milly'r gath enfawr.

a.y.b.

Gofynnwch i'r disgyblion ddarllen eu cerddi ar goedd. Yna, gellid eu gosod mewn arddangosfa liwgar.

Uned 3

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg ail iaith

Llafaredd

Anogir disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd - mewn parau ac mewn grwpiau. Maen nhw'n gofyn am farn ac yn mynegi barn mewn cyd-destunau amrywiol, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cyfarwydd ac yn chwarae rôl mewn sefyllfaoedd gwahanol, e.e. prynu nwyddau mewn siop o gyfnod yr Ail Ryfel Byd, cyfarfod â faciwis a.y.b. Maen nhw'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gadair goch, e.e. drwy holi un o Ferched y Tir neu blentyn oedd yn byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gofynnir i'r disgyblion drafod beth maen nhw'n ei ddysgu o ffotograffau ac i roi gwybodaeth ffeithiol, e.e. wrth iddyn nhw ddarllen y gyfrol **Byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd**.

Mae cyfleoedd i wyllo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wyllo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro.

Gofynnir i'r disgyblion wrando ar gyfres o ddatganiadau am yr Ail Ryfel Byd ac i ddweud ydyn nhw'n **Cytuno** neu'n **Anghytuno** gyda'r brawddegau.

Gellid dosbarthu gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm a gellid gofyn i'r disgyblion eu llenwi gyda'r wybodaeth angenrheidiol, e.e. gwybodaeth am Ferched y Tir neu am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis ffeil ffeithiau sy'n cynnwys profiadau plant yn ystod yr Ail Ryfel Byd, llyfr am faciwis, sydd hefyd yn cynnwys llythyr, llyfr ffeithiol am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, rysait a cherdyn post sydd wedi cael ei ysgrifennu gan un o Ferched y Tir. Rhestrir cwestiynau cyffredinol yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** a cheir rhestr o gwestiynau penodol sy'n berthnasol i'r llyfrau yng nghefn y llyfrau.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu rhestr, brawddegau yn yr amser gorffennol, rysait, poster, a brawddegau a pharagraffau sy'n cymharu a chyferbynnu bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a bywyd heddiw. Mae cyfleoedd i ysgrifennu llythyron, cardiau post a chwestiynau'r cwis. Gofynnir iddyn nhw ysgrifennu am fodel maen nhw wedi'i greu yn ogystal.

Mae'r gyfrol **Ein Stori Ni** yn cynnwys enghreifftiau o'r defnydd o ddyfynodau a gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach.

Saesneg

Anogir y disgyblion i gynhyrchu arddangosfa sy'n cynnwys gwybodaeth am yr Ail Ryfel Byd. Felly, mae angen iddyn nhw chwilio am wybodaeth ar wefannau Saesneg ac mewn llyfrau Saesneg a thrafod y wybodaeth hon mewn grwpiau.

Mathemateg

Trafodir oriau agor mewn perthynas â siop o gyfnod yr Ail Ryfel Byd ac amgueddfa ac felly rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion drafod a chyfrifo yng nghyd-destun amser. Yn yr un modd, gellid cyfrifo sawl awr roedd Merched y Tir yn gweithio bob dydd a bob wythnos.

Gellid rhoi cyfle i'r disgyblion bwyso cynhwysion er mwyn paratoi rysait o'r Ail Ryfel Byd. Yn ogystal, gallen nhw addasu rysait ar gyfer 4 fel ei bod yn addas ar gyfer mwy/llai o bobl. Gofynnir iddyn nhw ddefnyddio ffracsiynau Cymraeg pan fyddan nhw'n gwneud hyn:

chwarter

hanner

tri chwarter

Mae'r ffilm yn cyfeirio at **ceiniogau**, sef arian cyfnod yr Ail Ryfel Byd, a gellid gwneud rhagor o waith mewn perthynas â gwerth yr arian hwnnw os yw'n briodol.

Mae cyfleoedd i dyfu llyisiau ac i werthu'r cynnyrch os yw'n briodol. Byddai hyn yn golygu gweithio gyda phrisiau ac arian.

Gwyddoniaeth

Mae cyfleoedd i drafod bwyd iach wrth i'r disgyblion baratoi rysait o gyfnod yr Ail Ryfel Byd a rysait ar gyfer bwyd parti heddiw. Gofynnir iddyn nhw ystyried dulliau o wneud y rysait yn iachach.

Mae cyfleoedd i dyfu hadau llyisiau a phlanhigion, eu cynaeafu ar yr adeg briodol ac i fynegi barn amdany'n nhw.

Hanes

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd a thynnir sylw penodol at ddogni bwyd, faciws, Merched y Tir a bywyd y cyfnod yn gyffredinol. Gofynnir i'r disgyblion nodi sut roedd byw yn y cyfnod yn wahanol i fyw heddiw ar ôl iddyn nhw ddarllen y gyfrol **Byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd**.

Gellid annog y disgyblion i chwilio am ddelweddau o'r ardal leol yn ystod y cyfnod a siarad amdany'n nhw yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Gofynnir iddyn nhw chwilio am wybodaeth am yr Ail Ryfel Byd, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, ac i ofyn ac ateb cwestiynau. Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw hefyd i gyfathrebu eu syniadau mewn amryw ffyrdd, e.e. llenwi gridiau, ysgrifennu paragraffau a darnau hirach, gwneud modelau a lluniau, a.y.b.

Celf a dylunio

Mae cyfleoedd i gynllunio tu blaen siopau / model o'r Stryd Fawr o'r cyfnod a gallai'r disgyblion dynnu llun neu gopi poster sy'n cynnwys sloganau o gyfnod y rhyfel - yn Saesneg neu yn Gymraeg. Yn ogystal, gallen nhw greu poster i'n cynnwys sloganau newydd sy'n briodol i gyfnod y rhyfel.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** er mwyn dod o hyd i batrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth i'r disgyblion wneud gwaith celf a gwerthuso'r gwaith.

Dylunio a thechnoleg

Mae cyfleoedd i baratoi bwyd yr arferid ei fwyta yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac i addasu rysait.

Gallai'r disgyblion gynllunio a gwneud tu blaen siopau, llyfr cwpons a modelau o wrthrychau o gyfnod y rhyfel.

Gan fod pwyslais mawr yn cael ei roi ar glytio a thrwsio (*make do and mend*) yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gellid dangos i'r disgyblion sut i wnïo botymau ar ddillad, sut i glytio tyllau mewn dillad.

Cerddoriaeth

Yn ogystal â chanolbwyntio ar y gerddoriaeth a glywir yn y cefndir, gallai'r disgyblion wrando ar ganeuon a cherddoriaeth boblogaidd o gyfnod y rhyfel, mynegi barn, nodi'r offerynnau a.y.b. Yn ogystal, gallen nhw wyllo darnau o ffilm sy'n dangos perfformiadau gan fandiau'r cyfnod ac yna perfformio darn o gerddoriaeth y cyfnod sydd wedi'i symleiddio. Hefyd, gallen nhw wrando ar ddarnau jazz o'r cyfnod a'u gwerthuso a dysgu mwy am y math hwn o gerddoriaeth.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion wyllo darnau o ffilm sy'n dangos pobl yn dawnsio yn ystod y cyfnod ac yna efallai y gallen nhw ddysgu un o'r dawnsiau.

TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngwyd wrth chwilio am wybodaeth am yr Ail Ryfel Byd ac i ddefnyddio meddalwedd priodol i gyflwyno'u gwaith. Yn ogystal, gallen nhw baratoi a rhoi cyflwyniad PowerPoint ar fyw yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr Ail Ryfel Byd. Felly, gallai'r disgyblion edrych ar effaith y rhyfel ar ardaloedd yng Nghymru, e.e. y bomio yn Abertawe.

Datblygu meddwl

Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfwng y Gymraeg ac i ymateb i'w gwaith nhw eu hunain ac i waith pobl eraill.

Gofynnir iddyn nhw ystyried sut i wneud rysâit yn iachach ac i gymharu a chyferbynnu dwy rysâit debyg. Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw ystyried sut y bydden nhw'n gwario nifer penodol o gwpons.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau dilyniant a pharhad.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwyd ac i gyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf briodol, gan ddefnyddio meddalwedd briodol. Maen nhw'n cael eu hannog i ddefnyddio technoleg at sawl pwrpas.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau gwahanol, a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 3: Rhan 1 – Cwpons

Nodau:

- Cyflwyno gwybodaeth am yr Ail Ryfel Byd drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu siarad am y gorffennol: **Roedd ...; Roedd pobl yn ...; Doedd dim ...**
- Adolygu gofyn am bethau yn Gymraeg: **Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda; Dw i eisiau prynu ... os gwelwch yn dda.; ... os gwelwch yn dda.; Ga i ... os gwelwch yn dda?; Cei.; Cewch.; Mae'n ddrwg gen i / Mae'n flin gen i / gyda fi / 'da fi ond does dim ... yn y siop.**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrllon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Crad a fi wedi ffeindio llyfr ... Disgrifiwch y llyfr. Beth ydy teitl y llyfr? Beth ydy'r dyddiad (ar y llyfr)? Ydych chi'n gallu gweld y cwpons? Pryd oedd yr Ail Ryfel Byd? Roedd yr Ail Ryfel Byd o un naw tri naw tan un naw pedwar pump. Beth am fynd 'nôl i'r Ail Ryfel Byd? Dyma bicnic diflas!	Yr Ail Ryfel Byd llyfr cwpons cwpon sych bara sych archfarchnad siop fwyd siop ddillad siop fferins / losin siop lyfrau siop lysiau

Siarad am y gorffennol

Doedd dim ...

Doedd dim brechdanau.
Doedd dim bara gwyn.
Doedd dim bananas.
Doedd dim orennau.
Doedd dim llawer o fwyd yn y siopau!
Doedd dim llawer o fenyn.
Doedd dim llawer o gig.
Doedd dim llawer o ddillad yn y siopau.
Doedd dim archfarchnad yn yr Ail Ryfel Byd.

Roedd pobl yn ...

Roedd pobl yn defnyddio cwpons ac arian i brynu bwyd.
Roedd pobl yn prynu dillad yn y siop ddillad.
Roedd pobl yn prynu losin neu fferins mewn siop fferins.
Roedd pobl yn prynu llysiau mewn siop lysiau.
Roedd pobl yn prynu llyfrau mewn siop lyfrau.
Roedd pobl yn hoffi gwrando ar y radio.

Roedd rhaid rhannu'r bwyd.
Roedd rhaid 'make do and mend'.
(Roedd rhaid clytio a thrwsio.)

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ga i dorri'r cwpons? Ga i weld y cwpons? Ga i helpu? Ga i ham os gwelwch yn dda? Cei. / Na chei. Gawn ni fynd i ...? Cewch. / Na chewch. Wyt ti'n barod? Ydw, dw i'n barod. / Nac ydw, dw i ddim yn barod. Ble ydyn ni? Dw i ddim yn siŵr. Beth sy yn y fasged? Gorchmynion Edrycha ... Agorwch y llyfr. Rho'r ceiniogau yn dy boced. Patrymau eraill Mae'n flin 'da fi. / Mae'n flin gen i. = Mae'n ddrwg gen i. Rwy't ti'n gallu prynu bwyd a dw i'n gallu prynu bwyd. Dw i eisiau bwyd. Mae Crad eisiau bwyd. Wela i di. Does dim (orennau) yn y siop.	llyfr bach brown rhannu pobl pawb gallu ham jam oren, orennau afal, afalau bara bara gwyn bara brown cacen siocled prynu ceiniog dwy geiniog tair ceiniog chwilio am

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?; [Hefyd: **Beth ydy hon?** (os ydych chi'n gwybod bod rhywbeth yn fenywaidd); **Beth ydy'r rhain?**]

Ga i weld y...?; **Cei. / Na chei.**

Edrycha ar y ... Edrychwch ar y ...

Beth ydy teitl y llyfr?

Beth ydy'r dyddiad? [Hefyd: **Beth ydy'r dyddiad ar y llyfr?**]

Agorwch y llyfr. Ydych chi'n gallu gweld (y) ...?

Ga i fynd i'r? Cei.; Na chei.; Gawn ni fynd i'r ...? Cewch.; Na chewch.

Ga i dorri'r ...?

Oes ... yn y ...? Oes.; Nac oes.

Beth am ... (+ treigladd meddal)?; Syniad da. [Hefyd: **Na, dw i ddim yn meddwl.**]

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Cyn dangos y ffilm, eglurwch eich bod yn mynd i wyllo ffilm am **yr Ail Ryfel Byd**. Gofynnwch i'r disgyblion wneud ychydig o waith ymchwil i fywyd yn ystod y cyfnod ac yna trafodwch hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol.

Gallech chi roi nifer o eiriau i'r disgyblion a gofyn iddyn nhw ysgrifennu brawddegau am **yr Ail Ryfel Byd**, gan ddefnyddio rhai ohonyn nhw e.e.

Roedd pobl yn Roedden nhw'n	bwyta gwranddo ar hoffi mwynhau tyfu edrych ar prynu chwarae	bwyd margarîn y radio bara brown recordiau mynd i'r sinema afalau ffilmiau llysiau gemau fel ...
--------------------------------	---	---

Mae'r gwaith hwn yn gyfle da i adolygu ffurfiau'r amherffaith (**roedd / roedden nhw'n**) a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Tuduriaid ym Mhecyn 2 (Uned 5) a phobl Oes Fictoria ym Mhecyn 3 (Uned 3).

- Dangoswch ran agoriadol y ffilm **Cwpons** (Uned 3, Rhan 1) hyd at y man lle mae Crad a Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi adnabod y blynyddoedd sy'n cael eu crybwyll yn y ffilm, h.y. cyfeirir at y blynyddoedd canlynol yng nghyd-destun y llyfr dogni:

un naw pedwar pedwar

un naw pedwar pump

a chyfeirir at gyfnod yr Ail Ryfel Byd fel:

o un naw tri naw tan un naw pedwar pump.

Gofynnwch i'r disgyblion beth maen nhw wedi'i ddysgu am **yr Ail Ryfel Byd** yn sgîl gwyllo'r ffilm. Cyflwynwch y patrymau canlynol i'w sbarduno:

Doedd dim ...

Doedd dim llawer o ...

Roedd pobl yn defnyddio ... yn y siopau.

Roedd pobl yn prynu ... mewn siop ...

Cyfeiriwch at y llyfr mae'r cymeriadau wedi dod o hyd iddo a gofynnwch:

Beth ydy teitl y llyfr?

[Ateb: *Ration Book ... Ministry of Food Ration Book* (Llyfr Dogni ... Llyfr Dogni'r Weinyddiaeth Fwyd)]

Beth ydy'r dyddiad?

[Ateb: Un naw pedwar pedwar i un naw pedwar pump.]

[Gallech chi drosglwyddo'r cwestiynau hyn i sefyllfaoedd eraill yn yr ystafell ddosbarth wrth gyflwyno llyfrau.]

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall cysyniad y cwpons:

Roedd rhaid rhannu'r bwyd.

- Dangoswch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion restru'r geiriau sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n cael eu crybwyll yn y ffilm.

Cymharwch y rhestr a gofynnwch:

Beth mae Crad eisiau bwyta?

Beth mae Beca eisiau bwyta?

- Tynnwch sylw at y gair **archfarchnad**.
Yna, gallai'r disgyblion restru'r hyn sy'n cael ei werthu mewn archfarchnadoedd heddiw.

Eglurwch – **Doedd dim archfarchnad yn ystod yr Ail Ryfel Byd**. Gofynnwch i'r disgyblion ble, felly, roedd pobl yn prynu'r eitemau canlynol:

Ble roedd y bobl yn prynu ... ?

bara	cot	sgarff
llaeth	wyau	llyfr
papur ysgrifennu	menig	menyn

Gofynnwch i'r disgyblion baru'r eitemau gyda'r siopau cyfoes priodol, e.e.

siop fwyd	siop deganau	siop ddillad
siop ffrwythau a llysiau	siop fara	siop lyfrau
siop gig		

Yna, gallai'r disgyblion gynllunio tu blaen siopau neu fodel o Stryd Fawr o'r cyfnod. Yna, gallent nhw werthuso gwaith ei gilydd.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?

Mae'n dda.

**ddiddorol
ardderchog
effeithiol**

Mae'r ... yn dda.

**ddiddorol
ardderchog
effeithiol**

Dw i'n meddwl bod y ... yn dda.

**ddiddorol
ardderchog
effeithiol**

Dw i'n hoffi'r ... achos ...

Mae angen mwy o (liw) yma.

- Os yw'n briodol, gallech chi dynnu sylw at yr arian sy'n cael ei ddangos ar y sgrin a gwneud rhagor o weithgareddau mathemategol.
- Dangoswch weddill y ffilm.

Trafodwch beth mae Crad a Beca yn ei wisgo.

Beth mae Crad yn wisgo?

Beth mae Beca yn wisgo?

Tynnwch sylw at y clytiau sydd ar y dillad ac at yr arwyddair, *Make do and mend*.

Gallech chi drafod sut yr arferai pobl glytio a thrwsio – byddai mamau'n torri dillad plant hŷn i'w gwneud yn addas ar gyfer plant iau a bydden nhw'n clytio, trwsio ac yn gwnïo botymau ar y dillad a.y.b.

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau clytio a thrwsio. Gallen nhw wnïo clytiau / botymau ar ddillad, torri hen drowsus yn siorts a'u hemio, neu gallen nhw wnïo blodyn sidan ar grys dyn a'i wneud yn addas ar gyfer merch a.y.b.

- Er nad yw oriau agor y siop yn cael eu dangos ar y sgrin, gallech chi gopïo a dosbarthu'r grid canlynol i bob grŵp, gan egluro'i fod yn dangos oriau agor y siop.

Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn
	9.00-1.00	9.00-1.00	9.00-1.00	9.00-12.30	9.00-12.30	9.00-5.30
AMSER CINIO						
	2.00-6.00	2.00-6.00	Ar gau	2.00-6.00	2.00-6.00	

Gallai'r disgyblion ofyn cwestiynau i'w gilydd, e.e.

Pryd mae'r siop yn agor ar ddydd ...?

Pryd mae'r siop yn cau ar ddydd ...?

Pryd mae'r siop yn cau amser cinio ...?

Am ...

Gallai'r disgyblion wneud gwaith cyfrifo hefyd, e.e.

Am sawl awr mae'r siop ar agor ar ddydd ...?

Yna, gallai'r disgyblion wneud gridiau er mwyn dangos oriau agor eu siopau eu hunain (h.y. tu blaen y siopau uchod) a gallen nhw egluro'r oriau hyn i'w partneriaid. Dylai'r partneriaid wrando a llenwi'r gridiau gwag, e.e.

SIOP						
Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn

Ar ddydd Llun, mae'r siop yn agor am ... ac mae'n cau am ...

Ar ddydd Llun, mae'r siop ar agor o ... tan ...

(Mae'r patrwm hwn wedi cael ei gyflwyno eisoes mewn perthynas â blynyddoedd, e.e. **O 1485 tan 1603** – Pecyn 2, Uned 5, Rhan 5).

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio pa fath o frechdanau mae Beca a Crad eisiau. Yn y Pod-antur Cymraeg, mae Crad yn dweud ei fod e eisiau **brechdan jam** ac mae Beca'n dweud ei bod hi eisiau **brechdan ham**.

Ar ôl iddyn nhw lanio, mae Crad wedi newid ei feddwl ac mae e eisiau **brechdan gaws**. Mae e'n newid ei feddwl eto erbyn iddo gyrraedd y siop ac mae e'n gofyn am ham ar gyfer gwneud **brechdan ham**.

- Ail-ddangoswch y darn lle mae Crad yn gofyn am bethau yn y siop.

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau i'w gofyn mewn cwis.

Beth mae Crad eisiau?

Beth sy yn y siop?

Oes ... yn y siop?

Faint ydy'r ...?

Ble mae'r ...?

- Adolygwch y patrymau ar gyfer gofyn am bethau:

Dw i eisiau ... os gwelwch yn dda.

Dw i eisiau prynu ... os gwelwch yn dda.

... os gwelwch yn dda.

Ga i ... os gwelwch yn dda?

Patrymau eraill:

Does dim ... yma / yn y siop.

Ga i weld y cwpons?

Ble mae'r cwpons?

Yna, gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 18** a gallai'r disgyblion chwarae rôl gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau sy'n gyfarwydd iddyn nhw:

A: Rwyt ti'n byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac rwyt ti eisiau prynu bwyd.

B: Rwyt ti'n gweithio yn y siop.

Siaradwch.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion wneud gwaith ymchwil er mwyn canfod sawl cwpon oedd ei angen ar gyfer prynu mathau penodol o fwyd.

- Eglurwch fod angen cwpons ar gyfer prynu dillad hefyd. Cyflwynwch y ffeil ffeithiau **Dillad Newydd**.

Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y testun ac yna gofynnwch iddyn nhw wneud y gweithgareddau yn y bocs.

Ar ôl iddyn nhw ddarganfod sawl cwpon y byddai plant yn ei dderbyn, gallai'r disgyblion egluro pa eitemau maen nhw'n mynd i'w prynu gyda'u cwpons nhw, e.e.

Dw i eisiau prynu ...

Dw i'n mynd i brynu ... achos dw i'n hoffi ...

Dw i'n mynd i brynu ... achos dw i eisiau ...

Dw i'n mynd i brynu ... achos dw i angen ...

Beth am brynu ...?

Syniad da.

Na, dw i ddim yn meddwl achos ...

Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 19**, gan ofyn i'r disgyblion chwarae rôl lle maen nhw'n prynu dillad yn ystod yr Ail Ryfel Byd:

A: Rwy't ti'n gweithio mewn siop ddillad yn yr Ail Ryfel Byd.

B: Rwy't ti eisiau prynu dillad yn y siop.

Siaradwch.

Yn ogystal â defnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd:

Pa liw?

Pa faint?

Faint?

- Ail-ddangoswch ychydig o'r darn olaf, lle mae cerddoriaeth gyfoes i'w chlywed yn y cefndir. Eglurwch fod y gerddoriaeth yma'n nodweddiadol o'r cyfnod a gofynnwch i'r disgyblion:

Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?

Dw i'n gallu clywed ...

Ydych chi'n hoffi'r miwsig?

Wyt ti'n hoffi'r miwsig?

Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn dda (iawn).

ardderchog

gyffrous

hwyl

fywiog

hapus

Sut ydych chi'n teimlo?

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n hapus.

fywiog

Dw i eisiau dawnsio.

Yn ogystal, gallech chi ddangos darnau o ffilm sy'n dangos bandiau'r cyfnod ac yna sefydlu band yn y dosbarth a fyddai'n gallu perfformio fersiwn syml o ddarn cyfoes.

- Gallech chi ddangos darnau o ffilm sy'n dangos pobl yn dawnsio yn ystod y cyfnod hwn hefyd a gallai'r disgyblion ddysgu un o'r dawnsiau efallai.
- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.
Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?
Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol achos dw i'n hoffi dysgu am yr Ail Ryfel Byd.

Uned 3: Rhan 2 – Ble wyt ti’n byw?

Nodau:

- Parhau gyda thema’r Ail Ryfel Byd drwy ddysgu am faciwîs drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu gofyn am fanylion personol, yn benodol **O ble wyt ti’n dod?**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i wedi colli’r bwyd. Ydyn ni (ger Birmingham)? Ydyn. / Nac ydyn. Dw i’n dysgu siarad Cymraeg.	faciwî, faciwîs

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti’n iawn? Gawn ni fynd ’nôl i’r Ail Ryfel Byd? Cewch. / Na chewch. Ble mae’r bwyd? Ble ydyn ni nawr? Ble maen nhw? Pwy wyt ti? ... ydw i. Ble wyt ti’n byw? Yn ... O ble wyt ti’n dod? O ... Faint ydy dy oed di? Dw i’n ... oed. Wyt ti’n byw yn ...? Wyt ti’n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Beth am chwilio am y bwyd? Syniad da. Ffurfiâu’r gorffennol*: Roedd bara brown a menyn ... Gorchmynion Tyrd. = Dere.	bara brown bara gwyn brechedanau menyn afal, afalau ham jam bananas bwyd blasus siop, siopau gwybod anifail, anifeiliaid dafad, defaid mochyn, moch ceffyl, ceffylau helpu Hwyl fawr!

* Gweler Rhan 1 am fwy o enghreifftiau sy’n cael eu hadolygu yn rhan hon yr uned.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti’n iawn?

Beth sy’n bod?

Ble mae’r ...?

Ga i ...?; Cei.; Na chei.

Gawn ni ...? Cewch.; Na chewch.

Wyt ti’n barod?; Ydw.; Nac ydw.

Ardderchog.

Hwyl fawr!

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Ble wyt ti'n byw?** (Uned 3, Rhan 2) drwyddi. Yna, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:
Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?
Beth ydych chi'n feddwl o'r ffilm?
Mae'n grêt / wych.
Mae'n ddoniol.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddoniol.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn hwyl.
Dw i'n meddwl bod Crad yn ddoniol.

Os ydych chi'n dymuno i'r disgyblion ddefnyddio **Dw i'n meddwl bod ...** yn y cyd-destun hwn, awgrymir eich bod yn osgoi defnyddio ymadroddion sy'n defnyddio rhagenwau (e.e. fe/fo / hi) – gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio enwau, e.e.

Dw i'n meddwl bod Crad yn ...
Dw i'n meddwl bod Davie'n ...
Dw i'n meddwl bod Beca'n ...

- Ail-ddangoswch y darn lle mae Crad yn cyfarfod â Davie.
Tynnwch sylw at y prif gwestiynau sy'n cael eu gofyn – gofynnwch i'r disgyblion eu rhestru:
Pwy wyt ti?
Ble wyt ti'n byw?
Faint ydy dy oed di?
Beth wyt ti'n wneud?
[Ateb: **Dw i'n chwarae gyda ffrindiau.**]
Gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon.
- Ail-ddangoswch y darn nesaf - cyfarfod â Lily - ac, unwaith eto, gofynnwch i'r disgyblion restru'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn:
Helo, pwy wyt ti?
Wyt ti'n faciwî hefyd?
Ble wyt ti'n byw?
Wyt ti'n hoffi byw yng Nghymru?
Pam?
[Ateb: **Dw i eisiau gweld Mam a Dad ac Anti Daisy.**]
Gallai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon.
- Ail-ddangoswch y darn lle mae Crad yn cyfarfod â John.
Unwaith eto, gofynnwch i'r disgyblion restru'r cwestiynau:
Pwy wyt ti?
Wyt ti'n faciwî hefyd?
Ble wyt ti'n byw?
Wyt ti'n hoffi byw yng Nghymru?
Pam?
[Ateb: **Dw i'n mwynhau dysgu Cymraeg ... Hefyd, dw i'n byw ar fferm a dw i'n hoffi'r anifeiliaid – y defaid, y moch, y ceffylau. Dw i'n mwynhau helpu ar y fferm. Dw i'n hapus iawn yng Nghymru.**]
Gallai'r disgyblion chwarae rôl yn y sefyllfa hon, neu sefyllfaoedd tebyg.

Gofynnwch i'r disgyblion drosglwyddo'r patrymau iaith hyn i sefyllfa newydd, lle maen nhw'n actio rôl faciwî newydd sy'n cyfarfod â Crad. Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 20**:

A: Crad wyt ti. Rwyf ti'n siarad â faciwî.
B: Ti ydy'r faciwî.
Siaradwch.

- Cyflwynwch y gyfrol **Ein Stori Ni**.

Sylwer: Mae'r llyfr hwn yn cynnwys rhai patrymau newydd a dylid eu hegluro:

Bwytais i ...
Atebais i ...
Dywedodd ...
Gofynnodd ...

Pan fyddwch chi'n darllen, gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall beth sy'n digwydd ac yna gallan nhw wneud y gweithgareddau sy'n cael eu rhestru ar ddiwedd y gyfrol.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion actio'r sefyllfa gyfan mewn grwpiau -

- mynd i'r ysgol gyda'u mam
- ffarwelio
- mynd i'r orsaf
- mynd ar drên
- teithio i Gymru
- cyfarfod â Chymry
- mynd i gartref newydd.

Yn ogystal â disgrifio'r hyn sy'n digwydd iddyn nhw, dylen nhw fynegi teimladau a.y.b.

Gallen nhw ysgrifennu llythyr at eu teuluoedd sy'n sôn am eu profiadau yn ogystal.

- Gallech chi dynnu sylw at y defnydd o ddyfynodau yn y llyfr hwn, gan gyflwyno gweithgareddau priodol er mwyn ymarfer eu defnyddio.
- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis, e.e.
Ble mae Davie'n byw?
O ble mae John yn dod?
Ydy Lily'n hapus?
Pwy ydy Catrin?
Beth mae'r plant yn wneud?

Yna, gellid defnyddio'r cwestiynau hyn mewn cwis a rhoi pwyntiau am atebion cywir. Gwyliwch y DVD eto er mwyn gwirio'r atebion.

- Gallech chi ofyn i'r disgyblion wrando'n ofalus ar gyfres o ddatganiadau ac i gytuno neu anghytuno gyda'r hyn sy'n cael ei ddweud. Gallen nhw naill ai ysgrifennu **Cytuno** neu **Anghytuno** ar fyrdau gwyn bach a'u dangos ar ôl pob datganiad neu gallen nhw ysgrifennu **Cytuno** ar un darn o gerdyn ac **Anghytuno** ar gerdyn arall a'u dangos fel y bo'n briodol.

Y datganiadau:

Yn yr Ail Ryfel Byd:

Roedd llawer o fwyd yn y siopau. (x)

Doedd dim bananas yn y siopau. (✓)

Roedd faciwîs yn byw yng Nghymru. (✓)

Roedd plant o Lundain a Birmingham yn byw yng Nghymru. (✓)

Roedd pawb yn hapus. (x)

Roedd rhai faciwîs yn drist. (x)

Roedd rhai faciwîs yn hoffi byw ar fferm. (✓)

Roedd pobl yn defnyddio cwpons yn y siopau. (✓)

Gallen nhw gymharu a thrafod eu hatebion.

Uned 3: Rhan 3 – Ar y fferm

Nodau:

- Parhau â thema'r Ail ryfel Byd: Merched y Tir
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon.

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rydych chi'n ciwt. Beth arall ydych chi'n wneud? Dim peryg! Beth ydyn ni'n hau? Mae hau hadau'n hawdd. Mae'r gwaith yn galed (iawn). Dw i wedi blino'n lân. Am faint o'r gloch ydych chi'n dechrau gweithio yn y bore? Rydyn ni'n dechrau gweithio am ... Am faint o'r gloch ydych chi'n gorffen? Rydyn ni'n gorffen am ... y bore (a.m.) y prynhawn (p.m.)	codi tatws bwydo = rhoi bwyd i ieir godro gafr (yr afr), geifr winwns = nionod mewn rhes tyfu cennin ffa hawdd

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy ydy hi? Dw i ddim yn gwybod. Wyt ti'n siarad Cymraeg? Pwy wyt ti? ... ydw i. Pwy ydych chi? Crad ydw i ... a Beca ydw i. Ble wyt ti'n byw? Wyt ti'n faciwî? Nac ydw. Pam wyt ti'n gweithio ar y fferm yng Nghymru? Achos mae'r ffermwr eisiau help. Wyt ti'n hoffi gweithio ar y fferm? Ydw, mae'n iawn ... Ydych chi eisiau helpu? Ydyn. / Nac ydyn. Beth ydy'r rhain? Gorchmynion Edrycha ar y dillad. Dewch i weld. Rhaid plannu'r winwns (mewn rhes).	mwynhau anifeiliaid plannu llysiau hau hadau rhyfel yr ardd rhaw pridd dydd Llun dydd Mawrth dydd Mercher dydd Iau dydd Gwener bore dydd Sadwrn dydd Sul Diolch byth! amser cinio

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrycha ar y ...; Edrychwch ar y ...

Beth wyt ti'n wneud?; Beth ydych chi'n wneud?

Dim problem.

Wyt ti'n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw.

Dw i eisiau gweld ...

Ydych chi eisiau helpu?

Beth am ...? [Hefyd: **Syniad da. Na, dw i ddim yn meddwl.**]

Rhaid ...

Wyt ti eisiau ...? Ydw. / Nac ydw.

Ydych chi eisiau ...? Ydw. / Nac ydw.; Ydyn. / Nac ydyn.

Ble mae'r ...?

- Dangoswch y ffilm **Ar y fferm** (Uned 3, Rhan 3) drwyddi.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn:

Beth wyt ti'n feddwl o'r ffilm?

Mae'r ffilm yn ddiddorol.

Mae'r ffilm yn ofnadwy.

Mae'r ffilm yn ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol iawn achos dw i'n mwynhau dysgu am y Land Girls.

- Dangoswch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio'n benodol ar y ferch gyntaf a llenwi grid tebyg i'r un isod, e.e.

Enw	
Byw	
Dod o	
Mwynhau?	
Gwybodaeth arall	

- Cyflwynwch yr eirfa isod:
codi tatws (gallai hi fod wedi dweud ei bod hi'n **tyfu tatws** neu'n **plannu tatws**.)
bwydo'r ieir (Hefyd: **bwydo'r anifeiliaid**)
godro
hau hadau
plannu ...

Yna, gofynnwch i'r disgyblion wrando eto a rhestru gwaith Merched y Tir ar y fferm hon.

- Gofynnwch iddyn nhw restru pryd mae Merched y Tir yn gweithio:

Dydd Llun

Dydd Mawrth

Dydd Mercher

Dydd Iau

Dydd Gwener

O hanner awr wedi saith tan bump o'r gloch.

Dydd Sadwrn – bore

- Gallai'r disgyblion gyfrifo sawl awr y dydd / yr wythnos mae'r merched yn gweithio.
- Cyflwynwch y darn darllen, **Cerdyn post** h.y. y cerdyn post sydd wedi cael ei ysgrifennu gan un o Ferched y Tir, a gofynnwch i'r disgyblion llenwi grid tebyg i'r un a welwyd uchod.

Yn ogystal, gallech chi ofyn i'r disgyblion ysgrifennu dwy frawddeg yr un, gydag un ohonyn nhw'n gywir a'r llall yn anghywir. Dylen nhw ddarllen eu brawddegau ar goedd i'r grŵp a dylai aelodau'r grŵp benderfynu pa un sy'n **Cywir** a pha un sy'n **Anghywir**.

Gallai'r disgyblion gymryd arnyn nhw eu bod yn un o Ferched y Tir ac ysgrifennu cerdyn post tebyg at eu teuluoedd. Gallen nhw ddweud:

- ble maen nhw
 - pryd maen nhw'n gweithio
 - pa waith maen nhw'n wneud
 - beth maen nhw'n wneud yn eu horiau rhydd
 - sut maen nhw'n teimlo.
- Dylai'r disgyblion fedru cymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gadair goch, sef holi un o'r merched am ei gwaith
Pwy wyt ti?
Ble wyt ti'n byw?
O ble wyt ti'n dod?
Beth wyt ti'n wisgo?
Beth wyt ti'n wneud ar y fferm?
Pryd wyt ti'n gweithio?
Dw i'n gweithio o ... tan ...
Dw i'n dechrau am ...
Dw i'n gorffen am ...
Wyt ti'n mwynhau ...?
Ydw. / Nac ydw.
Pam?
Achos ...
Sut wyt ti'n teimlo?
Dw i'n teimlo'n hapus ac yn drist.
Pam?
Achos ...
 - Canolbwyntiwrch eto ar y darn o'r ffilm lle maen nhw'n penderfynu hau hadau.

Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio sut i hau hadau ac adolygwch y broses, gan ddefnyddio'r adnoddau angenrheidiol:

Ydych chi'n cofio sut i hau hadau?

Mae angen:

pot

pridd

hadau

cerrig bach

rhaw

dŵr

Rhaid rhoi cerrig bach yn y pot.

Rhaid rhoi pridd yn y pot.

Rhaid rhoi hadau ar y pridd.

Rhaid rhoi pridd ar yr hadau.

Rhaid rhoi dŵr ar y pridd.

Rhaid aros.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 21:**
Sut mae hau hadau? Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion ddisgrifio'r broses gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn.

Yna, gallen nhw hau hadau llysiau a'u trawsblannu ar adeg briodol. Gallen nhw gynaeafu'r cnwd a naill ai ei rannu a mynegi barn amdano neu gallen nhw agor stondin i werthu'r cynnyrch i'r

staff a'r rhieni. Byddai hyn yn arwain at waith ymchwil er mwyn dod o hyd i brisiau priodol a gweithio gydag arian.

- Gallech chi dynnu sylw at y gerddoriaeth sydd i'w chlywed yn y cefndir, yn enwedig y darn jazz sy'n cynnwys y piano. Gallai'r disgyblion drafod eu barn a'u teimladau a gallech chi gyflwyno gwybodaeth am gerddoriaeth jazz.

Uned 3: Rhan 4 – Yr Ail Ryfel Byd

Nodau:

- Parhau gyda thema'r Ail Ryfel Byd: ymweld ag amgueddfa'r Ail Ryfel Byd
- Cadarnhau'r defnydd o'r amser amherffaith: **Roedd ...; Roedden nhw'n**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Rydyn ni'n lwcus. Ydych chi eisiau edrych o gwmpas? Rydych chi'n edrych fel ... Amhosib! Beth ydy hwn? Tŷ oedd e ond mae bomiau wedi syrthio ar y tŷ. Dw i'n hapus i dy weld ti. Dim heddiw. Beth ydy dy rif ffôn di? Beth am ddod â rhywbeth o'r Ail Ryfel Byd i'r parti? Rhaid i fi fynd.	amgueddfa efallai model o ddyn peiriant gwnïo trefnu parti dod â rhywbeth fel syrpreis

Siarad am y gorffennol

Roedd pobl yn eistedd yma yn darllen ...
 Roedd pobl yn hoffi gwrando ar y radio...
 Roedd merched yn gwneud dillad ...
 Pan oedd bomiau'n syrthio, roedd pobl yn cuddio
 yn yr Anderson Shelter.
 Doedd dim llawer o ddillad newydd.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydy'r bwyd yn flasus? Ydy. / Nac ydy. Oes llythyr yn y drôr yma? Oes masg nwy yn yr amgueddfa? Oes. / Nac oes. Beth am fynd i'r amgueddfa i weld Ffion? Gawn ni fynd i'r amgueddfa yn Abertawe? Cewch. / Na chewch. Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth ydy'r sŵn? Ga i'ch helpu chi? Cei. / Na chei. Beth ydy hwn? Pam ydych chi yma? Gorchmynion Edrycha. Edrychwch ar y baneri. Dewch gyda fi. Tyrd. = Dere.	chwilio am llythyr e-bost neges darn o bapur dysgu pethau diddorol masg nwy bwyd dillad syrpreis oriau agor bob dydd gweithio mwynhau ystafell fyw druan gêm pobl

Patrymau eraill Mae'r bara'n sych. Dydy'r menyyn ddim yn neis iawn. Dw i wedi blino. O ddeg o'r gloch tan bump o'r gloch Mae Sgrin yn drist. Mae Sgrin yn unig. Mae'n ddrwg gen i. = Mae'n flin 'da fi/gen i.	
---	--

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy (amgueddfa)?

Beth ydy hwn?

Beth ydy'r sŵn?

Oes ... yn y ...?

Edrycha ar y ...; Edrychwch ar y ...

Wyt ti'n barod?; [Hefyd: Ydych chi'n barod?]

Rhaid ...

Dim problem.

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Yr Ail Ryfel Byd** (Uned 3, Rhan 4) hyd at y man lle mae Crad a Beca'n gadael y Pod-antur Cymraeg.
- Tynnwch sylw at y gair **amgueddfa**. Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio:
Pryd mae'r amgueddfa'n agor?
Pryd mae'r amgueddfa'n cau?

Gellid gwneud gweithgareddau mathemategol sy'n ymwneud ag amser a darllen amserlenni a gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 22** a **Cerdyn Siarad 23**.

Cerdyn Siarad 22

A: Rwy'ti'n gweithio yn yr Amgueddfa Dillad. Rhaid i ti ateb cwestiynau B. Paid dangos y cerdyn i B.

B: Rwy'ti eisiau gwybod pryd mae'r Amgueddfa Dillad yn agor ac yn cau. Gofynna i A.

Cerdyn Siarad 23

A: Rwy'ti eisiau gwybod pryd mae'r Amgueddfa Bwyd yn agor ac yn cau. Gofynna i B.

B: Rwy'ti'n gweithio yn yr Amgueddfa Bwyd. Rhaid i ti ateb cwestiynau A. Paid dangos y cerdyn i A.

Gan weithio mewn paru, dylai un partner edrych ar **Cerdyn Siarad 22** tra bo'r llall yn edrych ar **Cerdyn Siarad 23**. Dylen nhw ofyn cwestiynau i'w gilydd am oriau agor yr amgueddfeydd a chofnodi'r atebion mewn grid gwag tebyg i'r un isod:

Amgueddfa						
Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul

Dylid adolygu'r patrymau canlynol ond gwelir y rhain yn yr adran Help ar y ddau gerdyn hefyd:

Pryd mae'r amgueddfa'n agor ar ddydd ...?

Pryd mae'r amgueddfa'n cau ar ddydd ...?

Am faint o'r gloch mae'r amgueddfa'n agor ar ddydd ...?

Am faint o'r gloch mae'r amgueddfa'n cau ar ddydd ...?

Am ...

Mae'r amgueddfa'n agor / cau am ...

Ydy'r amgueddfa'n agor ar ddydd ...?

Ydy. / Nac ydy.

Pryd?

Am ...

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n deall beth yw amgueddfa. Gan fod Crad a Beca'n mynd i ymweld ag amgueddfa'r Ail Ryfel Byd, gofynnwch i grwpiau restru beth sy'n debygol o fod ynddi. Gallech chi eu hatgoffa nhw am eu gwaith ymchwil bersonol ac am y gwaith maen nhw wedi'i wneud mewn rhannau blaenorol o'r uned. Dylai hyn eu cynorthwyo gyda'r gwaith hwn. Os nad ydyn nhw'n gwybod y geiriau Cymraeg, gofynnwch iddyn nhw restru geiriau Saesneg yn ogystal â geiriau Cymraeg sy'n gyfarwydd iddyn nhw.

Cymharwch y rhestri. Os oes modd, rhowch y geiriau Cymraeg priodol yn ôl yr angen.

- Dangoswch weddill y ffilm.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu brawddegau am beth nhw wedi'i ddysgu am fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd, e.e.

Roedd pobl yn gwrando ar y radio.

Roedd pobl yn gwisgo ...

Roedd pobl yn casglu ...

Roedd merched yn gwnïo dillad.

Roedd bomiau'n syrthio.

Gallech chi ehangu ar hyn drwy ofyn i'r disgyblion ysgrifennu ffeithiau eraill, gan ddilyn yr un patrwm, e.e.

Roedd faciws yn dod o Lundain i Gymru.

Roedd y Land Girls yn gweithio ar y fferm.

Gallech chi adolygu'r patrymau canlynol hefyd:

Roedden nhw'n ..., e.e.

Roedd faciws yn dod o Lundain i Gymru. Roedden nhw'n dod ar y trênn. Roedden nhw'n gwisgo ... Roedd rhai'n drist ac roedd rhai'n hapus.

Doedd dim, e.e.

Roedd pobl yn defnyddio cwpons yn y siopau achos doedd dim llawer o fwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Doedd dim llawer o ham, doedd dim llawer o ...

a.y.b.

- Gallai'r disgyblion wneud rhagor o waith ymchwil er mwyn gweld beth roedd pobl yn ei fwyta yn ystod y cyfnod. Yna, gallen nhw rannu'r wybodaeth hon gyda grwpiau eraill:

Roedd pobl yn bwyta ...

Roedden nhw'n bwyta ...

- Cyflwynwch y ffeithlen, **Tost y Tylwyth Teg.**

Ar ôl darllen y ryseitiau, gallai grwpiau gwahanol wneud y bwyd a'i rannu, e.e.

Wyt ti eisiau Tost y Tylwyth Teg / Bara'r Tylwyth Teg?

Ydych chi eisiau Tost y Tylwyth Teg / Bara'r Tylwyth Teg?

Gallai'r disgyblion fynegi barn am y bwyd, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl o'r bwyd?

Mae e'n / o'n neis iawn.

**hyfryd
flasus
fendigedig**

Mae'r bwyd yn flasus.

**felys
rhy felys
feddal
galed
hyfryd
ddi-flas
ofnadwy
sych**

Os yw'n briodol, gellid cyflwyno patrymau newydd:

Mae hwn yn well na hwn.

Mae'n well gen i hwn na hwn achos ...

Mae'n well 'da fi ... na ...

Mae hwn yn fwy blasus na hwn.

**lliwgar
sych
diflas**

Gallech chi gymharu'r ddwy rysáit sydd ar y cerdyn, yn Gymraeg neu Saesneg fel y bo'n briodol, e.e.

Beth sy'n debyg?

8 darn o fara

siâp trionglau

Beth sy'n wahanol?

bara sych / bara ffres

pobi / dim pobi

Mae margarin yn rysáit 2.

Mae cannoedd a miloedd yn rysáit 2 – does dim yn rysáit 1.

rysáit o Gymru / rysáit o Awstralia / Seland Newydd

rysáit heddiw / rysáit o'r Ail Ryfel Byd

Mae rysáit 2 yn fwy lliwgar na rysáit 1.

diddorol

- Gofynnwch y cwestiynau canlynol:

Sawl darn o fara?

Eglurwch fod y cynhwysion sydd ar y sgrin yn ddigon ar gyfer 4 person. Gofynnwch i'r disgyblion gyfrifo sawl darn o fara a faint o'r cynhwysion eraill y byddai eu hangen ar gyfer 8 person, 16 person, 24 person a.y.b.

Cyn gwneud y gwaith hwn, byddai angen i'r disgyblion adolygu rhifau hyd at fil:

dau gant

saith cant

tri chant

wyth cant

pedwar cant

naw cant

pum cant

mil

chwe chant

tri chant dau ddeg gram

pedwar cant wyth deg gram a.y.b.

Sylwer: Bydd y disgyblion yn gyfarwydd â'r gair **chwarter** a **hanner**, ond efallai y bydd angen cyflwyno **tri chwarter** – yn dibynnu ar y cyfrifiadau.

Yna, gallai'r disgyblion drafod y cwestiwn,

Ydy'r bwyd yn iach?

Ydy, mae'r bwyd yn iach achos mae ... yn y bwyd.

does dim ... yn y bwyd

Nac ydy, dydy'r bwyd ddim yn iach achos mae ... yn y bwyd.

mae gormod o ... yn y bwyd

does dim ... yn y bwyd

Yn ogystal, gallen nhw drafod:

Sut mae gwneud y bwyd yn fwy iach?

e.e.

Beth am roi ffrwythau ar y bara?

Beth am roi tomato ar y bara yn lle cannoedd a miloedd?

Dw i eisiau rhoi ... ar y bara yn lle cannoedd a miloedd.

Dw i ddim eisiau rhoi margarín ar y bara.

- Gallai'r disgyblion chwilio am ryseitiau eraill. Os yw'n briodol, gellid dewis un neu ddwy i'w paratoi ac yna gallai'r disgyblion ysgrifennu'r rysât yn Gymraeg.

(Teitl)

Mae angen

(rhestr o'r offer)

Cynhwysion

(rhestr o'r cynhwysion)

Dull

(rhestr i ddangos y dull, wedi'i rhifo)

1. Rhaid pwyso ... / Pwyswch ...

- Gellid astudio agweddau eraill ar fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd hefyd. Er enghraifft, gallech chi chwarae cerddoriaeth a oedd yn boblogaidd yn ystod y cyfnod a gallai'r disgyblion fynegi barn. Byddai **Cerdyn Siarad 24** yn rhoi cefnogaeth ac arweiniad i'r disgyblion hynny sy'n brin o hyder:

Gwrandewch ar y miwsig.

Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?

Uned 3: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nodau:

- Adolygu cynnwys ffeithiol yr uned
- Cadarnhau’r defnydd o ffurfiau’r amherffaith: **Roedd ... yn ... a Roedden nhw’n ... a Doedd dim ...**
- Cynhyrchu darnau ysgrifenedig a delweddau i’w cynnwys mewn arddangosfa ar **Yr Ail Ryfel Byd**
- Annog y disgyblion i gymharu bywyd heddiw gyda bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pryd oedd yr Ail Ryfel Byd? Roedd yr Ail Ryfel Byd o un naw tri naw tan un naw pedwar pump. Beth ydy hwn? Pwy ydy’r rhain? Ga i helpu? Ga i ham os gwelwch yn dda? Pwy wyt ti? ... ydw i. Ble wyt ti’n byw? Yn ... O ble wyt ti’n dod? O ... Faint ydy dy oed di? Dw i’n ... oed. Wyt ti’n hoffi ...? Ydw. / Nac ydw. Ydy Beca’n dda ... yn dda iawn ... neu’n ardderchog? Hefyd: Dw i’n meddwl bod yr Ail Ryfel Byd yn ofnadwy.	ham jam oren, orennau afal, afalau bara bara gwyn bara brown cacen siocled cwpon, cwpons / cwponau ceiniog dwy geiniog

Siarad am y gorffennol

Roedd yr Ail Ryfel Byd o un naw tri naw tan un naw pedwar pump.
Roedd pobl yn tyfu bwyd.
Roedd y Land Girls yn helpu i dyfu bwyd.
Roedd faciwis yn dod i Gymru o Lundain a Birmingham achos roedd bomiau’n syrthio yn Llundain a Birmingham.
Roedd pobl yn defnyddio cwpons ac arian i brynu bwyd ond doedd dim llawer o fwyd yn y siopau.
Doedd dim llawer o ham a doedd dim llawer o fenyn.
Doedd dim bara gwyn.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth ydy hwn?
Ga i helpu?
Ga i ... os gwelwch yn dda?
Pardwn?
Faint?
Does dim ... yn y ...
Beth wyt ti'n wneud?; Hefyd: Beth ydych chi'n wneud?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm, **Ydych chi'n cofio?** (Uned 3, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar y darn cyntaf.

Dylai'r disgyblion roi'r geiriau Cymraeg am yr eitemau sy'n cael eu dangos ar y sgrin.

Adran 2

- Dangoswch ran gyntaf yr ail adran.

Yna, gofynnwch, **Ydych chi'n cofio?**

Dangoswch ran nesa'r ffilm. Bob tro y bydd logo oedi'n ymddangos ar y sgrin, dylai'r disgyblion geisio cofio beth yw'r gair sydd ar goll.

Adran 3

- Nod yr adran nesaf yw llunio cwestiynau drwy ddefnyddio'r sbardunau sydd ar y sgrin.

Dangoswch y DVD a gofynnwch i'r disgyblion lunio'r cwestiynau.

Ar ôl iddyn nhw orffen llunio'r cwestiynau, gallech chi ail-ddangos y darn perthnasol o Ran 2 fel bod y disgyblion yn gallu clywed y cwestiynau hyn yn cael eu gofyn mewn cyd-destun realistig.

Adran 4

Pwrpas yr adran hon yw annog y disgyblion i ddweud cymaint ag y bo modd am **Yr Ail Ryfel Byd**.

- Gwylwch ymgais gyntaf Beca i siarad am y rhyfel gynifer o weithiau ag y bydd angen. Tynnwch sylw at y ffaith fod y thermomedr yn stopio ar **da iawn**.

Gofynnwch i'r disgyblion drafod sut y gallai hi wella'i hateb. Yna, dangoswch ei hail ymgais, stopiwch y ffilm a gofynnwch:

Ydy Beca'n dda, yn dda iawn neu'n ardderchog?

Gallai'r disgyblion bleidleisio cyn i chi ddangos y penderfyniad terfynol.

- Mae'r adran hon yn gorffen gyda'r geiriau,
Eich tro chi nawr.

Dylai'r disgyblion weithio mewn grwpiau er mwyn dwed cymaint ag y gallan nhw am **Yr Ail Ryfel Byd**, e.e.

Roedd pobl yn gwrando ar y radio.

Roedd merched yn gwnïo dillad.

Roedd bomiau'n syrthio.

**Roedd faciwis yn dod o Lundain i Gymru.
Roedd y Land Girls yn gweithio ar y fferm.**

Yn ogystal, gallech chi annog y disgyblion i gyfuno patrymau:

Roedd faciwis yn dod o Lundain i Gymru. Roedden nhw'n dod ar y trê ac roedden nhw'n gwisgo ... Roedd rhai'n drist ac roedd rhai'n hapus.

Roedd pobl yn defnyddio cwpons yn y siopau achos doedd dim llawer o fwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Doedd dim llawer o ham, doedd dim llawer o ...

Cyflwynwch y gyfrol **Byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd**, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y ffrynt cartref.

- Yna, gallai'r disgyblion gymharu a chyferbynnu eu bywyd gyda bywyd yn ystod cyfnod y rhyfel, e.e.
 - y cartref
 - gweithgareddau hamdden
 - bwyd
 - a.y.b.

Gallen nhw lenwi grid tebyg i'r un isod, neu gallen nhw ddefnyddio dull y Llain Gymharu (*Comparison Alley*) i gofnodi tebygrwydd a gwahaniaethau:

Yr Ail Ryfel Byd	Heddiw
•	•
•	•
•	•
•	•
•	•
•	•
•	•
•	•

Gallai hyn arwain at ysgrifennu paragraffau sy'n cymharu agweddau penodol ar fywyd heddiw gyda bywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

- Awgrymir rhai gweithgareddau eraill yng nghefn y gyfrol. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth - a phatrymau iaith a geirfa - sydd yn y gyfrol hon ynghyd â gwybodaeth arall er mwyn creu arddangosfa o'r enw **Yr Ail Ryfel Byd** yn yr ystafell ddosbarth.
- Yna, gallai'r disgyblion dynnu llun neu wneud modelau o wrthrych sy'n gysylltiedig â chyfnod y rhyfel, gan ddefnyddio defnyddiau priodol. Dylen nhw ddisgrifio beth maen nhw'n ei wneud wrth iddyn nhw weithio neu gallen nhw roi cyfarwyddiadau Cymraeg i rywun arall ynglŷn â sut i wneud y model:
Beth wyt ti'n wneud?
Dw i'n gwneud model o ...
Beth wyt ti'n ddefnyddio?
Dw i'n defnyddio ...

Dw i'n ...
Rhaid ...

Yna, gallen nhw werthuso'r gwaith:
Beth wyt ti'n feddwl o'r ...?

Mae'n dda.
ddiddorol
ardderchog
effeithiol

Mae'r ... yn dda.
ddiddorol
ardderchog
effeithiol

Dw i'n meddwl bod y ... yn dda.
ddiddorol
ardderchog
effeithiol

Dw i'n hoffi'r ... achos ...
Mae'r ... yn dda achos ...

Mae angen mwy o (liw) yma.

Gellid cynnwys y modelau, lluniau a darnau ysgrifenedig yn yr arddangosfa ynghyd ag unrhyw ddelweddau neu wrthrychau priodol. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddylunio posteri sy'n cynnwys sloganau sy'n berthnasol i gyfnod y rhyfel, a gellid cynnwys y rhain yn yr arddangosfa hefyd.

- Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gadair goch er mwyn adolygu cynnwys yr uned. Gall un disgybl chwarae rhan Partner A yn y gweithgaredd isod a gallai grŵp o ddisgyblion ei holi er mwyn cael cymaint o wybodaeth â phosibl am gyfnod y rhyfel. Bydden nhw, felly, yn cymryd rhan Partner B.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 25** er mwyn rhoi cefnogaeth a chymorth yn ôl yr angen.

A: Rwy't ti'n byw yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Rwy't ti yn y gadair goch.

B: Gofynnwch gwestiynau i A.

e.e.

Pwy wyt ti?

Ble wyt ti'n byw?

Wyt ti'n mynd i'r ysgol?

Ble wyt ti'n mynd i'r ysgol? / I ba ysgol wyt ti'n mynd? / Beth ydy enw'r ysgol?

Wyt ti'n mwynhau'r ysgol?

Ydw. / Nac ydw.

Pam?

Beth wyt ti'n wneud yn yr ysgol?

Beth wyt ti'n wisgo i'r ysgol?

Wyt ti'n ... yn yr ysgol?

Wyt ti'n cael cinio yn yr ysgol?

Pwy ydy dy ffrindiau di?

Ydy hi'n neis? / Ydy e'n / o'n neis? / Ydyn nhw'n neis?

Beth wyt ti'n hoffi bwyta?

Oes llawer o fwyd yn y siopau?

Beth wyt ti'n hoffi gwneud?

Uned 4

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwricwlaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. gofyn am fanylion personol ac am wybodaeth ffeithiol (e.e. mewn perthynas ag oriau agor, cymharu prisiau, prifddinasoedd) ac mae cyfleoedd iddyn nhw roi cyfarwyddiadau i'w gilydd yn ystod 'sgwrs tîm' cyn chwarae'r gêm **pêl-law**.

Caiff y disgyblion gyfleoedd i fynegi barn am y DVD, y deunyddiau darllen, y dinasoedd sy'n cael eu dangos ar ffilm, paentiadau Picasso, gwyliau Sbaen a chystadlaethau chwaraeon 'gwahanol' sy'n gysylltiedig â'r Ffindir. Gofynnir i'r disgyblion chwarae rôl, e.e. prynu eitemau, trafod prisiau a.y.b.

Mae cyfleoedd i wylïo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wylïo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro. Gofynnir i'r disgyblion wrando'n ofalus ac i ysgrifennu patrymau penodol sydd i'w clywed ar y ffilm.

Gellid dosbarthu gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm a gellid gofyn i'r disgyblion eu llenwi gyda'r wybodaeth angenrheidiol.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i amrywiaeth o ddeunyddiau darllen megis ffeiliau o ffeithiau am Baris a Picasso, llyfrau ffeithiol am y Ffindir a Sbaen a chwedl draddodiadol o'r Almaen.

Rhestrir cwestiynau cyffredinol yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** a rhoddir rhestr o gwestiynau penodol sy'n berthnasol i'r llyfrau yng nghefn y llyfrau.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu ffeil ffeithiau am ddinas **Caerdydd - Prifddinas Cymru**, llyfr ffeithiol tebyg i'r llyfrau **Hei o'r Ffindir!** a **iHOLA o Sbaen!**, disgrifiadau o wrthrychau a disgrifiad a gwerthusiad o un o baentiadau Picasso.

Mae cyfleoedd hefyd i ysgrifennu testun ar gyfer taflen / poster / gwefan mewn perthynas â'r gêm **pêl-law** a gallai hyn gynnwys disgrifiad cyffredinol o'r gêm ynghyd â'r rheolau. Yn ogystal, gallai'r disgyblion ysgrifennu a recordio sylwebaeth ar gyfer gêm.

Gallai'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau ar gyfer cwis, ryseitiau ac, ar ôl darllen y stori yn Rhan 5, gallen nhw ysgrifennu bwrdd stori neu gallen nhw ysgrifennu'r chwedl yn eu geiriau eu hunain. Gallai hyn gynnwys deialogau rhwng y cymeriadau a gellid cynnwys hyn fel troslais mewn fersiwn animeiddiedig o'r chwedl. Yn ogystal, gallen nhw addasu'r chwedl drwy ysgrifennu eu chwedlau eu hunain.

Saesneg

Anogir y disgyblion i wneud gwaith ymchwil mewn perthynas â phrifddinasoedd amrywiol ac am fywyd a gwaith Pablo Picasso.

Mathemateg

Mae cyfeiriadau at **ciwboid** a chyfeirir at rifolion drwy gydol yr uned.

Mae amser yn cael ei adolygu wrth drafod oriau agor yn Rhan 2 a chyflwynir ymadroddion Cymraeg am *a.m.* a *p.m.* yn ogystal. Mae cyfleoedd hefyd i gyfrifo am faint o oriau mae siopau'n agor - gellid datblygu hyn drwy drafod faint o amser sy'n cael ei dreulio'n gwneud gweithgareddau gwahanol.

Mae arian yn cael ei adolygu a gofynnir i'r disgyblion gymharu prisiau a dod o hyd i wrthrychau sy'n **rhatach na** rhai eraill. Gallai hyn arwain at waith sy'n gysylltiedig â thrafod gwerth am arian.

Gofynnir i'r disgyblion chwilio am wybodaeth mewn perthynas â thymheredd yr haf a'r gaeaf yn y Ffindir a Sbaen, gan gofnodi'r rhain ar ffurf graffiau a chyfrifo'r gwahaniaeth rhwng tymheredd yr haf a thymheredd y gaeaf. Gofynnir iddyn nhw chwilio am wybodaeth debyg am Gymru ac i gymharu tymheredd y tair gwlad.

Gallai'r disgyblion roi cyfesurynnau pan fyddan nhw'n chwilio am leoedd ar y map.

Gwyddoniaeth

Mae geiriau Cymraeg sy'n gysylltiedig â deunyddiau gwahanol yn cael eu cyflwyno a rhoddir cyfle i'r disgyblion nodi dosbarthiad gwrthrychau amrywiol yn ôl y deunydd.

Hanes

Gallech chi gyflwyno gwybodaeth hanesyddol am rai o wledydd Ewrop os ydych yn dymuno, e.e. rhai o'r fforwyr a adawodd Ewrop ar fordeithiau i ddarganfod rhannau o'r byd.

Daearyddiaeth

Yn yr uned hon, mae'r disgyblion yn defnyddio mapiau, globau ac atlasau er mwyn dod o hyd i leoliad gwledydd a phrifddinasoedd a rhoddir cyfleoedd iddyn nhw chwilio am wybodaeth mewn perthynas â gwledydd yn Ewrop. Gofynnir iddyn nhw enwi 10 prifddinas yn y byd a dod o hyd iddyn nhw ar fap o'r byd. Cyflwynir baneri amryw wledydd yn ogystal.

Mae pwyntiau'r cwmrawd yn cael eu hadolygu a gellid cyflwyno / adolygu'r canlynol wrth i'r disgyblion drafod lleoliad gwledydd, dinasoedd, a.y.b.

gogledd-orllewin

gogledd-ddwyrain

de-orllewin

de-ddwyrain

Mae'r cyfrolau **Hei o'r Ffindir!** a **iHOLA o Sbaen!** yn rhoi gwybodaeth am y Ffindir a Sbaen ac, ar ôl gwneud gwaith ymchwil, gallai'r disgyblion ddefnyddio fformat ac iaith y llyfrau hyn er mwyn ysgrifennu am wledydd eraill - neu am Gymru os nad ydyn nhw wedi gwneud hynny eisoes ym Mhecyn 3.

Celf a dylunio

Mae rhai o baentiadau Picasso'n cael eu cyflwyno a'u trafod yn yr uned hon a gallai hyn arwain at drafodaeth ar giwbiaeth. Gallai'r disgyblion baentio / tynnu llun yn arddull ciwbiaeth a gallai hyn roi cyfleoedd gwerthfawr i drafod a gwerthuso'r gwaith. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** am batrymau iaith y gellir eu defnyddio wrth i'r disgyblion wneud gwaith celf ac wrth iddyn nhw werthuso'r gwaith.

Cyflwynir gwybodaeth am fywyd Picasso yn y ffeithlen **Picasso**.

Ar ôl chwilio am fwy o wybodaeth, gallai'r disgyblion greu darnau lliwgar o waith celf yn seiliedig ar wyliau Sbaen a chystadlaethau 'gwahanol' y Ffindir.

Gallai'r disgyblion wneud gweithgareddau celf a dylunio amrywiol sy'n gysylltiedig â'r chwedl am gerddorion Bremen, e.e. cynhyrchu collage neu symudyn, tynnu lluniau'r cymeriadau ac yna'u hanimeiddio, a.y.b.

Dylunio a thechnoleg

Ewrop yw prif thema'r uned hon, felly anogir y disgyblion i greu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth sy'n tynnu sylw at agweddau gwahanol ar fywyd yn Ewrop. Gallai hyn arwain at wneud modelau amrywiol, cynllunio ac argraffu baneri, gweithio allan sut i wneud tapas, paratoi'r bwyd ac ysgrifennu'r ryseitiau ac ati.

Gallai'r disgyblion greu mygydau lliwgar neu fodelau eraill y gellid eu defnyddio yng ngwylliau Sbaen.

Yna, gallai'r disgyblion werthuso gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio'r patrymau iaith a restrir yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

Addysg gorfforol

Mae cyfleoedd i astudio dawnisiau Sbaenaidd ac Ewropeaidd a gallai'r cyfeiriadau at chwaraeon ar y ffilm ac yn y llyfrau arwain at waith ymchwil i chwaraeon amrywiol a chymryd rhan yn y chwaraeon hyn.

Cerddoriaeth

Mae cyfleoedd i astudio arddulliau gwahanol o gerddoriaeth Ewropeaidd ac offerynnau cerdd sy'n gysylltiedig â gwledydd gwahanol. Gallai'r cyfeiriad at Sibelius yn y gyfrol **Hei o'r Ffindir!** arwain at wneud gwaith pellach ar y cyfansoddwr hwn.

TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn chwilio am wybodaeth am Gaerdydd, Brwsel, Picasso a'i waith, Sbaen, y Ffindir a chwaraeon Ewropeaidd a.y.b. Yna, gallen nhw ysgrifennu darnau sy'n seiliedig ar eu hymchwil, gan gynnwys cynhyrchu llyfrau sy'n debyg i **Hei o'r Ffindir!** a **iHOLA o Sbaen!**

Gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gêm o **pêl-law**, yn union fel Crad, neu mewn gemau Ewropeaidd eraill mewn gwirionedd, a gellid eu trafod a'u ffilmio. Yna, gellid ysgrifennu a recordio sylwebaeth a dangos hyn i ddosbarthiadau eraill.

Ar ôl darllen y chwedl am gerddorion tref Bremen, gallai'r disgyblion dynnu lluniau o'r cymeriadau ac yna'u hanimeiddio drwy ddefnyddio meddalwedd priodol. Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu'r chwedl yn eu geiriau eu hunain a gellid cynnwys hyn fel troslais.

Y Cwricwlwm Cymreig

Yn ogystal â dysgu Cymraeg fel ail iaith, mae angen i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Gaerdydd ac ysgrifennu ffeithlen o'r enw **Caerdydd - Prifddinas Cymru**. Gellid ailgyflwyno'r gyfrol **Dewch i Gymru!** (Pecyn 3) pan fyddan nhw'n darllen am y Ffindir a Sbaen.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae cyfleoedd i ddysgu sut i gyfarch pobl mewn ieithoedd gwahanol ac i ddysgu am ddiwylliannau a'r ffordd o fyw mewn gwledydd gwahanol yn Ewrop, a'u parchu.

ABCh

Mae cyfeiriadau at hylendid personol ar ddechrau Rhan 3, cyn i Crad fynd i'r Ganolfan Ewropeaidd, a gellid datblygu'r rhain ymhellach.

Datblygu meddwl

Gofynnir i'r disgyblion ystyried beth yw'r cysylltiad rhwng gwrthrychau penodol yn Rhan 1 (Ateb: Mae gan bob un gysylltiad ag Ewrop). Gofynnir iddyn nhw gynllunio a gwneud arddangosfa am Ewrop, sy'n golygu trafod y cynnwys, rhannu cyfrifoldebau a.y.b. Yn ogystal, ar ôl gweld enghreifftiau o tapas ar y ffilm, gofynnir i'r disgyblion pa gynhwysion sydd eu hangen ar gyfer y bwyd yma. Yna, mae angen iddyn nhw baratoi'r bwyd.

Yn ogystal, gallai'r disgyblion fynegi barn am yr ŵyl yn Pamplona, lle mae pobl yn rhedeg gyda'r teirw, ac am chwaraeon 'gwahanol' sy'n gysylltiedig â'r Ffindir.

Rhoddir cyfle i'r disgyblion ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith pobl eraill.

Datblygu cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a dilyniant.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a chyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf briodol, gan ddefnyddio meddalwedd briodol. Mae cyfleoedd i ffilmio gêm o pêl-law ac i ychwanegu sylwebaeth briodol.

Datblygu rhif

Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau gwahanol a chyflwyno data mewn fformatau priodol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 4: Rhan 1 – Bocs arbennig

Nodau:

- Ewrop yw prif thema Uned 4 ac mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddechrau paratoi arddangosfa sy'n gysylltiedig ag agweddau amrywiol ar fywyd yn Ewrop. Mae rhan gyntaf yr uned, felly, yn cyflwyno'r thema hon yn raddol.
- Sylwer:** Gellid gwneud y gwaith hwn ochr yn ochr â dathliadau Dydd Ewrop ym mis Mai.
- Cyflwyno'r cysyniad o brifddinas, mewn perthynas â Pharis i ddechrau ac, yn raddol, mewn perthynas â phrifddinasoedd eraill
- Cyflwyno defnyddiau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan adolygu sut i ddisgrifio yn Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i wedi cael neges ... Dw i wedi ffeindio bocs. Dw i ddim wedi edrych yn y bocs. Wela i di. Mae e'n / o'n grwn . Mae e'n / o'n galed . Dw i'n defnyddio hwn i (ysgrifennu / fwyta).	yn y de-ddwyrain gogledd-ddwyrain prifddinas os rhywbeth plastig ffabrig metel pren papur cerameg ewro Ffrainc prysur Tŵr Eiffel uchel adeilad Sbaen Yr Eidal

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau dod? Ydw, dw i eisiau dod. Ble mae Paris? Beth sy ym Mharis? Beth ydy hwn? Beth ydy o? Dw i ddim yn gwybod. Ga i fynd rŵan / nawr? Cei. Beth am chwarae gêm? Beth sy yn y bocs? Gorchmynion Edrycha ... Tyrd / Dere 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg. Dyfaluwch. Patrymau eraill Mae Sgrin yn unig. Mae Sgrin yn drist. Dim problem.	neges oddi wrth yn y gogledd yn y de yn y gorllewin yn y dwyrain ond rŵan = nawr traeth ciwboid chwe ochr mawr lliwgar arian pensil

Disgrifio

Mae e'n / o'n fach.
 Mae e'n / o'n fawr.
 Mae e'n / o'n hir.

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau ...? Ydw, os gwelwch yn dda. / Nac ydw, dim diolch.

Dyma ni.

Beth sy yn (y) ...?

Gwylia'r ffilm. [Hefyd: **Gwylwch y ffilm.**]

Edrycha.; Edrychwch.

Wyt ti'n siŵr?; [Hefyd: **Ydych chi'n siŵr?]**

Ydych chi eisiau chwarae gêm?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Bocs arbennig** (Uned 4, Rhan 1), hyd at y man lle mae Beca'n diflannu.

- Gofynnwch i'r disgyblion:
Beth sy'n digwydd?

Mae Beca'n cael neges. / Mae Beca wedi cael neges.

Mae Beca'n mynd i Baris.

Mae Beca'n mynd i weld ffrind ym Mharis.

- Tynnwch sylw at y gair **prifddinas**. Gofynnwch:
Beth ydy "prifddinas"? Dyfalwch.

Eglurwch:

Paris ydy prifddinas Ffrainc.

Caerdydd ydy prifddinas Cymru.

Gallech chi ofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n gallu enwi unrhyw brifddinasoedd eraill yn y byd, e.e.
Canberra ydy prifddinas Awstralia.

- Dangoswch y darn eto a chanolbwyntiwrch ar y ffilm am Baris. Dangoswch lyfrau a thaflenni twristaidd eraill sy'n cynnwys gwybodaeth am Baris a gofynnwch i'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am Baris ar y rhyngwyd.

- Cyflwynwch y ffeil ffeithiau **Paris – Prifddinas Ffrainc**.

Cyflwynwch y patrwm:

Mae llawer o bethau i wneud ym Mharis.

Gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae pobl yn gallu wneud ar ymweliad â Pharis ac yna gofynnwch ydy'r disgyblion yn mwynhau gwneud y gweithgareddau hyn a pham.

Beth mae pobl yn wneud ym Mharis?

Ydych chi'n mwynhau (siopa / mynd ar drip ar yr afon / gwyllo/chwarae rygbi / chwarae mewn parc / mynd i'r ffair)?

Ydw, dw i'n mwynhau ... achos ...

Nac ydw, dw i ddim yn mwynhau ... achos ...

Yna, gofynnwch:

Beth sy ym Mharis?

Mae ... ym Mharis.

Beth wyt ti'n feddwl o Baris?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n gyffrous iawn.

Mae'n ddiflas iawn.

Mae'n hardd.

Mae'n ofnadwy.

Dw i'n meddwl bod Paris yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod Paris yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod Paris yn wych achos mae llawer o bethau i wneud ym Mharis er enghraifft

Gallech chi dynnu sylw at yr ymadrodd newydd hefyd:
er enghraifft

- Yna, gallech chi gyfeirio at brifddinas Cymru:
Beth am Gaerdydd, prifddinas Cymru?

Gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio i brifddinas Cymru ac i ysgrifennu ffeil ffeithiau debyg i'r un maen nhw newydd ei darllen. Dylen nhw gynnwys map sy'n dangos lleoliad Caerdydd ynghyd â thestun a delweddau priodol. Pan fyddan nhw'n ysgrifennu, gallen nhw 'ailgylchu' rhai o'r patrymau iaith sydd yn y ffeil ffeithiau am Baris, e.e.

Caerdydd ydy prifddinas Cymru.

Mae Caerdydd yn ddinas ...

Mae llawer o adeiladau diddorol yma fel ...

Mae llawer o bethau i wneud yng Nghaerdydd, er enghraifft ...

Mae Caerdydd yn ...

Gallech chi ailedrych ar rannau o Becyn 1, hefyd, lle mae Caerdydd yn cael ei gyflwyno.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 26:**
Siaradwch am Gaerdydd – prifddinas Cymru.

Gallai'r disgyblion drafod Caerdydd, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd ar y cerdyn ynghyd â'r wybodaeth maen nhw wedi'i chasglu.

- Yna, gallech chi roi'r dasg ganlynol i'r disgyblion:
Chwiliwch am ddeg prifddinas yn y byd.
Dangoswch y deg prifddinas ar y map.

Gallai'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i ddangos y prifddinasoedd ar fap o'r byd:

Dyma Moscow – prifddinas Rwsia.

Dyma Oslo – prifddinas Norwy.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu cwestiynau y gellid eu gofyn mewn cwis:

Beth ydy prifddinas ...?

- Os yw'n briodol, gallai'r dosbarth drafod ystyr y gair "prifddinas" – yn Saesneg neu Gymraeg fel y bo'n briodol.
- Chwaraewch weddill y ffilm. Stopiwch y ffilm yn ystod yr adran ar y gêm ar ôl i Crad roi cliwiau am beth sydd yn y bocs. Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu beth yw'r gwrthrych:
Beth sy yn y bocs?
Beth ydy'r cliwiau?
Dyfalwch.
Cywir. / Anghywir.

- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw'n cofio'r geiriau am amryw ddeunyddiau. Gofynnwch y cwestiynau canlynol ac ysgrifennwch y geiriau ar y bwrdd gwyn:

Beth ydy fabric yn Gymraeg?

metal

wood

Gallech chi gyflwyno'r canlynol hefyd:

cerameg

papur

- Yna, gan ddefnyddio bocs sy'n cynnwys deunyddiau priodol rydych chi wedi'u dewis, gallai'r disgyblion roi eu dwylo yn y bocs, canolbwyntio ar un eitem a dweud y frawddeg ganlynol cyn dweud wrth y grŵp beth sydd yn y bocs:

Mae rhywbeth (ffabrig / metel / pren / cerameg / papur) yn y bocs.

Gellid rhoi'r eitemau hyn ar fyrddau, a'u labelu'n briodol.

- Yna, gallai'r disgyblion wneud rhestr o eiriau am wrthrychau sydd wedi cael eu gwneud o'r defnyddiau hyn, e.e.

Ffabrig	Metel	Pren	Cerameg	Papur
trowsus baner	tun deg ceiniog	tegan bwrdd	plât cwpan	map llyfr

Gallech chi ofyn:

(Ffabrig) – pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Sawl gair?

Da iawn – ti / chi sy'n ennill.

- Ail-ddangoswch y darn lle mae Crad yn chwarae'r gêm. Tynnwch sylw at y patrymau iaith mae e'n eu defnyddio:

Beth sy yn y bocs?

Mae rhywbeth ... yn y bocs.

Mae e'n / o'n grwn.

galed

fach

hir

fawr

(Gallech chi gyflwyno **meddal** os yw'n briodol.)

Dw i'n defnyddio hwn i ...

Dw i'n gwisgo hwn.

Gallech chi adolygu'r canlynol hefyd:

Dw i'n darllen hwn.

Dw i'n bwyta hwn.

Dw i'n taflu hwn.

Dw i'n gwisgo hwn i ...

Dywedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i roi gwrthrych mewn bocs mawr heb i neb arall ei weld. Yna, maen nhw'n mynd i roi cliwiau i'r grŵp fel eu bod yn gofyn cwestiynau ac yn dyfalu beth yw'r gwrthrych.

Felly, gallen nhw ysgrifennu darn ymlaen llaw ac yna'i ddarllen pan fyddan nhw'n cyflwyno'r gwrthrych:

**Mae rhywbeth ... yn y bocs.
Mae e'n / o'n ...
Dw i'n defnyddio hwn i ...
Dw i'n ... hwn.
Beth ydy e / o?**

Byddai cyflwyno **Cerdyn Siarad 27** yn rhoi cefnogaeth a chymorth os oes angen.

**Beth sy yn y bocs?
Siaradwch am hyn.**

- Dangoswch ddiwedd y ffilm eto, lle mae Crad yn gofyn:
Pam mae ewro ... pensil o Ffrainc ... crys T o'r Eidal yn y bocs ... yn y Pod-antur Cymraeg?
Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am atebion i'r cwestiwn hwn.
- I grynhoi, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm.
**Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?
Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?**

**Mae'n grêt / wych.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n gyffrous iawn.
Mae'n ddiflas iawn.**

**Dw i'n meddwl bod y ffilm yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol achos dw i'n hoffi dysgu am Ewrop.
Dw i'n meddwl bod y ffilm yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu am Baris.**

Uned 4: Rhan 2 – Ewrop

Nodau:

- Parhau â'r thema Ewropeaidd a gweithio tuag at greu arddangosfa am Ewrop yn yr ystafell ddosbarth
- Adolygu'r amser a chyflwyno'r ymadroddion **y bore** (a.m.); **y prynhawn** (p.m.); **y nos** (p.m.)
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
y bore y prynhawn y nos o ddeg y gloch y bore tan bedwar o'r gloch y prynhawn Ydych chi eisiau gwybod mwy? Dw i wedi clywed. Mae'r ganolfan wedi cau.	taflen popeth y Ganolfan Ewropeaidd Portiwgal Andorra Yr Almaen Y Ffindir

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Oes rhywbeth arall yn y bocs? Pa liwiau sy ar y faner? Beth ydy hwn? Pwy ydy hi? Pryd mae'r ganolfan yn agor? Pam wyt ti eisiau dysgu am Ewrop? Beth am fynd i gysgu? Faint o'r gloch ydy hi rŵan / nawr? Mae hi'n ... Gorchmynion Ffoniwch. Edrycha. Patrymau eraill Mae hi'n gweithio ... Mae Ewrop yn fawr. Dyma Ffrainc. Dw i wedi blino.	ar agor ar gau dydd Llun dydd Sadwrn dydd Sul Ffrainc Sbaen Yr Eidal prifddinas i'r gogledd o ... i'r de o ... i'r gorllewin o ... i'r dwyrain o ... diddorol iawn

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dyma'r ...

Ga i weld?; Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Beth ydy prifddinas (y Ffindir)?

Diddorol iawn.

Beth am ...?

Faint o'r gloch ydy hi rŵan / nawr? Mae hi'n ...

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Ewrop** (Uned 4, Rhan 2) hyd at y man lle mae Crad yn sylweddoli ei bod hi'n rhy hwyr i fynd i'r Ganolfan Ewropeaidd. Dylai'r disgyblion ymateb i gwestiynau Crad ar y sgrin wrth iddyn nhw wyllo.

Gallai'r disgyblion chwilio am ddelweddau o 5 baner Ewropeaidd arall ac yna cyflwyno'r rhain i'w gilydd.

Edrycha ar y faner.

Mae'r faner yn ... (lliwiau).

Dyma faner ... (enw'r wlad).

Yna, gellid cadw'r rhain yn ddiogel a'u cynnwys yn yr arddangosfa ar ddiwedd yr uned.

- Gallech chi dynnu sylw at y gerddoriaeth gefndirol sydd i'w chlywed gyda phob baner, gan ofyn i'r disgyblion:

Pa offerynnau ydych chi'n gallu clywed?

Dw i'n gallu clywed ...

Ydy'r miwsig yn hapus neu'n drist?

Ydy'r miwsig yn dawel neu'n uchel?

Ydy'r miwsig yn araf neu'n gyflym?

Sut ydych chi'n teimlo?

Sut wyt ti'n teimlo?

Dw i'n teimlo'n hapus.

fywiog

Dw i eisiau dawnsio.

Ydych chi'n hoffi'r miwsig?

Wyt ti'n hoffi'r miwsig?

Ydw, dw i'n hoffi'r miwsig achos mae'n hapus.

achos dw i'n teimlo'n hapus

Nac ydw, dw i ddim yn hoffi'r miwsig achos mae'n rhy uchel.

achos dw i'n hoffi miwsig araf, tawel

Beth ydych chi'n feddwl o'r miwsig?

Dw i'n meddwl bod y miwsig yn dda (iawn) achos mae'n hapus.

ardderchog

gyffrous

hwyl

fywiog

hapus

- Dangoswch y ffilm eto hyd at y man lle mae'r daflen yn cael ei chyflwyno. Gallech chi rewi'r ffilm fel bod y disgyblion yn gallu ei darllen.

Y Ganolfan Ewropeaidd

Popeth rydych chi eisiau gwybod am Ewrop

Ar agor:

Dydd Llun i Ddydd Sadwrn: 9.00 a.m. – 5.00 p.m.

Dydd Sul: 10.00 a.m. – 4.00 p.m.

Ar gau:

Dydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan

Ydych chi eisiau gwybod mwy?

Ffoniwch Izzy: 0875 555 6888

Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu ystyr yr ymadrodd **Y Ganolfan Ewropeaidd** – maen nhw wedi dod ar draws **y ganolfan hamdden** ym Mhecyn 2.

Gofynnwch iddyn nhw ystyried beth y bydden nhw'n disgwyl ei weld mewn Canolfan Ewropeaidd a pha fath o waith mae'r ganolfan yn ei wneud.

Cymharwch eu syniadau.

Tynnwch sylw at yr ymadroddion amser canlynol:

9.00 a.m. – 5.00 p.m.

10.00 a.m. – 4.00 p.m.

a gofynnwch sut mae Crad yn cyfeirio at *a.m.* a *p.m.* ar y sgrin:

y bore e.e. **naw o'r gloch y bore**
deg o'r gloch y bore

y prynhawn e.e. **pump o'r gloch y prynhawn**
pedwar o'r gloch y prynhawn

Eglurwch fod yr ymadrodd canlynol yn cael ei ddefnyddio am *p.m.* hefyd:
y nos e.e. **deg o'r gloch y nos**

Dylai'r disgyblion ymarfer y ffurfiau hyn, e.e.

Pryd mae'r Ganolfan Ewropeaidd yn agor ar ddydd (Sadwrn)?

Am naw o'r gloch y bore.

Pryd mae'r Ganolfan Ewropeaidd yn cau ar ddydd (Sadwrn)?

Mae'r Ganolfan Ewropeaidd yn cau am (bump o'r gloch y prynhawn) ar ddydd (Sadwrn).

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 28** a **Cerdyn Siarad 29** er mwyn atgyfnerthu'r patrymau hyn:

Cerdyn Siarad 28

A: Rwyd ti eisiau gwybod pryd mae'r ganolfan hamdden yn agor ac yn cau. Gofynna i B.

B: Edrycha ar y poster ac ateba gwestiynau A.

Cerdyn Siarad 29

A: Edrycha ar y poster ac ateba gwestiynau B.

B: Rwyd ti eisiau gwybod pryd mae'r ganolfan arddio yn agor ac yn cau. Gofynna i A.

Gallai'r disgyblion wneud amrywiaeth o dasgau mathemategol / rhifedd priodol sy'n gysylltiedig ag amser ac, os yw'n briodol, gallen nhw gyfrifo'r atebion i gwestiynau tebyg i'r rhai canlynol:

Sawl awr mae'r ganolfan ar agor ar ddydd Sadwrn?

Sawl awr mae'r ganolfan ar agor ar ddydd Sul?

Gellid datblygu'r gwaith hwn ymhellach fel bod y disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil er mwyn gweld faint o'r gloch mae adeiladau, gwasanaethau a.y.b. yn yr ardal yn agor ac yn cau.

- Dangoswch y ffilm eto a gofynnwch:
Pam dydy Crad ddim yn gallu mynd i'r Ganolfan Ewropeaidd?
Mae'r Ganolfan Ewropeaidd ar gau / wedi cau.
Faint o'r gloch ydy hi?
Mae hi'n naw o'r gloch y nos.
- Dangoswch weddill y ffilm.
- Gofynnwch i'r disgyblion ydyn nhw wedi deall enwau unrhyw wledydd yn y darn yma o ffilm.

Dangoswch y darn hwn eto a gofynnwch iddyn nhw restru enwau'r gwledydd sy'n cael eu henwi.
Cymharwch y rhestr i ac ysgrifennwch enwau Cymraeg y gwledydd hyn ar y bwrdd gwyn:

**Ffrainc
Sbaen
Portiwgal
Andorra
Yr Eidal
Yr Almaen
Y Ffindir
Sweden
Estonia
Latfia**

Yna, gallai'r disgyblion nodi'r gwledydd hyn ar fapiau gwag o Ewrop, a dangos y prifddinasoedd os yw hyn yn briodol. Gallech chi ofyn iddyn nhw ydyn nhw'n gwybod enwau unrhyw wledydd eraill yn Ewrop:

Enwch wledydd eraill yn Ewrop.

- Dangoswch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion nodi sut i ddweud "Helo" mewn ieithoedd gwahanol.
Os yw'n briodol, gellid cyflwyno ymadroddion eraill sy'n gysylltiedig ag iaith benodol.
- Canolbwyntiwch ar leoliad **Y Ffindir** a chwaraewch y darn priodol eto:
Mae'r Ffindir i'r dwyrain o Sweden.
Mae'r Ffindir i'r gogledd o Estonia a Latvia.
Mae'r Ffindir i'r gorllewin o Rwsia.

Eglurwch hyn yn weledol a gofynnwch i'r disgyblion egluro lleoliad y Ffindir a gwledydd eraill yn Ewrop i'w gilydd.

Yna, gallen nhw chwarae'r gêm **Pa wlad ydy hi?** drwy ddisgrifio lleoliad gwlad yn Ewrop yn eu tro, ond heb ei henwi, e.e.

Mae'r wlad yma i'r de o Brydain.

Mae'r wlad yma i'r gorllewin o'r Almaen.

Mae'r wlad yma i'r gogledd o Sbaen.

Pa wlad ydy hi?

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion ddefnyddio:

i'r gogledd-orllewin o

i'r gogledd-ddwyrain o

i'r de-orllewin o

i'r de-ddwyrain o

- Dangoswch y ffilm o Helsinki eto, ond cyn gwneud hynny, cyflwynwch / adolygwch y geiriau:
harbwr
adeilad, adeiladau
amgueddfa

Gofynnwch gwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm er mwyn gweld faint mae'r disgyblion wedi'i ddeall, e.e.:

Beth sy yn Helsinki?

Oes siopau yn Helsinki?

Beth mae rhai pobl yn wneud yn Helsinki?

Gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth a delweddau o Helsinki a'u rhannu gyda'u cyddisgyblion:

Dyma ... yn Helsinki.

Mae ... yn Helsinki.

Mae pobl yn ... yn Helsinki.

Gallen nhw ysgrifennu'n syml am Helsinki hefyd.

Yna, gallech chi ofyn:

Beth ydych chi'n feddwl o Helsinki?

- Yna, gellid cyflwyno'r gyfrol **Hei o'r Ffindir!** a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu rhestru yn y cefn.
- Gallai'r disgyblion weithio mewn grwpiau a dewis gwlad yn Ewrop (ond nid Sbaen, gan fod rhagor o waith ar Sbaen yn Rhan 3 a Rhan 4), er mwyn gwneud gwaith ymchwil ar y wlad honno a chynhyrchu llyfr tebyg.

Yna, gellid rhannu'r llyfrau hyn ymhlith y disgyblion fel eu bod yn darllen gwaith ei gilydd a mynegi barn.

Uned 4: Rhan 3 – Y Ganolfan Ewropeaidd

Nodau:

- Parhau gyda'r thema Ewropeaidd a gweithio tuag at gynhyrchu arddangosfa
- Dysgu am Picasso drwy gyfrwng y Gymraeg ac ysbrydoli'r disgyblion i ail-greu ei arddull wrth iddyn nhw greu darnau o waith celf
- Disgrifio yn Gymraeg, e.e. **Mae'r gwallt yn wyrdd.; Mae'r ffrog yn goch.**
- Mynegi barn yn Gymraeg, e.e. **Mae'r llun yn drawiadol iawn. Mae'r llun yn effeithiol iawn. Mae'r llun yn wahanol iawn. Mae'r llun yn drawiadol achos mae e'n / o'n wahanol iawn. Yn fy marn i, mae'r llun yn ...**
- Cyflwyno gwybodaeth syml am Sbaen
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Wela i chi. Dw i'n meddwl bod y llun yn rhyfedd. drawiadol wahanol effeithiol lliwgar Mae angen tacluso. O ble wyt ti wedi dod? Dw i wedi dod o'r Pod-antur Cymraeg.	acrobat gan portread dynes llygaid trwyn ceg coler ffwr boch talcen trefnu arddangosfa ffan clogyn enw llawn jocian pêl-law bysedd

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n saith o'r gloch. Pwy ydy hwn? Pwy ydy hon? Beth ydy hwn? Ydych chi'n hoffi'r llun? Beth ydych chi'n feddwl? Dw i'n meddwl bod y llun yn ... Pwy wyt ti? Beth wyt ti'n wneud yma? Beth ydy dy enw di? Pam wyt ti'n gwisgo ...? Pam mae blodyn ar dy foch di? Ydy hi'n gweithio yn y Ganolfan Ewropeaidd? Ydy hi yma heddiw? Ble mae hi? Ga i ddod? Cei, os wyt ti eisiau.	Y Ganolfan Ewropeaidd tŷ bach ymolchi brwsio fy nannedd brwsio fy ngwallt amhosib gwallt blodyn patrwm dydd Llun Dydd Sadwrn Dydd Sul Diolch byth! llyfr baner pêl gêm gyffrous cicio prifddinas

Gorchmynion Paid â phoeni. Cer allan. = Dos allan. Cer o 'ma. = Dos o 'ma. Edrycha. Patrymau eraill Dw i'n chwilio am ... Mae Sgrin yn drist. Mae Sgrin yn unig. Does dim tapas ar y plât.	plât prynu
---	---------------

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ...

Esgusodwch fi.

Amhosib!

Edrychwch ar y ...

Beth ydy hwn?

Ble mae'r ...?

Ydych chi'n hoffi'r llun?

Mae'r llun yn ...

Pardwn?

Beth ydy enw prifddinas ...?

Ga i ...? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Y Ganolfan Ewropeaidd** (Uned 4, Rhan 3) hyd at y man lle mae Crad yn codi ar ôl peintio'i wyneb.

- Gofynnwch i'r disgyblion:
Pwy ydy'r artist ar y ffilm?
Picasso (ydy'r artist).

Gofynnwch iddyn nhw ydyn nhw'n cofio beth oedd yn y lluniau?

Pwy sy yn y lluniau?

Atebion: Acrobat

Dynes

Dynes mewn het a choler ffwr.

- Ail-ddangoswch y darn sy'n dangos y portread o'r ddynes sy'n gwisgo het a choler ffwr ac yna gofynnwch:
Beth ydych chi'n gofio am y ddynes mewn het a choler ffwr?
Mae hi'n ...

Pa liw ydy'r llygaid?

Pa liw ydy'r gwallt?

Pa liw ydy'r het?

Pa liw ydy'r clogyn?

Pa liw ydy'r coler?

a.y.b.

- Adolygwch y canlynol:
yn ddiddorol
yn drawiadol
yn rhyfedd
yn wahanol

Ail-ddangoswch yr adran sy'n sôn am y lluniau a'r peintio wynebau a gofynnwch i'r disgyblion wrando am farn sy'n cael ei mynegi yn y darn. Cymharwch awgrymiadau'r disgyblion a rhestrwch yr ymadroddion ar y bwrdd gwyn. Tynnwch sylw penodol ar y patrwm newydd:

Yn fy marn i ...

Yn fy marn i, mae'r llun yn ddiddorol iawn.

Yn fy marn i, mae'r patrwm ar y talcen yn cwl iawn.

Yn fy marn i, mae'r lluniau'n ddiddorol iawn – ond maen nhw'n rhyfedd.

Ydych chi'n hoffi'r llun?

Dw i'n meddwl bod y llun yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y llun yn rhyfedd hefyd – ond mae'n ddiddorol iawn.

Mae'r lliwiau'n ddiddorol (achos mae'r gwallt yn wyrdd ...)

(Mae) blodyn ar y foch ... patrwm ar y talcen. O, wel, diddorol!

Dw i'n meddwl bod y llun yn drawiadol iawn.

Dw i'n meddwl bod y llun yn wahanol iawn.

Mae o'n lliwgar iawn ac mae o'n gyffrous iawn.

Dw i wrth fy modd gyda'r llun.

- Gofynnwch i'r disgyblion fynegi barn am y lluniau sy'n cael eu dangos ar y sgrin ac yna cyflwynwch **Cerdyn Siarad 30**, sy'n cynnwys enghraifft o waith Picasso:

Beth ydych chi'n feddwl o'r llun yma?

Siaradwch am hyn.

Dylai'r disgyblion drafod y llun a mynegi barn, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau cyfarwydd eraill.

- Yna, gellid cyflwyno'r ffeil ffeithiau, **Picasso**.
- Gallech chi ofyn i'r disgyblion ddod o hyd i enghraifft arall o waith Picasso, ei disgrifio a'i gwerthuso.

Gallai'r gwaith hwn arwain at drafodaeth am giwbiaeth a gellid annog y disgyblion i beintio, i dynnu llun neu i wneud portread yn arddull ciwbiaeth. Gallai hyn, wedyn, arwain at y disgyblion yn disgrifio ac yn gwerthuso gwaith ei gilydd.

- Wrth i Crad dynnu sylw at y gwrthrychau sydd ar y bwrdd, gallai'r disgyblion ystyried pa wlad sy'n cael ei chynrychioli. Gallech chi eu hatgoffa am Picasso yn ogystal.
- Dangoswch y darn lle mae Izzy'n dod i mewn ac mae Crad yn rhoi braw iddi, hyd at y man lle mae Crad yn ysgwyd ei llaw. Gallai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa debyg a byddai hyn yn gyfle da iddyn nhw adolygu patrymau sydd wedi cael eu dysgu eisoes, e.e.

Pwy wyt ti?

Beth wyt ti?

Beth wyt ti'n wneud yma?

Dw i'n chwilio am Izzy.

Pam?

Achos dw i'n ffrind i Sgrin.

O ble wyt ti'n dod? / O ble wyt ti wedi dod?

Dw i'n dod o'r Pod-antur Cymraeg. / Dw i wedi dod o'r Pod-antur Cymraeg.

Pam?

Dw i'n chwilio am Izzy.

Pam?

Achos mae Sgrin yn drist ...

Ble wyt ti'n byw?

Dw i'n dod o Landudno – ond dw i'n byw yn y Pod-antur Cymraeg rŵan.

a.y.b.

Os ydyn nhw'n dymuno, gallen nhw siarad am beth maen nhw'n ei hoffi neu ddim yn hoffi yn ogystal.

- Dangoswch yr adran nesaf hyd at y man lle maen nhw'n dechrau gwyllo ffilm am Barcelona.
- Ar ôl y cyfeiriadau at **pêl-law**, gallai'r disgyblion chwilio am ddelweddau a ffaith am y gêm hon. Yna, gallen nhw gymharu gwybodaeth. Fodd bynnag, bydd mwy o waith mewn perthynas â phêl-law yn cael ei wneud yn Rhan 4.
- Adolygwch y geiriau canlynol:
uchel
eglwys
adeilad, adeiladau
harbwr
cwch, cychod

Dangoswch y ffilm sy'n sôn am Barcelona – hyd at y man lle mae Izzy'n egluro mai Madrid yw prifddinas Sbaen ac mae hi'n dweud ...
... ond mae Barcelona'n ddiddorol iawn.

Gofynnwch gwestiynau cyffredinol am Barcelona a gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ddinas:

Beth sy yn Barcelona?

Oes ... yn Barcelona?

Beth mae pobl yn wneud yn Barcelona, tybed?

Beth ydych chi'n feddwl o Barcelona?

Yna, gallen nhw chwilio am ragor o wybodaeth am Barcelona ynghyd â delweddau diddorol, a'u rhannu gyda'u cyd-ddisgyblion:

Dyma ...

Mae ... yn Barcelona.

Yma, maen nhw'n ...

Mae ... yn ddiddorol iawn.

Yna, gallai'r disgyblion ofyn i'w gilydd beth yw eu barn am y ddinas.

Yn ogystal, gallech chi dynnu sylw at yr adeiladau sydd wedi cael eu cynllunio gan Gaudi, gan chwilio am fwy o enghreifftiau a gwneud mwy o waith amdano os yw'n briodol.

- Dangoswch weddill y ffilm.

Canolbwyntiwch ar y cyfeiriadau at tapas – bwyd bysedd o Sbaen.

Ar y ffilm, mae Izzy'n dangos darnau o foron er mwyn egluro'r cysyniad o fwyd bysedd, ond gallai'r disgyblion chwilio ar y rhyngwrdd am ddelweddau o tapas er mwyn cael dealltwriaeth lawnach. Bydd rhagor o waith ar tapas yn cael ei wneud yn Rhan 4.

- Gofynnwch i'r disgyblion beth yw cynlluniau Crad ac Izzy:

Beth mae Crad ac Izzy'n mynd i wneud?

Mae Crad yn chwarae pêl-law.

Maen nhw'n mynd i siopa.

Maen nhw'n mynd i brynu bwyd i wneud tapas.

Mae Izzy'n mynd i drefnu arddangosfa.

Maen nhw'n mynd i fynd 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg.

Tynnwch sylw arbennig at y ffaith eu bod yn mynd i siopa ac adolygwch sut mae gofyn am bethau a sut i drin arian yn Gymraeg.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 31**:

A: Rwyf ti'n mynd i'r farchnad i brynu'r pethau ar y rhestr.

B: Rwyf ti'n gweithio yn y farchnad.

Siaradwch.

Dylai'r disgyblion chwarae'r rôl lle mae un ohonyn nhw'n siopa am gynhwysion ar gyfer gwneud tapas. Dylen nhw ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau cyfarwydd eraill. Yna, dylen nhw gyfnewid rôl fel eu bod yn cael cyfle i ofyn ac i ateb cwestiynau.

- Canolbwyntiwch ar yr ymadrodd:
trefnu arddangosfa

Dywedwch wrth y disgyblion eu bod yn mynd i drefnu arddangosfa am Ewrop a gofynnwch iddyn nhw beth hoffen nhw ei gynnwys ynddi. Gallen nhw seilio rhai o'u syniadau ar yr hyn maen nhw wedi'i weld yn yr uned hyd yn hyn.

Rydych chi'n mynd i drefnu arddangosfa am Ewrop.
Beth ydych chi eisiau rhoi yn yr arddangosfa?
Siaradwch am hyn mewn grŵp.

Yna, gallen nhw ysgrifennu eu syniadau ar *post-its* a'u trafod yn eu tro.

Dw i eisiau rhoi ... yn yr arddangosfa achos ...
Beth am roi ... yn yr arddangosfa achos ...?
Syniad da.
Na, dw i ddim yn meddwl achos ...

Efallai y byddan nhw'n penderfynu eu bod nhw eisiau chwilio am fwy o wybodaeth am agweddau penodol ar fywyd yn Ewrop, e.e.

Beth am chwilio am wybodaeth am ...?
Syniad da.
Na, dw i ddim yn meddwl achos ...

Uned 4: Rhan 4 – Chwarae a siopa

Nodau:

- Parhau â'r thema Ewropeaidd drwy ganolbwyntio'n benodol ar Sbaen
- Rhoi cyfle i'r disgyblion wneud gweithgaredd ymarfer corff drwy gyfrwng y Gymraeg – **chwarae pêl-law**
- Trafod agweddau sy'n gysylltiedig â 'gwerth am arian' drwy gymharu prisiau a dangos pa eitemau sy'n **rhatach**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Sut mae chwarae? Rhaid sgorio gôl. Rhaid rhedeg gyda'r bêl. Rhaid dal y bêl. Rhaid bownsio'r bêl. Rhaid taclo. Tri cham yn unig. Dimicio. Mae'r bara yma'n rhatach. Mae'r tomatos yma'n rhatach.	sgorio gôl taclo pwnsio cam yn unig sardîns rhatach y kilo yr un

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ga i chwarae os gwelwch yn dda? Ce, wrth gwrs. Ble mae Crad? Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ... Beth wyt ti eisiau? Dw i eisiau ... Faint ydy'r ...? Saith deg ceiniog. Punt wyth deg (ceiniog). Dwy bunt pedwar deg (ceiniog). Faint ydy'r bil? Un deg pum punt, dau ddeg naw (ceiniog). Ga i'r newid os gwelwch yn dda? Wyt ti'n siŵr? Hefyd: Pob lwc!	llawer o Sbaen pêl-law archfarchnad moron bara Ffrengig tomato ham pupur afalau darn o gaws tatws pys wedi rhewi

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ga i ...? Cei. / Na chei.; Cewch.

Barod?

Wyt ti'n barod?; Ydw. / Nac ydw.; [Hefyd: **Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn.**]

Rhaid rhedeg ... rhaid pasio'r bêl ... dimicio!

Faint ydy'r ...? ... ceiniog.

Maen nhw'n rhatach.

**Mae'r ... yn rhatach.
Faint ydy'r bil?**

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Chwarae a siopa** (Uned 4, Rhan 4) hyd at y man lle mae Crad yn anfon neges at Izzy sy'n dweud ei fod ar y ffordd i gyfarfod â hi.
- Gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw wedi'i ddysgu am sut i chwarae **pêl-law**.

Dangoswch y darn eto os bydd angen fel bod y disgyblion yn gallu rhestru'r cyfarwyddiadau a glywir ar y sgrin e.e.

Pêl-law - sut i chwarae

Rhaid sgorio gôl.

Rhaid taflu'r bêl.

Rhaid rhedeg gyda'r bêl – un ... dau ... tri ... (tri cham yn unig).

Rhaid pasio'r bêl.

Rhaid dal y bêl.

Rhaid bownsio'r bêl.

Dim cicio.

Dangoswch yr un darn eto ar ôl i'r disgyblion ysgrifennu eu rhestri fel eu bod yn gallu gwirio'u hatebion.

Gallai'r disgyblion ymchwilio i'r gêm ac ysgrifennu darn byr sy'n rhoi gwybodaeth am y gêm a'i rheolau. Gallen nhw chwilio'n benodol am y wybodaeth ganlynol:

Sawl tîm?

Mae ... dîm yn chwarae.

Sawl person sy yn y timau? Mae ... person yn y timau.

Ble i chwarae? Rhaid chwarae ar ...

Sut i chwarae? I chwarae, rhaid ...

Sut i sgorio? I sgorio, rhaid ...

Yna, gallen nhw chwarae'r gêm yn Gymraeg yn ystod sesiwn addysg gorfforol. I ddechrau, gallen nhw gael 'sgwrs tîm', lle maen nhw'n mynd drwy'r rheolau er mwyn sicrhau bod pawb yn gwybod sut i chwarae. Yna, tra byddan nhw'n chwarae, gallen nhw alw ar ei gilydd gan ddefnyddio'r ymadroddion canlynol:

Yma.

Ata i.

Dw i yma.

Hei ... yma.

Edrycha ...

Gellid ffilmio'r gweithgaredd hwn fel bod y disgyblion yn cael cyfle maes o law i ysgrifennu a recordio sylwebaeth. Yn ogystal, gellid ffilmio'r disgyblion yn mynegi eu barn am y gêm, e.e.

Mae pêl law yn ...

Dw i'n meddwl bod pêl-law yn ...

Yna, gellid dangos y ffilm hon, gan gynnwys y sylwebaeth a barn y disgyblion, i ddosbarthiadau eraill a'i chynnwys yn yr arddangosfa Ewropeaidd.

Gallai'r disgyblion ymchwilio i chwaraeon eraill yng ngwledydd Ewrop a gellid eu cynnwys yn eu harddangosfa.

- Cyn dangos yr adran nesaf, gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn gyfarwydd â'r geiriau Cymraeg am arian a'u bod yn gallu trin symiau fel:
£1.60 - **punt chwe deg** neu **punt chwe deg ceiniog**
£3.20 - **tair punt dau ddeg** neu **tair punt dau ddeg ceiniog**
£5.60 - **pum punt chwe deg** neu **pum punt chwe deg ceiniog** a.y.b.

Gallech chi wneud nifer o weithgareddau mathemategol lle mae'n rhaid i'r disgyblion adnabod prisiau – yn Gymraeg – er mwyn atgyfnerthu'r ymadroddion hyn.

Hefyd, cyflwynwch yr ymadrodd:

Rhatach.

Mae ... yn rhatach na ...

- Dangoswch y darn nesaf hyd at y man lle mae'r cymeriadau'n gadael yr archfarchnad.

Gofynnwch i'r disgyblion restru beth mae Izzy eisiau prynu ac yna gofynnwch:

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Faint?

Gawn ni weld.

Dangoswch y darn lle mae hi'n cyfeirio at ei rhestr eto er mwyn gwirio rhestr i'r disgyblion.

- Dangoswch y darn nesaf eto a gofynnwch i'r disgyblion nodi'r prisiau maen nhw'n clywed ar y sgrin. Gallech chi stopio'r DVD mewn mannau priodol er mwyn eu galluogi i wneud hyn.

Faint ydy'r ...?

Dangoswch bob adran fesul un fel bod y disgyblion yn gallu clywed yr ateb cywir bob tro.

Nawr, tynnwch sylw at y gair **rhatach** ac at yr ymadroddion:

Mae'r bara yma'n rhatach.

Maen nhw'n rhatach.

Gallech chi osod stondin yn yr ystafell ddosbarth sy'n cynnwys eitemau tebyg gyda phrisiau gwahanol, e.e.

Pecyn o fananas / bananas rhydd

Pecynnau o fefus sydd wedi'u prasio'n wahanol

Mathau gwahanol o afalau

Pecynnau o fisgedi o wahanol faint

a.y.b.

Gallech chi roi rhestr a swm penodol o arian i'r disgyblion a gofyn iddyn nhw brynu'r eitemau sy'n rhoi'r gwerth gorau am yr arian bob tro, e.e.

Ga i'r ... yma achos maen nhw'n rhatach?

Dw i eisiau'r ... yma achos maen nhw'n rhatach.

Yna, gallai'r disgyblion gymharu pa eitemau maen nhw wedi'u prynu.

Yn ogystal, gallen nhw gyfrifo faint o arian maen nhw wedi'i wario, faint sydd ar ôl a faint maen nhw wedi'i arbed drwy brynu nwyddau rhatach.

- Mewn parau, cyflwynwch **Cerdyn Siarad 32** a **Cerdyn Siarad 33** yr un pryd fel bod aelodau pob pâr yn edrych ar gardiau gwahanol.

Cerdyn Siarad 32

Partner A

Rwy't ti'n gweithio yn siop Mr Evans.

Gofynna i dy bartner di faint ydy pris y bwyd yn siop Mr Jones.

Ydy'r bwyd yn rhatach yn siop Mr Evans neu yn siop Mr Jones?

Cerdyn Siarad 33

Partner B

Rwy't ti'n gweithio yn siop Mr Jones.

Gofynna i dy bartner di faint ydy pris y bwyd yn siop Mr Evans.

Ydy'r bwyd yn rhatach yn siop Mr Evans neu yn siop Mr Jones?

Dylech chi roi grid tebyg i'r un isod iddyn nhw:

Faint ydy'r ...?	Siop Mr Evans	Siop Mr Jones	Mae'r ... yn rhatach yn siop ...	Faint yn rhatach?
ciwcymbr				
letys				
tomatos				
afalau				
orenau				
grawnwin				

Dylai'r disgyblion llenwi'r grid gyda manylion am eu siop eu hunain, h.y. bydd y disgyblion sy'n darllen **Cerdyn Siarad 32** yn llenwi'r ail golofn (Siop Mr Evans) a bydd y disgyblion sy'n darllen **Cerdyn Siarad 33** yn llenwi colofn 3 (Siop Mr Jones).

Yna, dylen nhw ofyn i'w gilydd beth yw prisiau'r nwyddau yn siopau ei gilydd fel eu bod nhw'n gallu llenwi colofn 2 neu golofn 3.

Mr Jones, faint ydy'r ciwcymbr?

Wyth deg ceiniog.

Yna, yng ngholofn 4, dylen nhw ysgrifennu enw'r siop lle mae'r eitem yn rhatach a chofnodi yn y golofn olaf faint yn rhatach yw'r eitem.

Gwiriwch yr atebion.

- Gallai'r gwaith hwn arwain at waith pellach, gan gynnwys cymharu prisiau a thrafod gwerth am arian, a thrwy hynny dargedu'r fframwaith rhifedd, e.e.

Faint ydy hwn?

Faint y kilo?

Faint y kilo ydy hwn?

Mae ... yn rhatach na ...

- Dangoswch y darn olaf yn y rhan hon o'r uned.
Stopiwch y ffilm sy'n dangos y tapas a gofynnwch i'r disgyblion egluro beth yw'r tapas, e.e.

bara Ffrengig

moron

salad llysiau.

Gofynnwch iddyn nhw ddewis un o'r tapas sy'n cael ei ddangos, neu enghraifft arall, ac i ystyried sut i wneud y bwyd yma:

Sut mae gwneud y tapas?

Dylai'r disgyblion ysgrifennu'r rysâit, e.e.

Teitl

Rhaid cael:

neu

Mae angen:

neu

Cynhwysion:

[rhestr o'r cynhwysion yma]

Dull

[y cyfarwyddiadau yma]

1.

2.

3.

Os yw'n briodol, gellid rhoi'r rhain i ddisgyblion eraill fel eu bod nhw'n eu darllen, eu deall ac yn paratoi'r tapas.

Gellid tynnu ffotograffau a'u cynnwys gyda'r ryseitiau yn yr arddangosfa Ewropeaidd mae'r disgyblion yn ei pharatoi.

Yna, gellid rhannu'r bwyd, drwy gyfrwng y Gymraeg, a gallai'r disgyblion fynegi barn.

Gallai'r disgyblion ymchwilio i fwydydd Ewropeaidd eraill hefyd, eu paratoi a'u cynnwys yn yr arddangosfa.

- Gellid cyflwyno'r gyfrol **iHOLA o Sbaen!** a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn y cefn.

Yna, gallai'r disgyblion ddylunio ac ysgrifennu eu llyfrau eu hunain am wledydd yn Ewrop – llyfrau tebyg i **Hei o'r Ffindir**, **iHOLA o Sbaen!** neu'r gyfrol **Ffrainc**, gan Sioned V. Hughes (CAA, 2010), neu gallen nhw greu eu cynllun eu hunain ar gyfer y llyfrau. Gellid cynnwys y llyfrau hyn yn yr arddangosfa hefyd.

Uned 4: Rhan 5 – Ydych chi'n cofio?

Nod:

- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ydy'ch barn chi?	

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n ... y bore. Mae hi'n ... y prynhawn. Mae hi'n ... y nos. Pryd mae'r ganolfan hamdden yn agor / cau ar ddydd Sadwrn? Am ... y bore. Am ... y prynhawn. Am ... y nos. Ydych chi'n hoffi'r llun? Ydw. / Nac ydw. Beth ydy'r rheolau? Rhaid ... Beth ydy prifddinas ...? Patrymau eraill Mae ... yn rhatach na ... Yn fy marn i, mae'r llun yn ... Dw i'n meddwl bod y llun yn ...	canolfan hamdden het gwallt ffrog clogyn boch talcen llun pêl-law y kilo yr un

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi?

Mae hi'n ...

Edrychwch ar y (poster / llun) ac atebwch y cwestiynau.

Pa liw ydy'r ...?

Beth sy ar y ...?

Beth ydy'ch barn chi? Yn fy marn i, mae'r (llun / llyfr / poster / gwaith) yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod (y llun / llyfr / poster / gwaith) yn ddiddorol.

Beth ydy prifddinas Ffrainc?

Beth am ddarlenn storï (o Ewrop)?

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o'r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi'n cofio?** (Uned 4, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir ar y dudalen nesaf.

Adran 1

- Canolbwyntiwrch ar yr adran gyntaf.

Dylai'r disgyblion roi'r ymadroddion Cymraeg am yr amser sy'n ymddangos ar y sgrin. Dylen nhw ddefnyddio:

y bore

y prynhawn

y nos

Eglurwch fod y saeth ar ganol y sgrin yn pwyntio tuag at naill ai *a.m.* neu *p.m.*

- Gellid cyflwyno **Cerdyn Siarad 28** a **Cerdyn Siarad 29** eto er mwyn atgyfnerthu'r gwaith hwn a gellid gwneud tasgau mathemategol priodol eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adran 2

- Dylai'r disgyblion ateb y cwestiynau, gan roi'r amserau cywir.

Adran 3

- Dylai'r disgyblion ateb y cwestiynau, yn seiliedig ar y ddelwedd sy'n cael ei dangos ar y sgrin.

Adran 4

- Dylai'r disgyblion gymharu'r prisiau sydd ar y sgrin a dweud pa un yw'r rhataf bob tro - A neu B, e.e.
Mae A yn rhatach na B.

Adran 5

- Dylai'r disgyblion ateb y cwestiynau. Gallai timau chwarae yn erbyn ei gilydd, gan ateb cwestiynau bob yn ail.
- Yna, gallai'r disgyblion baratoi eu cwestiynau eu hunain a'u gofyn yn ystod cwis.

Adran 6

- Ar ôl i Crad awgrymu darllen stori o Ewrop, cyflwynwch y gyfrol **Cerddorion Bremen**, sy'n chwedl draddodiadol o'r Almaen.
- Gallech chi ddilyn y camau sy'n cael eu hargymell gan Pie Corbett* wrth i chi gyflwyno rhagor o waith mewn perthynas â'r chwedl, e.e.
 - Gallech chi wneud map stori.
 - Defnyddiwch hwn y tro nesaf y byddwch chi'n adrodd y chwedl - gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei ddangos yn yr ystafell ddosbarth.
 - Gofynnwch i'r disgyblion wneud eu mapiau stori eu hunain.
 - Adroddwch y stori bob dydd fel bod y disgyblion yn ei dysgu'n raddol.
 - Penderfynwch, fel dosbarth, pa symudiadau, ymadroddion a.y.b. rydych chi'n mynd i'w defnyddio er mwyn cyfleu'r stori.
 - Wrth i'r disgyblion ymglyfarwyddo â'r stori, gwahoddwch nhw i'w hadrodd hi gyda chi.
 - Wrth iddyn nhw ddod yn fwy hyderus, gallai grwpiau adrodd y stori, e.e. merched, bechgyn, grwpiau sy'n eistedd o gwmpas byrddau a.y.b.
 - gellid sefydlu cylchoedd stori, lle mae'r disgyblion yn adrodd y stori i'w gilydd, gan eu helpu ei gilydd yn ôl yr angen.
 - Gallai'r disgyblion feimio rhai golygfeydd.

* Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 1**, Clown Publishing, 2006
Pie Corbett, **The Bumper Book of Storytelling into Writing – Key Stage 2**, Clown Publishing, 2007

- Gallen nhw actio rhai golygfeydd.
- Gallen nhw actio'r stori - yn ystod gwasanaeth yr ysgol, efallai - gan ddefnyddio props priodol.
- Yn ogystal, gallen nhw gymryd rhan mewn sesiwn yn y gadair goch, e.e. gallai un o'r cymeriadau eistedd yn y gadair goch a gallai'r disgyblion eraill ofyn rhai o'r cwestiynau canlynol:

Pwy wyt ti?

Yr asyn ydw i.

Sut wyt ti?

Dw i'n ofnadwy / drist. / Dw i'n teimlo'n ofnadwy / drist.

Pam?

Achos dw i'n rhy hen i weithio.

Beth wyt ti eisiau?

Dw i eisiau mynd i Bremen.

Pwy wyt ti'n gweld ar y ffordd?

Dw i'n gweld ...

- Gallai'r disgyblion wneud y canlynol:
 - *collage* sy'n cyfleu golygfeydd gwahanol o'r chwedl
 - pypedau, e.e. pypedau bysedd / pypedau ffyn sy'n cyfleu'r cymeriadau. Gellid defnyddio'r rhain wedyn mewn gweithgareddau chwarae rôl
 - modelau o anifeiliaid gwahanol / model o'r anifeiliaid yn sefyll ar ben ei gilydd.

Gallen nhw wneud bwrdd stori a byddai hyn yn defnyddio sgiliau TGCh.

- Gallen nhw ysgrifennu negeseuon e-bost, llythyron neu gardiau post er mwyn gwahodd hen ffrindiau i ymweld â nhw yn eu cartref newydd.
- Pan fydd y disgyblion yn gwbl gyfarwydd â'r stori gallen nhw eu haddasu hi, e.e. gallen nhw newid:
 - yr anifeiliaid
 - y cymeriadau yn y bwthyn
 - beth sy'n digwydd i'r dyn sy'n torri i mewn i'r bwthyn
 - y diwedd.
- Gofynnwch i'r disgyblion wneud map o'u stori newydd. Yna, dylen nhw ailadrodd y stori bob dydd a symud ymlaen i gylchoedd stori a pharau cyn ceisio'i hysgrifennu hi.
- Dylai'r disgyblion ysgrifennu a darlunio'u gwaith mewn dull priodol.
- Yna, gallai'r disgyblion chwilio am chwedlau Ewropeaidd poblogaidd eraill a'u hadrodd i'w gilydd. Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu byrddau stori ar gyfer y chwedlau hyn neu eu hanimeiddio nhw a'u cynnwys yn yr arddangosfa Ewropeaidd.

Uned 5

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwriclaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i gyfathrebu ar lafar mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. siarad am ffotograffau personol, disgrifio wynebau, siarad am deimladau a mynegi barn am y ffilm, llyfrau a'r cymeriadau yn y llyfrau. Maen nhw'n siarad am ddigwyddiadau yn y gorffennol, e.e. mewn perthynas â ffotograffau ac ymweliad yn y gorffennol.

Gofynnir i'r disgyblion wneud cyflwyniad am **arwr** / **arwres** yn ogystal.

Mae cyfleoedd i wyllo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wyllo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro. Gofynnir i'r disgyblion wrando'n ofalus ac i ysgrifennu patrymau penodol sydd i'w clywed ar y ffilm hefyd.

Gellid dosbarthu gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm a gellid gofyn i'r disgyblion eu llenwi gyda'r wybodaeth angenrheidiol.

Darllen

Mae deunyddiau darllen penodol wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r uned hon, sef llyfr stori, **Y Ras Feiciau**, lle mae bachgen ifanc yn cyflawni gweithred arwrol, cyfrol am gŵn tywys o'r enw **Arwyr** a llyfr sy'n gofyn **Pwy ydy dy arwr di?** Mae dwy ffeil ffeithiau wedi cael eu hysgrifennu hefyd, h.y. **Parafeddyg** a **Diffoddwr Tân**, sy'n gysylltiedig â'r thema **Arwyr**.

Mae cyfleoedd i ddarllen ar goedd wrth i'r disgyblion ddarllen eu disgrifiadau ysgrifenedig o'r ffotograffau.

Ysgrifennu

Mae cyfleoedd i ysgrifennu rhestri, cwestiynau cwis, hanesion personol mewn perthynas â ffotograffau a sylwebaeth ffilm. Gofynnir i'r disgyblion ysgrifennu disgrifiadau o wynebau a phobl, darn i gyflwyno Izzy a darn ffeithiol am **Y Fam Teresa**.

Mae cyfleoedd i ysgrifennu ffeiliau ffeithiau am fathau gwahanol o gŵn ac i ddrafftio llythyr sy'n cynnig helpu i ofalu am gŵn bach sy'n cael eu hyfforddi'n gŵn tywys. Felly, bydd angen iddyn nhw gyflwyno'u hunain, dweud pam yr hoffon nhw ofalu am y cŵn bach ac egluro pam y bydden nhw'n addas ar gyfer y gwaith.

Ar ôl darllen y defnyddiau darllen a gwyllo'r darnau o'r ffilm sy'n gysylltiedig ag arwyr, dylai'r disgyblion ysgrifennu am eu harwr / arwres.

Saesneg

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth am y Fam Teresa ac am arwyr/arwresau eraill.

Mathemateg

Mae amser yn cael ei adolygu mewn perthynas â gwaith y diffoddwr tân a gallai'r disgyblion gyfrifo cyfanswm yr arian sy'n cael ei godi yn ystod reid feiciau ar gyfer elusen. Gallen nhw rannu'r arian hwn yn gyfartal rhwng nifer o elusennau.

Hanes

Gall y disgyblion ysgrifennu am gymeriadau hanesyddol wrth iddyn nhw ysgrifennu am eu harwyr.

Daearyddiaeth

Ar ôl darllen y gyfrol **Y Ras Feiciau**, gallai'r disgyblion gynllunio llwybr beicio o gwmpas yr ardal, gan roi sylw penodol i ddiogelwch. Yn ogystal, gallen nhw gynllunio'u taith feiciau eu hunain yn yr ardal er budd elusen.

Celf a dylunio

Gallai'r disgyblion dynnu llun neu beintio wynebau doniol er mwyn eu disgrifio yn Gymraeg.

Gallen nhw gynhyrchu logos, sloganau wedi'u dylunio, posteri a.y.b., er mwyn hyrwyddo'u taith feiciau er budd elusen.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** am batrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth i'r disgyblion wneud gwaith celf a gwerthuso'r gwaith.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion ddewis neu gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer dechrau a diwedd rhaglenni am arwyr. Gweler TGCh isod.

Addysg gorfforol

Gallai'r disgyblion feicio ar hyd y llwybr beicio maen nhw wedi'i gynllunio.

TGCh

Anogir y disgyblion i ddefnyddio'r rhyngwrdd er mwyn chwilio am wybodaeth am **Y Fam Teresa** ac arwyr eraill. Ar ôl darllen y gyfrol **Y Ras Feiciau**, gallen nhw chwilio am wybodaeth am feicwyr o Gymru a rasys beiciau gwahanol, e.e. y *Tour de France*.

Yn ogystal, gallen nhw gynhyrchu cyfres o raglenni am arwyr, tebyg i gyfres Dyfs, lle maen nhw'n cyfweld arwyr gwahanol mewn grwpiau. Byddai hyn yn golygu dewis cerddoriaeth addas ar gyfer dechrau a diwedd y rhaglenni, cynhyrchu'r teitl a'r cydnabyddiaethau ar y diwedd, siarad o flaen y camera er mwyn cyflwyno'r arwyr yn ogystal â chyfweld y bobl hyn – gallai'r disgyblion holi pobl leol neu gallen nhw chwarae rôl lle maen nhw'n cyfweld arwyr o'r presennol neu'r gorffennol.

Gofynnir i'r disgyblion wneud cyflwyniad er mwyn cyflwyno'u harwr i'r grŵp / dosbarth, felly, gellid defnyddio PowerPoint.

Y Cwricwlwm Cymreig

Mae rhai enwogion o Gymru'n cael eu cyflwyno yn y gyfrol **Pwy ydy dy arwr di?** a gall y disgyblion ddewis ysgrifennu am gymeriad o Gymru. Ar ôl darllen y gyfrol **Y Ras Feiciau**, gallen nhw chwilio am wybodaeth am feicwyr o Gymru ac am dîm rygbi Cymru.

ABCh

Mae cyfleoedd i drafod cyfeillgarwch, beth sy'n gwneud ffrind da, caredigrwydd, rhoi pobl eraill yn gyntaf a helpu pobl.

Mae'r disgyblion yn dysgu am briodoleddau arwrol ac maen nhw'n cael cip ar fywyd pobl ac anifeiliaid sy'n cyflawni gweithredoedd arwrol, e.e. cŵn tywys, diffoddwyr tân, parafeddygon a'r arwyr yn y gyfrol, **Pwy ydy dy arwr di?**

Datblygu meddwl

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd drwy gydol yr uned i ddefnyddio gwybodaeth flaenorol. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. gallen nhw gynllunio a threfnu eu taith feicio eu hunain yn yr ardal er budd elusen. Maen nhw'n cael eu hannog hefyd i ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith pobl eraill.

Datblygu cyfathrebu

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a dilyniant.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngwrdd a'i chyflwyno mewn ffurf briodol gan ddefnyddio meddalwedd addas.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion, casglu gwybodaeth mewn dulliau gwahanol a thrafod amser.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 5: Rhan 1 – Croeso 'nôl!

Nodau:

- Prif ffocws yr uned hon yw **Arwyr** a bydd yr eirfa a'r patrymau a gyflwynwyd eisoes yn cael eu hadolygu o fewn y thema newydd hon.
- Trafod nodweddion personol. Cyflwynwyd rhai nodweddion personol yn Uned 2, pan oedd Beca a Sgrin yn trafod cymeriad Crad. Bydd y gwaith yn cael ei ddatblygu ymhellach yn yr uned hon drwy roi cyfle i'r disgyblion ystyried nodweddion arwr / arwres.
- Adolygu patrymau Cymraeg sy'n ymwneud â disgrifio pobl
- Datblygu mynegi teimladau yn Gymraeg: **Dw i mor hapus.; Dw i'n falch.**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n falch o ... Dw i'n falch iawn. Dw i wrth fy modd i fod 'nôl yn y Pod-antur Cymraeg. Mae hi'n meddwl am bobl eraill. Mae ... gyda hi. (Mae ... 'da hi.) (De Cymru) Mae ganddi hi ... (Gogledd Cymru) [Hefyd – os bydd angen: Mae ... gyda fe. (Mae ... 'da fe.) (De Cymru) Mae ganddo fo ... (Gogledd Cymru)]	hen ffilm dyddiau da dyddiau ardderchog arwr, arwres, arwyr gweithio i cwmni teledu

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Sut wyt ti'n teimlo? Dw i'n teimlo'n hapus. Pwy ydy hi? Izzy ydy hi. Sut berson ydy hi? Pa fath o berson ydy hi? Ga i ddod 'nôl i'r Pod-antur Cymraeg os gwelwch yn dda? Cei, wrth gwrs. Ble mae Dyfs? Gorchmynion Edrycha. Patrymau eraill Dw i wrth fy modd. Dyma ... Bydd Sgrin yn hapus. Mae hi'n dod o ... Mae hi'n mwynhau ...	'nôl gwych ffantastig anhygoel cofio gwahodd wedyn

Siarad am y gorffennol

Es i i ... Ces i ... Gwisgais i ... Sglefriaais i ... Bwytais i ... Cerddais i ... Taflais i ... Chwaraeais i ... Roedd e'n / o'n wych / ddiddorol.

Disgrifio pobl

Mae e'n / o'n / hi'n neis /	hoffus. ddiddorol garedig feddylgar
Mae ... gyda hi. (Mae ... 'da hi.) Mae ... gyda fe. (Mae ... 'da fe.)	
Mae ganddi hi ... Mae ganddo fo ...	

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dyma lun o ...; Dyma luniau o ...

Sut berson ydy ...? / Pa fath o berson ydy ...? (e.e. wrth drafod cymeriadau ffuglennol / hanesyddol / arwyr a.y.b.)

Mae e'n / o'n / hi'n (garedig / feddylgar / ffrind da iawn).

Ga i ...; Cei.; Na chei.; cewch.; Na chewch.

Wyt ti'n cofio? Ydw. / Nac ydw.; [Hefyd: Ydych chi'n cofio? Ydyn. / Nac ydyn.]

Beth am ...? Syniad da. [Hefyd: Na, dw i ddim yn meddwl.]

Awgrymiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Croeso 'nôl!** (Uned 5, Rhan 1), hyd at y man lle mae Crad yn dweud, "Mae Sgrin yn hapus iawn."
- Gofynnwch i'r disgyblion:
Sut mae Sgrin yn teimlo?
Mae Sgrin yn teimlo'n hapus iawn.
Pam mae Sgrin yn teimlo'n hapus?
Achos mae Izzy ('nôl) yn y Pod-antur Cymraeg.
- Tynnwch sylw at y ffotograffau sydd ar ddechrau'r rhan hon o'r uned a chanolbwyntiwch ar y patrwm canlynol yn benodol:
Dyma Dyfs a fi'n ...

Dangoswch ffotograffau amrywiol, e.e. ffotograffau o'r disgyblion yn gwneud gweithgareddau dosbarth / ysgol a gofynnwch i'r disgyblion eu trafod. Anogwch nhw i ddweud cymaint ag y bo modd ac i ddefnyddio cynifer o batrymau iaith â phosib, e.e.

Dyma ... a ... yn ... ar y trip ysgol ym mis ...

Rydyn ni'n ...

Maen nhw'n ...

Rydyn ni'n teimlo'n hapus achos ...

Maen nhw'n teimlo'n hapus achos ...

Beth wyt ti'n gallu gweld yn y llun?

Dw i'n gallu gweld ... yn y llun.

Mae ... yn ddiddorol / wych achos ...

Gofynnwch i'r disgyblion ddod â ffotograffau o'u teuluoedd, digwyddiadau gwahanol a.y.b. i'r dosbarth a chyflwynwch **Cerdyn Siarad 34.**

Siaradwch am eich ffotograffau chi.

Dylai'r disgyblion siarad am eu ffotograffau, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod ynghyd ag unrhyw batrymau cyfarwydd eraill.

Gallai'r disgyblion ddewis un o'r ffotograffau, ysgrifennu amdano ac yna darllen y disgrifiad i'r grŵp fel eu bod yn gorfod gwrandao'n ofalus a dewis y ffotograff priodol o blith detholiad o ffotograffau sydd wedi cael eu rhoi ar y bwrdd.

- Dangoswch y darn eto, hyd at y man lle mae Sgrin ac Izzy'n siarad â'i gilydd.

Gofynnwch i'r disgyblion restru beth maen nhw'n ei gofio am Izzy, h.y.

Izzy Evans ydy hi.

Mae hi'n dod o Aberystwyth.

Mae hi'n mwynhau cerdded, nofio, gymnasteg a trampolinio.

Mae hi'n dda iawn mewn gymnasteg.

Tynnwch sylw at y patrwm newydd.

Os ydych chi'n gweithio yn Ne Cymru, cyflwynwch y patrymau yma:

Mae gwallt brown gyda hi / 'da hi.

Mae llygaid ... gyda hi / 'da hi.

[Hefyd – os bydd ei angen, e.e. os ydych chi'n dymuno siarad am Crad:

Mae gwallt brown gyda fe / 'da fe.

Mae llygaid ... gyda fe / 'da fe.]

Os ydych chi'n dysgu yng Ngogledd Cymru, cyflwynwch y canlynol:

Mae ganddi hi wallt brown.

Mae ganddi hi lygaid ...

[Hefyd – os bydd ei angen, e.e. os ydych chi'n dymuno siarad am Crad:

Mae ganddo fo wallt brown.

Mae ganddo fo lygaid ...]

Driliwch y patrymau hyn, gan ddefnyddio delweddau addas. Gallech chi gyflwyno rhannau eraill o'r wyneb os ydych yn dymuno, e.e.

clustiau mawr / bach

trwyn mawr / bach / hir / byr

ceg fawr / fach

Sylwer: Mae treigladd meddal ar ôl **Mae ganddi hi ... a Mae ganddo fo ...:**

Mae ganddi hi glustiau mawr.

Mae ganddi hi drwyn bach.

Mae ganddo fo geg fawr.

Mae ganddo fo drwyn mawr.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 35:**
Disgrifiwch y wynebau.

Dylai'r disgyblion ddisgrifio'r wynebau, gan ddefnyddio'r patrymau sydd ar y cerdyn.

Gallen nhw dynnu llun wyneb doniol, gan ganolbwyntio ar y llygaid, y clustiau, y gwallt, y trwyn a'r geg. Yna, dylai pob disgybl ddisgrifio'r wyneb mae wedi ei dynnu i'r grŵp, heb ei ddangos, a dylai'r grŵp geisio dynnu'r un llun.

Dylen nhw gymharu'r lluniau.

- Gofynnwch i'r disgyblion wrando ar yr adran hon eto, ond y tro hwn, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio personoliaeth Izzy.

Rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn, h.y.

Sut berson ydy hi? neu Pa fath o berson ydy hi?

Mae hi'n neis.

garedig

feddylgar

ddiddorol

hoffus

hyfryd

Beth arall?

Mae hi'n hoffi jôc.

Mae hi'n helpu pobl.

Mae hi'n meddwl am bobl.

Mae mwyafrif y geiriau a'r ymadroddion hyn wedi cael eu cyflwyno eisoes mewn perthynas â Crad yn Uned 2.

- Yna, gallech chi ofyn i'r disgyblion ysgrifennu darn am Izzy oherwydd:

Mae Izzy'n dod i'r ysgol i'ch helpu chi i ddysgu Cymraeg. Ysgrifennwch ddarn i ddisgrifio Izzy.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 36:**
Siaradwch am eich ffrind chi.

Dylai'r disgyblion siarad am eu ffrind, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau eraill sy'n gyfarwydd iddyn nhw. Yna, dylen nhw ysgrifennu am eu ffrind, gan ddefnyddio'r un patrymau.

Gallen nhw ysgrifennu disgrifiadau o enwogion a.y.b. heb eu henwi, darllen y disgrifiadau ar goedd a gofyn i aelodau eraill y grŵp enwi'r person sy'n cael ei ddisgrifio, e.e.

Mae e'n / o'n / hi'n fawr / fach.

Mae e'n / o'n / hi'n dal / fyr.

Mae e'n / o'n / hi'n actio yn ...

Mae e'n / o'n / hi'n chwarae pêl-droed i ...

Mae e'n / o'n / hi'n canu'n dda.

Mae ... 'da fe / hi. (De Cymru)

Mae ganddo fo ... (Gogledd Cymru)

Mae ganddi hi ... (Gogledd Cymru)

Pwy ydy e / o / hi?

- Dangoswch weddill y ffilm.
Sut mae Sgrin yn teimlo?
Mae Sgrin yn teimlo'n hapus iawn.
Mae Sgrin yn teimlo mor hapus.

Mae Sgrin yn teimlo'n falch.

Mae Sgrin yn teimlo mor falch.

Tynnwch sylw at y patrwm:

mor (+ treigladd meddal), e.e.

mor hapus

mor drist

mor ofnus

mor nerfus

Gallai'r disgyblion feimio'r teimladau hyn a gellid defnyddio'r ymadrodd **mor** (+ treigladd medal) yn naturiol yn ystod y diwrnod ysgol, e.e.

Dw i mor hapus gyda dy waith di.

Dw i mor hapus gyda'ch gwaith chi.

Dw i mor falch.

a.y.b.

- Ail-ddangoswch y darn lle mae Izzy a Sgrin yn cofio am ddigwyddiadau'r gorffennol.
Gofynnwch i'r disgyblion wrando am eiriau / berfau sy'n disgrifio beth wnaeth hi yn y gorffennol gyda Dyfs, e.e.

Es i i ...

Edrychais i (ar) ...

Sblasiais i ...

Ces i ...

Gwisgais i ...

Sglefriaais i ...

Bwytais i ...

Cerddais i ...

Taflais i ...

Chwaraeais i ...

Gofynnwch iddyn nhw restru'r geiriau hyn ac yna gofynnwch beth sy'n gyffredin i fwyafrif y berfau hyn [Ateb: maen nhw'n gorffen gydag **-ais**]. Eglurwch fod angen i'r disgyblion ddefnyddio'r terfyniad hwn os ydyn nhw'n dymuno siarad am wneud rhywbeth yn y gorffennol. Fel arfer, rydych chi'n dileu diwedd y ferf ac yn ychwanegu **-ais**, fel y gwelir uchod.

- Dangoswch yr adran hon eto, ond heb sain y tro hwn. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu mai nhw yw Izzy - rhaid iddyn nhw lunio sylwebaeth sy'n egluro beth wnaeth hi yn ystod sefyllfaoedd penodol. Anogwch y disgyblion i ddefnyddio'r berfau uchod.

Gallai'r disgyblion ddod â ffotograffau o ddigwyddiadau yn y gorffennol i'r dosbarth a siarad am beth wnaethon nhw yn y llun. Gallen nhw ddefnyddio'r canlynol hefyd:

Roedd hi'n ... er mwyn disgrifio'r tywydd, e.e. **Roedd hi'n bwrw glaw.**

Roedd e'n / o'n ... er mwyn mynegi barn, e.e. **Roedd e'n / o'n wych.**

Anogwch nhw i ddefnyddio'r ymadrodd a gyflwynwyd yn Uned 4, **Yn fy marn i ...**

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 37** a gofynnwch i'r disgyblion drosglwyddo'r patrymau hyn i'r dasg sydd ar y cerdyn:
Siaradwch am drip yn y gorffennol.
- Dangoswch y darn olaf eto – lle mae Izzy'n dweud wrth Sgrin:
Ti ydy fy arwr i.

Eglurwch ystyr **arwr** (hero) ac eglurwch hefyd y bydd y tair ffilm nesaf yn Uned 5 yn canolbwyntio ar thema **Arwyr**.

Gallech chi drafod beth yw arwr – yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y bo'n briodol. Gallech chi gyfeirio'n ôl at y disgrifiadau o Izzy os ydych yn dymuno, a'u newid ychydig fel bod y disgyblion yn gallu defnyddio'r un eirfa er mwyn siarad am arwr, e.e.

Sut berson ydy Izzy? Pa fath o berson ydy Izzy? Mae hi'n neis. garedig feddylgar hoffus hyfryd Beth arall? Mae hi'n helpu pobl. Mae hi'n meddwl am bobl.	Sut berson ydy arwr / arwres? Pa fath o berson ydy arwr / arwres? Mae arwr yn neis. garedig feddylgar hoffus hyfryd Beth arall? Mae arwr yn helpu pobl. Mae arwr yn meddwl am bobl.
--	---

- Cyflwynwch y gyfrol **Y Ras Feiciau**.

Ar ôl ei darllen, gallech chi gyflwyno'r gweithgareddau sy'n cael eu rhestru yng nghefn y llyfr. Yn ogystal, gallai'r disgyblion drafod:

Pwy ydy'r arwr? Pam?

Pwy ydy'r arwres? Pam?

Pwy ydy'r arwyr? Pam?

Atebion posibl:

Sam ydy'r arwr achos mae e'n / o'n beicio yn y ras.

mae e'n / o'n ymarfer, ymarfer, ymarfer.

mae e'n / o'n helpu'r Tŷ Anifeiliaid.

mae e'n / o'n garedig / feddylgar.

mae e'n / o'n helpu pobl.

a.y.b.

Dad ydy'r arwr achos mae e'n / o'n helpu Sam.

mae e'n / o'n ymarfer gyda Sam.

Mam ydy'r arwres achos mae hi'n helpu Sam.

mae hi'n gwneud bwyd iach i Sam.

mae hi'n gwneud gwisg ffansi i Sam.

Ffrindiau Sam ydy'r arwyr achos maen nhw'n helpu Sam.

George North ydy'r arwr achos mae e'n / o'n chwarae rygbi dros Gymru.

Y diffoddwyr tân ydy'r arwyr achos maen nhw'n stopio'r tân.

- Yn ogystal, gallech chi ofyn i'r disgyblion am y cymeriadau sydd yn y llyfr:

Sut berson ydy Sam / Mam / Dad / George North?

Mae ... yn neis.

**garedig
feddylgar
hoffus
hyfryd**

Beth arall?

Mae e'n/o'n/hi'n helpu pobl.

Mae e'n/o'n/hi'n meddwl am bobl.

- Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y llyfr:

Beth wyt ti'n feddwl o'r llyfr?

Beth ydych chi'n feddwl o'r llyfr?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n gyffrous iawn.

Mae'n ddiflas iawn.

Mae'n ofnadwy.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn dda achos mae'r stori'n gyffrous.

Yn fy marn i, mae'r llyfr yn ddiddorol iawn achos ...

Dw i wedi mwynhau'r llyfr / stori achos ...

- Yna, gallai'r disgyblion gynllunio llwybr beicio o gwmpas yr ardal, gan roi sylw penodol i faterion sy'n ymwneud â diogelwch, wrth gwrs.
- Yn ogystal, gallen nhw gynllunio reid feiciau yn yr ardal ar gyfer elusen. Byddai hyn yn golygu cynllunio'r daith, penderfynu pa elusen/elusennau i'w cefnogi, cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo a ffurflenni noddï, ysgrifennu rheolau (e.e. dillad addas, gan gynnwys helmed), gwahodd rhywun i ddechrau'r reid a.y.b. Bydd angen defnyddio sgiliau mathemateg hefyd os yw'r disgyblion yn cyfrif cyfanswm yr arian sy'n cael ei gasglu gan grwpiau o ddisgyblion neu gan y dosbarth cyfan a.y.b. Os byddan nhw'n dewis cefnogi mwy nag un elusen, bydd angen iddyn nhw rannu'r arian rhyngddynt nhw.
- Yna, gallech chi gyflwyno **Cerdyn Siarad 38** er mwyn crynhoi cynnwys yr uned:
Meddyliwch am berson mewn llyfr, ar y teledu neu yn y dosbarth. Pa fath o berson ydy o/e / hi?
Rhaid i'r grŵp ddyfalu pwy ydy'r person.

Dylai'r disgyblion feddwl am gymeriad ffuglennol neu berson a'i ddisgrifio (heb ei enwi) gan sôn yn arbennig am ei bersonoliaeth. Dylai'r grŵp ddyfalu pwy yw'r person hwnnw.

Uned 5: Rhan 2 – Arwr

Nodau:

- Parhau gyda'r thema **Arwr – Beth ydy arwr?; Pwy ydy dy arwr di?**
- Datblygu sgrysiâu lle mae'r disgyblion yn mynegi barn drwy gyflwyno **cytuno, anghytuno**
- Cadarnhau geiriau sy'n disgrifio cymeriad person, e.e. **Mae e'n / o'n / hi'n garedig.; Mae e'n / o'n / hi'n ffrind da.** (Gweler isod.)
- Cyflwyno'r ymadrodd **heb os nac oni bai**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth ydy arwr? Mae arwr yn ..., e.e. Mae arwr yn berson arbennig. Mae arwr yn rhoi pobl eraill yn gynta. Mae arwr yn meddwl am ei ffrindiau. Dw i'n cytuno. Dw i ddim yn cytuno. Dw i'n anghytuno. Pwy ydy dy arwr di? ... ydy fy arwr i. Roedd hi'n garedig. Roedd hi'n feddylgar. Roedd hi'n rhoi pobl eraill yn gynta. Roedd hi'n gweithio yn India.	prosiect rhaglen, rhaglenni sefyll o flaen y camera siarad â'r camera siarad gydag arwyr pobl sâl pobl dlawd

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth sy'n digwydd? Ble ydyn ni? O ble wyt ti wedi dod? O ... Wyt ti wedi dod o'r Pod-antur Cymraeg? Ydw. / Nac ydw. Sut mae Sgrin? Mae e'n / o'n drist / unig. Pwy ydy hwn? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n gweithio. Ga i weld? Cei, wrth gwrs. / Na chei. Gorchmynion Edrycha.; Edrychwch. Eistedda. Patrymau eraill Dw i'n hapus ... dw i mor hapus. Dyfs, dyma Crad. Crad, dyma Dyfs.	arwr map meddwl yn ddewr yn gryf yn feddylgar meddwl am bobl eraill helpu pobl rhoi pobl eraill yn gynta

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy'n digwydd?

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... [Hefyd: **Beth ydych chi'n wneud? Rydyn ni'n ...**]

Edrycha. [Hefyd: **Edrychwch.**]

Ga i weld? Cei. / Na chei.; Cewch. / Na chewch.

Beth ydy hwn?

Eistedda. [Hefyd: **Eisteddwch.**]

Dw i'n cytuno.; Dw i ddim yn cytuno.; Dw i'n anghytuno.

Pwy ydy dy arwr di? [Hefyd: **Pwy ydy'ch arwr chi?**]

Cyfarwyddiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Arwr** (Uned 5, Rhan 2) drwyddi.

Gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y ffilm, ond pan fyddan nhw'n mynegi eu barn, cytunwch neu anghytunwch gyda nhw drwy ddefnyddio:

Dw i'n cytuno.

Dw i'n anghytuno.

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n gyffrous.

Mae'n ddiflas iawn.

Yn fy marn i, mae'n ddiflas iawn.

Heb os nac oni bai, mae'n ddiddorol iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi dysgu am arwyr.

- Gofynnwch iddyn nhw drafod y ffilm mewn grwpiau ac i gytuno ac anghytuno â'i gilydd.

Yna, gellid trosglwyddo'r patrymau uchod er mwyn siarad am Crad.

Beth wyt ti'n feddwl o Crad?

Mae e'n grêt / wych.

Dw i'n cytuno achos mae e'n ddoniol / wych.

Dw i'n anghytuno achos mae e'n wirion.

Dw i'n meddwl bod Crad yn ddwl /wirion achos mae e'n actio'n ddwl /wirion.

Dw i ddim yn cytuno. Dw i'n meddwl bod Crad yn ddoniol iawn ac mae e'n/ o'n ffrind da i Sgrin.

- Dangoswch y ffilm eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando am briodoleddau arwr. Dylen nhw restru'r rhain – neu eu cynnwys mewn map meddwl tebyg i'r un mae Dyfs yn ei gwblhau.
- Canolbwyntiwch ar y cwestiwn a'r ateb:
Pwy ydy dy arwr di?
... ydy fy arwr i.

Gofynnwch y cwestiwn uchod i'r disgyblion.

Yna, gofynnwch iddyn nhw roi rheswm dros ei hateb, gan ddefnyddio'r iaith maen nhw wedi'i dysgu hyd yma, e.e.

Dad ydy fy arwr i achos mae e'n / o'n garedig – mae e'n / o'n helpu fi i chwarae pêl-droed.

George North ydy fy arwr i achos mae e'n / o'n chwarae rygbi'n wych.

Aaron Ramsey ydy fy arwr i achos mae e'n / o'n chwarae pêl-droed dros Gymru. Mae e'n / o'n wych.

Alex Jones ydy fy arwres i achos mae hi ar *The One Show* ac mae hi'n helpu pobl.

Gofynnwch iddyn nhw ofyn i'w gilydd. Anogwch nhw i ddefnyddio'r ymadroddion:

Dw i'n cytuno.

Dw i'n anghytuno.

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 39** er mwyn annog y disgyblion i drafod:

Pwy ydy dy arwr di?

- Gofynnwch:
Pwy ydy arwr Crad?
Pwy ydy arwr Izzy?

Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am **Y Fam Teresa** ac ysgrifennu amdani'n syml.

- Gorffennwch gyda'r cyfeiriad at arwr Crad a chyflwynwch y ffeil ffeithiau, **Parafeddyg**. Gofynnwch gwestiynau cyffredinol am y darn er mwyn sicrhau bod y disgyblion wedi deall y cynnwys.
- Yna, gallai'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgaredd yn y gadair goch, lle maen nhw'n gofyn cwestiynau i'r parafeddyg. Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 40** er mwyn cynnig cefnogaeth a chymorth os bydd eu hangen.
A: Parafeddyg wyt ti. Rwyf ti yn y gadair goch.
B: Gofynnwch gwestiynau i A.

Gallai un o'r disgyblion gymryd rhan y parafeddyg (Partner A) a gallai'r grŵp (Partner B) ofyn y cwestiynau.

- Yna, gallech chi ofyn i'r disgyblion:
Pam mae'r parafeddyg yn arwr?
Mae'r parafeddyg yn arwr achos ...
- Yn ogystal, gallech chi ddarllen am rai o'r arwyr yn y gyfrol **Pwy ydy dy arwr di?** a thrafod pam maen nhw'n arwyr. Gallai'r disgyblion wneud rhai o'r gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yng nghefn y llyfr a chreu llyfr dosbarth tebyg iddo maes o law.

Uned 5: Rhan 3 – Tân!

Nodau:

- Parhau â'r thema **Arwyr** – drwy ganolbwyntio ar waith **diffoddwr tân**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Gweler yr adran Trawsgrif .	diffoddwr tân diffoddwyr tân gorsaf dân (yr orsaf dân) peipen ddŵr seiren diffodd yn beryglus go iawn

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi eisiau gweld y ffilm? Ydyn, os gwelwch yn dda. Ydych chi'n arwr? Ydych chi'n gwybod am arwr? Beth ydy arwr? Patrymau eraill Rydyn ni'n mynd i weld arwr anhygoel. Mae e'n / o'n ... Rydyn ni'n mynd i siarad am ... Maen nhw'n gryf. ddewr feddylgar rhoi pobl eraill yn gyntaf Gweler yr adran Trawsgrif .	croeso yn ddewr heb os nac oni bai ystafell

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Ydych chi eisiau gweld ffilm am ...?

Ydyn, os gwelwch yn dda. [Hefyd: **Nac ydyn, dim diolch.**]

Cyfarwyddiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Tân!** (Uned 5, Rhan 3) drwyddi.

Tynnwch sylw at y geiriau canlynol:

tân

mwg

larwm

canu (to ring)

diffoddwr tân, diffoddwyr tân

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm er mwyn eu gofyn mewn cwis, e.e.

Beth sy'n digwydd?

[Atebion posibl: **Mae tân.**; **Mae larwm yn canu.**; **Mae'r diffoddwyr tân yn rhedeg.**]

Ble mae Dyfs?

Pwy ydy'r diffoddwr tân?

Pa liw ydy'r ...?

Gallech chi ddangos y DVD eto fel bod y disgyblion yn dod i ddeall yn well a'u bod yn gallu ysgrifennu cwestiynau ychwanegol.

- Dangoswch y dechrau eto, lle mae'r diffoddwyr tân yn ymateb i'r larwm.
Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu sylwebaeth ar gyfer yr adran hon. Er mwyn eu cynorthwyo, trafodwch pa eiriau a phatrymau gallen nhw'u defnyddio, e.e.
Bobl bach!
Mae tân.
Edrychwch ar y ...
mwg
larwm
canu
diffoddwyr tân
rhedeg
injan dân
mynd
yn gyflym
seiren
Gwrandewch!
Mae angen ...
peipen ddŵr
masg / mwgwd
dŵr
Dyma ni.
i mewn
yn ofalus iawn
- Pan fydd y disgyblion yn gwyllo'r DVD, stopiwch y ffilm pan fydd Dyfs yn gofyn cwestiynau er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion gynnig atebion, e.e. yn yr adran ar ddillad diffoddwyr tân:
Beth ydych chi'n gallu gweld?
- Yna, gellid cyflwyno'r ffeil ffeithiau **Diffoddwr Tân**. Ar ôl sicrhau bod y disgyblion wedi deall y testun, gellid addasu ac ail-gyflwyno **Cerdyn Siarad 40**, a gyflwynwyd yn Rhan 2, er mwyn annog y disgyblion i siarad am waith diffoddwr tân, e.e.

Cerdyn Siarad 40
A: Diffoddwr tân wyt ti. Rwyt ti yn y gadair goch.
B: Gofynnwch gwestiynau i A.
- Yn ogystal, gallen nhw drafod pam mae'r diffoddwr tân yn arwr. Yna, gallen nhw chwilio am ddelwedd o ddiffoddwr tân ac ysgrifennu amdano / amdani yn Gymraeg, gan ddweud pam mae'n arwr / arwres.

Trawsgrif

Mae'r sgwrs gyda'r diffoddwr tân yn un naturiol ac nid yw wedi cael ei sgriptio ymlaen llaw. Felly, mae'n cynnwys nifer o eiriau a phatrymau a fydd yn anghyfarwydd i'r disgyblion efallai. Fodd bynnag, byddan nhw'n gallu deall prif rediad y sgwrs drwy ganolbwyntio ar y geiriau maen nhw'n eu deall a'r hyn sydd i'w weld ar y sgrin. Dyma drawsgrif o'r hyn sy'n cael ei ddweud:

Dyfs: Sut ydych chi'n clywed am dân?

Emyr: Gan larwm o'r uned reoli. Wedyn, (rydyn) ni'n mynd ma's ar yr alwad.

Dyfs: Beth ydych chi'n wisgo i ymladd tân?

Emyr: Rydyn ni'n gwisgo helmet fawr, cot ac esgidiau trwm.

Dyfs: Beth ydych chi'n wneud bob dydd?

Emyr: Rydyn ni'n dechrau tua hanner awr wedi wyth y bore, rydyn ni'n checo'r offer, ymarfer, mynd allan i siarad â'r cyhoedd, ac, os oes 'na alwad, rydyn ni'n mynd i'r alwad tân.

Dyfs: Ydych chi'n gweithio yn y nos?

Emyr: Rydyn ni'n gweithio drwy'r dydd a drwy'r nos.

Dyfs: Ydych chi'n mynd allan i siarad â grwpiau o bobl?

Emyr: Ydyn, yn ddyddiol – grwpiau ... y cyhoedd ... ma's i helpu a dangos beth i wneud os byddai tân.

Dyfs: Sut ydych chi'n teimlo pan rydych chi'n diffodd tân? Ydych chi'n nerfus?

Emyr: Na, dim rhagor oherwydd yr ymarfer a nifer y galwadau rydyn ni'n mynd arno.

Dyfs: Mae diffodd tân yn beryglus iawn.

Emyr: Mae tân yn beryglus iawn.

Uned 5: Rhan 4 – Ozzy

Nodau:

- Parhau â'r thema **Arwyr**: gwaith cŵn tywys
- Rhoi cyfle i'r disgyblion baratoi a rhoi cyflwyniad am eu harwr
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Mae Ozzy a Hanna yn ffrindiau da. Maen nhw'n hoffi chwarae yn yr ardd. Mae Ozzy yn helpu Hanna bob dydd. Mae e'n / o'n helpu Hanna i ...	palmant yn ddiogel

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ydych chi'n arwr? Ydych chi'n gwybod am arwr? Beth ydy arwr? Gorchmynion Edrychwch ar y ffilm. Patrymau eraill Rydyn ni'n mynd i weld arwr anhygoel. Mae'r arwr yma'n ffrind da. Mae e'n / o'n ...	anifail, anifeiliaid arwr, arwyr rhaglen heno syrpreis anhygoel ffrind anhygoel ffyddlon heb os nac oni bai yn Ne Cymru hoffi chwarae mynd allan o'r tŷ cerdded o gwmpas y dre siopau aros yn dawel

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Edrychwch. [Hefyd: **Edrycha.**]

Beth am ...?; Syniad da.; Na, dw i ddim yn meddwl.

Cyfarwyddiadau cam-wrth-gam:

- Dangoswch y ffilm **Ozzy** (Uned 5, Rhan 4) drwyddi.

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n gyffrous.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi'r ci.

Dw i wedi mwynhau'r ffilm achos mae'r ci'n hyfryd iawn.

Yna, gellid trosglwyddo'r patrymau uchod er mwyn siarad am y ci tywys.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ci?

Beth ydych chi'n feddwl o'r ci?

Mae e'n / o'n grêt / wych.

Mae e'n / o'n glyfar.

Mae e'n / o'n garedig.

Mae e'n / o'n feddylgar.

Mae e'n / o'n anhygoel achos mae'n

Mae e'n / o'n wych achos mae'n helpu Hanna.

Dw i'n meddwl bod y ci'n grêt / wych achos

Dw i'n meddwl bod y ci'n grêt / wych achos mae e'n / o'n helpu Hanna.

Dw i'n meddwl bod y ci'n grêt / wych achos mae e'n / o'n garedig iawn.

- Gallai'r disgyblion ysgrifennu cwestiynau sy'n seiliedig ar y ffilm a gellid eu gofyn i'w gilydd yn ystod cwis, e.e.
Beth ydy enw'r ferch / ci?
Ble maen nhw'n chwarae?
Beth maen nhw'n hoffi gwneud?
Sut mae Ozzy yn helpu Hanna?
Ydy Ozzy yn frown?
Ble mae Hanna'n mynd?
a.y.b.

Yna, gallen nhw ddarllen y gyfrol **Arwyr** a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yng nghefn y llyfr.

- Gallen nhw wneud posteri neu daflenni sy'n cynnwys delweddau er mwyn dangos beth yw gwaith cŵn tywys.
- Gallen nhw chwilio am arwyddion yn yr ardal sy'n dangos bod croeso i gŵn tywys, gan restru'r manau hyn.
- Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu set o reolau ar gyfer rhywun sydd ar fin cael ci tywys i'w hyfforddi.
- Dangoswch y dechrau eto a thynnwch sylw penodol at y patrymau hyn:

Dyma ...

Mae Ozzy yn byw yn ...

Mae Ozzy yn helpu ... achos ...

Mae Ozzy yn helpu ... i ...

Mae Ozzy yn ffyddlon.

Gallech chi adolygu priodoleddau arwr sy'n cael eu cyflwyno drwy gydol yr uned hon hefyd, e.e.

Mae ... yn ddewr.

gryf

ffrind da

ffyddlon

garedig

onest

rhoi pobl eraill yn gynta

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu am eu harwr/harwres, gan ddweud pam mae e / hi'n arwr / arwres:

Mae ... yn arwr achos ...

Mae ... yn arwres achos ...

Gall hyn fod ar ffurf ffeil ffeithiau, taflen, llyfr am arwyr neu gyflwyniad PowerPoint.

Yna, dylid rhoi cyfle i'r disgyblion ddarllen eu gwaith ar goedd.

Uned 5: Rhan 5 – Ydych chi’n cofio?

Nod:

- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a’u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Beth am eich ffrind chi?	

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy ydy dy arwr di? ... ydy fy arwr i. Mae e’n / o’n arwr achos mae e’n / o’n ... Mae hi’n arwres achos mae hi’n ... Patrymau eraill Dyma ... Mae hi’n ... Yn fy marn i ...	coedwig (y goedwig) parc traeth ffair tŷ Tuduraidd cerdded rhedeg nofio beicio gymnasteg mwynhau helpu yn ddewr yn garedig yn ffyddlon arwr heb os nac oni bai

Siarad am y gorffennol

Es i ... Ces i ... Gwelais i ... Bwytais i ... Yfais i ... Gwisgais i ... Roedd hi’n bwrw glaw. Roedd e’n / o’n hwyl.
--

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio’r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai’n hawdd trosglwyddo llawer o’r patrymau sy’n cael eu cyflwyno a’u hadolygu yn y rhan hon o’r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dyma ...

Beth ydy’r geiriau?

Cyfarwyddiadau cam-wrth-gam:

- Eglurwch mai pwrpas y rhan hon o’r DVD yw adolygu.
- Dangoswch y ffilm **Ydych chi’n cofio?** (Uned 5, Rhan 5) fesul cam, fel yr awgrymir isod.

Adran 1

- Canolbwyntiwch ar yr adran gyntaf.

Gan ddefnyddio’r patrwm:

Dyma ... yn ...

dylai’r disgyblion egluro beth sydd i’w weld yn y ffotograffau.

Yna, gallai'r disgyblion ddod â ffotograffau i'r ysgol a'u trafod mewn grwpiau. Dylen nhw ddod â ffotograffau gwahanol i'r rhai a drafodwyd yn Rhan 1 os oes modd.

Gellid ail-gyflwyno **Cerdyn Siarad 34** er mwyn rhoi cymorth i'r rhai sydd angen cefnogaeth: **Siaradwch am eich ffotograffau chi.**

Adran 2

- Cyn dangos yr adran nesaf, eglurwch fod y disgyblion yn mynd i gyflwyno'i gilydd.

Dangoswch y darn a stopiwch y ffilm. Gofynnwch i'r disgyblion ymateb i'r cwestiwn ar ddiwedd yr adran hon:

Beth am eich ffrind chi?

Gall hyn fod yn dasg lafar, lle mae'r disgyblion yn rhoi gwybodaeth am eu ffrind, neu gallen nhw ysgrifennu proffil byr a chyfeirio ato tra byddan nhw'n siarad.

Gellid ail-gyflwyno **Cerdyn Siarad 36** er mwyn rhoi cymorth i'r rhai sydd angen cefnogaeth: **Siaradwch am eich ffrind chi.**

Adran 3

- Nod yr adran nesaf yw adolygu'r amser gorffennol.

Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i greu brawddegau yn yr amser gorffennol.

Dangoswch y DVD a gofynnwch iddyn nhw lenwi'r llythrennau yn y geiriau.

Yna, gallai'r disgyblion adolygu siarad am y gorffennol drwy gyfeirio at drip neu ymweliad yn y gorffennol.

Gellid ail-gyflwyno **Cerdyn Siarad 37** er mwyn rhoi cymorth i'r rhai sydd angen cefnogaeth: **Siaradwch am drip yn y gorffennol.**

Adran 4

Pwrpas yr adran nesaf yw adolygu'r priodoleddau sy'n gysylltiedig ag arwr.

- Dangoswch y darn olaf a gofynnwch i'r disgyblion ail-drefnu'r llythrennau yn yr anagramau fel eu bod yn creu geiriau sy'n gysylltiedig ag **arwr**.

Adran 5

Pwrpas yr adran nesaf yw annog y disgyblion i siarad yn rhydd am eu harwr.

- Dangoswch ateb cyntaf Izzy i'r cwestiwn, **Pwy ydy dy arwr di?** a gofynnwch i'r disgyblion ydy ei hateb yn un **da, da iawn** neu **ardderchog**.
- Dangoswch y thermomedr ar y sgrin er mwyn gweld a yw'n cytuno â nhw. Gofynnwch i'r disgyblion sut y gallai hi wella'i hateb.
- Dangoswch y darn nesaf a gofynnwch eto ydy ei hateb yn un **da, da iawn** neu **ardderchog**. Gofynnwch iddyn nhw drafod sut mae hi wedi gwella ei hateb blaenorol – mae hi wedi rhoi ateb llawnach ac wedi mynegi barn, gan roi rhesymau.
- Gofynnwch i'r disgyblion siarad am eu harwyr.
- Yna, gellid cyflwyno'r gyfrol **Pwy ydy dy arwr di?** a gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yng nghefn y llyfr.

Gallech chi dynnu sylw at y patrymau iaith sy'n cael eu defnyddio yn y llyfr hwn ac yn yr adnoddau darllen eraill sy'n rhan o'r uned hon ac yna gallech chi ofyn i'r disgyblion gynhyrchu cyfres o ffilmiau am eu harwyr. Byddai hyn yn golygu siarad o flaen y camera, chwarae rôl, cyfweld a dewis cerddoriaeth i agor a chlo'i'r ffilm, cynhyrchu'r teitl a'r cydnabyddiaethau ar y diwedd a.y.b.

- Yn ogystal, gallech chi dynnu sylw at yr idiom **bwrw hen wragedd a ffyn** yn yr adran ar Dai Hughes a chyflwyno idiomau diddorol eraill, y gallai'r disgyblion eu cyfleu mewn ffurfiau gwahanol.

Uned 6

Mae'r gwaith yn yr uned hon yn canolbwyntio ar ddysgu Cymraeg fel ail iaith. Fodd bynnag, mae'r cwricwlwm a meysydd perthnasol eraill yn cael eu targedu yn ogystal. Rhoddir enghreifftiau o elfennau trawsgwriclaidd isod ond dylid edrych ar y Rhaglenni Astudio a'r fframweithiau perthnasol er mwyn cael mwy o fanylion.

Cymraeg Ail Iaith

Llafaredd

Anogir y disgyblion i ymateb yn briodol mewn sefyllfaoedd amrywiol, e.e. gofyn am fanylion personol, trafod trefniadau, siarad am y dyfodol a mynegi barn mewn sefyllfaoedd amrywiol. Maen nhw'n cael cyfle i roi cyfarwyddiadau, i wahodd ffrind i barti ac i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i'r disgyblion drafod gwybodaeth ffeithiol drwy gymharu'r amser mewn parthau gwahanol yn y byd.

Yn ogystal, anogir y disgyblion i siarad yn fanwl amdanyn nhw'u hunain yn Rhan 3, gan roi cynifer o fanylion ag y bo modd heb gymorth cwestiynau i'w hysgogi.

Mae cyfleoedd i wyllo'r ffilm ac i wrando arni'n ofalus, gan nodi'r prif bwyntiau. Gellid rhoi crynodeb o rannau o'r ffilm i'r disgyblion gyda rhai ffeithiau **Cywir** a rhai **Anghywir** ac yna, gellid gofyn iddyn nhw wyllo'r ffilm er mwyn dod o hyd i'r camgymeriadau a'u cywiro. Gofynnir i'r disgyblion wrando'n ofalus ac i ysgrifennu patrymau penodol sydd i'w clywed ar y ffilm.

Gellid cyflwyno gridiau sy'n seiliedig ar rannau penodol o'r ffilm a gellid gofyn i'r disgyblion gofnodi'r wybodaeth briodol, e.e. gallai'r disgyblion wrando ar gynlluniau Crad ac Izzy ar gyfer y parti maen nhw'n ei drefnu a'u cofnodi yn y grid, fel y gwelir yn Rhan 1.

Darllen

Anogir y disgyblion i ymateb i ddeunyddiau darllen amrywiol, megis y gyfrol **Dathlu**, sy'n cyfeirio at ddathliadau o gwmpas y byd, **Amser**, sy'n cyflwyno ffeithiau diddorol ynglŷn ag amser, ac **Edrych 'Nôl ... Edrych 'Mlaen**, sy'n edrych yn ôl dros rai o brofiadau'r cymeriadau yn **y Pod-antur Cymraeg** a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r llyfr hwn yn rhoi patrymau a geirfa y gall y disgyblion eu defnyddio wrth iddyn nhw siarad ac ysgrifennu am brofiadau'r gorffennol a'u gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yn yr un modd, gallai dau broffil - un wedi ei ysgrifennu gan ddefnyddio patrymau sydd i'w clywed yn NE CYMRU a'r llall yn cynnwys patrymau GOGLEDD CYMRU - fod yn dempled pan fydd y disgyblion yn ysgrifennu neu'n siarad amdanyn nhw'u hunain.

Gellid cyflwyno llyfr ryseitiai Cymraeg ar gyfer plant wrth drafod bwyd parti er mwyn rhoi syniadau i'r disgyblion ar gyfer paratoi bwyd parti.

Ysgrifennu

Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu llythyron a negeseuon e-bost yn gwahodd eu ffrindiau i barti ac i greu wahoddiadau lliwgar sy'n cynnwys testun Cymraeg. Yn ogystal, mae cyfleoedd i ysgrifennu rhestr, cwestiynau ar gyfer cwis, cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â dawns parti, disgrifiad o hunanbortread, rysâit a chofnod mewn dyddiadur.

Yn yr uned hon, mae'r disgyblion yn ysgrifennu darnau manylach amdanyn nhw eu hunain - am brofiadau yn y gorffennol ac am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Saesneg

Gallai'r disgyblion chwilio am ragor o wybodaeth am rai o'r dathliadau sydd yn y gyfrol **Dathlu**, e.e. pa fwyd sy'n cael ei fwyta yn ystod cinio Diolchgarwch yn America a phryd a pham mae Diolchgarwch yn cael ei ddathlu?; ffeithiau am Sant Willibrord; ffeithiau am y ffotograff olaf sydd yn y llyfr. Mae'n debygol iawn y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn Saesneg.

Mathemateg

Mae cyfleoedd i gymharu parthau amser gwahanol o gwmpas y byd ac i wneud baneri ar gyfer parti sy'n cynnwys nifer o drionglau hafalochrog neu drionglau isosgeles.

Gwyddoniaeth

Pan fydd y cymeriadau'n trafod y bwyd a'r ddiod y byddan nhw'n eu cael yn y parti, mae Izzy'n dweud bod pop yn afiach ac mae hi'n awgrymu y dylai Crad yfed dŵr a sudd ffrwythau yn lle. Gellid gwneud mwy o waith ynglŷn â diodydd iach / afiach, a thrafod pam mae rhai diodydd yn iachach / mwy afiach na diodydd eraill.

Mae cyfle hefyd i wneud **brechdan arwr** a gallai'r disgyblion drafod llenwadau iach a thrafod pam mae rhai'n iachach na'i gilydd.

Hanes

Gallai'r cyfeiriadau at chwarae liwdo yn ystod yr Ail Ryfel Byd arwain at adolygu agweddau ar fywyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. (Gweler Uned 3.)

Daearyddiaeth

Mae cyfleoedd i ddod o hyd i leoedd ar fap, atlas, glôb ac i adolygu pwyntiau'r cwmmpawd. Mae'r disgyblion yn dysgu am Barthau amser gwahanol hefyd.

Gallai'r cyfeiriad at fwyd o Ewrop arwain at drafodaeth am darddiad y bwyd rydyn ni'n ei fwyta.

Celf a dylunio

Mae cyfleoedd i greu gwahoddiadau lliwgar i barti yn ogystal â hunanbortread a gellid eu gwerthuso wedyn. Ar ôl darllen y gyfrol **Dathlu**, gallai'r disgyblion greu darnau lliwgar o gelf sy'n cyfleu rhai o'r dathliadau, e.e. paentiadau neu *gollage*.

Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** lle mae patrymau iaith y gellid eu defnyddio wrth i'r disgyblion wneud gwaith celf ac wrth iddyn nhw werthuso'r gwaith.

Dylunio a Thechnoleg

Gallai'r disgyblion gynllunio platiau papur, mygiau, napcynnau a lliain bwrdd addas ar gyfer parti yn ogystal â pharatoi bwyd parti. Yna, gallen nhw werthuso gwaith ei gilydd, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

Yn ogystal, anogir y disgyblion i wneud brechdan arwr ac i ysgrifennu'r rysâit.

Addysg gorfforol

Yn ogystal â pherfformio'r ddawns parti a welir ar y ffilm, gallai'r disgyblion lunio dawns parti newydd a rhoi cyfarwyddiadau ar sut i'w pherfformio. Gallen nhw gymryd rhan mewn dawnsio gwerin Cymreig hefyd neu greu dawns hopian ar ôl darllen yr adran ar ddawnsio yn y gyfrol **Dathlu**.

Cerddoriaeth

Gallai'r disgyblion wrando ar gerddoriaeth parti a'i gwerthuso. Gweler y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4** am batrymau iaith y gellid eu defnyddio.

TGCh

Gallai'r disgyblion chwilio am fwy o wybodaeth am rai o'r dathliadau sy'n cael eu crybwyll yn y gyfrol **Dathlu**, e.e. pa fwyd sy'n cael ei fwyta yn ystod dathlu'r Diolchgarwch yn America a phryd a pham mae Diolchgarwch yn cael ei ddathlu. Gallen nhw chwilio am ffeithiau am Sant Willibrord ac am wybodaeth am y ffotograff olaf yn y gyfrol **Dathlu**.

Anogir y disgyblion i lunio gwahoddiadau a rysâit ar gyfer **brechdan arwr**.

Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cyflwynir dathliadau Ewropeaidd gwahanol ac mae cyfleoedd i drafod parthau amser gwahanol.

ABCh

Mae cyfleoedd i drafod bwydydd a diodydd iach.

Datblygu Meddwl

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth flaenorol drwy gydol yr uned. Gofynnir iddyn nhw gynllunio a datblygu syniadau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. mewn perthynas â threfnu parti ac i ymateb i'w gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill. Yn ogystal, gofynnir iddyn nhw ystyried dulliau o wella'u gwaith, e.e. drwy fynegi barn yn fanylach ar ddechrau Rhan 5. Gofynnir iddyn nhw ddyfalu beth yw **brechdan arwr** ac i greu ac ysgrifennu rysâit. Gofynnir iddyn nhw chwilio am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r llun olaf yn y llyfr **Dathlu**, ar ôl darllen nifer o gliwiau.

Datblygu Cyfathrebu

Mae'r uned hon yn adeiladu ar y sgiliau iaith, y patrymau a'r eirfa a gyflwynwyd eisoes, a thrwy hynny mae'n sicrhau cynnydd a pharhad.

Prif nod yr uned yw datblygu sgiliau cyfathrebu'r disgyblion. Felly, rhoddir nifer o gyfleoedd iddyn nhw wrando ar bobl eraill, ymateb iddyn nhw, cyflwyno gwybodaeth – yn llafar ac yn ysgrifenedig – dod o hyd i wybodaeth a'i dethol ac ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

Datblygu TGCh

Anogir y disgyblion i chwilio am wybodaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd a'i chyflwyno mewn diwyg priodol gan ddefnyddio meddalwedd addas.

Datblygu rhif

Mae disgyblion yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn yr uned hon drwy ddefnyddio rhifolion a thrwy drafod parthau amser gwahanol.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Mae llawer o'r gwaith yn berthnasol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dylai athrawon fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu gweithgareddau yn unol â hwnnw.

Uned 6: Rhan 1 – Parti ... parti ... parti

Nodau:

- Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y thema dathlu ac yn enwedig trefnu parti i ddathlu cyfeillgarwch, diwedd cyfnod, dechrau cyfnod newydd. Prif nod yr uned hon, felly, yw trafod trefniadau ar gyfer parti. Bydd hyn yn adolygu patrymau iaith a gyflwynwyd eisoes yng nghyfres y Pod-antur Cymraeg, pan drefnodd Crad a Ffion barti Dydd Gŵyl Dewi (Pecyn 1) a phan drefnodd Dyfs ac Izzy i ddathlu Diwrnod y Llyfr (Pecyn 2).
- Cyflwyno patrwm newydd sy'n ymwneud â mynegi dymuniad: **Hoffwn i** + treigladd meddal
- Cadarnhau patrymau iaith a fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu sgysiau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. **Dw i'n cytuno achos ...; Dw i ddim yn cytuno achos ...; Dw i'n anghytuno achos ...;**
- Adolygu patrymau sy'n gysylltiedig â mynegi barn fel bod y disgyblion yn ymestyn ac yn datblygu eu gallu i sgwsio a thrafod yn Gymraeg.
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dw i'n cytuno. Dw i'n cytuno achos ... Dw i ddim yn cytuno achos ... Dw i ddim yn cytuno. Dw i'n anghytuno. Dw i'n anghytuno achos ... Hoffwn i ... (+treigladd meddal) Hoffwn i gael parti. Hoffwn i chwarae gemau. Hoffwn i gael hwyl. Hoffwn i ddawnsio . Hoffwn i fwyta bwyd blasus. Beth ydyn ni'n mynd i wneud? Bydd e'n / o'n hwyl.	dillad pob dydd wythnos nesa sosejis ar ffyn caws ar ffyn ein parti ni syniad twp = syniad gwirion

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Wyt ti eisiau bwyd? Ydw, os gwelwch yn dda. Beth am chwarae gêm? Syniad da. Pa gêm? Pwy ydy'r arwr? Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ... Beth sy ar y ffilm? Pa gemau? Gorchmynion Dewch i chwarae gêm. Edrychwch. Patrymau eraill Mae ... yn ... Maen nhw'n ... Rydyn ni ... Mynegi barn Beth wyt ti'n feddwl o'r parti? Dw i'n meddwl bod y parti'n hwyl. Rwyd ti'n edrych yn smart. Yn fy marn i, mae'r miwsig yn wych.	bwyd chwarae dawnsio cael dillad smart ble pryd bwyd diod dyddiad amser yfory ffonio e-bostio tecstio dydd Sadwrn brechdanau pizza ffrwythau cacen dŵr sudd ffrwythau taflu Sbaen Yr Eidal

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Wyt ti eisiau ...? Ydw. / Nac ydw.; Ydych chi eisiau ...? Ydyn. / Nac ydyn.

Beth am (ddawnsio / chwarae gêm)?; Syniad da.

Beth wyt ti'n feddwl o'r ...? Dw i'n meddwl bod y ... yn ...

Beth wyt ti'n wneud? Dw i'n ...

Dw i'n cytuno.; Dw i ddim yn cytuno.; Dw i'n anghytuno.

Awgrymiadau cam-wrth-gam :

- Dangoswch y ffilm **Parti ... parti ... parti** (Uned 6, Rhan 1), hyd at y man lle mae Crad yn gofyn i Beca:
Beth wyt ti eisiau yn y parti?
ac mae hi'n ateb:
Wel, hoffwn i gael ...
- Gofynnwch gwestiynau cyffredinol er mwyn sicrhau bod y disgyblion wedi deall y darn:
Beth sy'n digwydd?
Ble mae'r plant?
Beth mae'r plant yn wneud yn y parti?
Sut mae Sgrin yn teimlo? (Bydd rhaid i'r disgyblion ddehongli sut mae e'n teimlo o'r hyn mae e'n ei ddweud a'r ffordd mae e'n siarad.)
Beth mae Sgrin eisiau?
Mae Sgrin eisiau cael parti.
chwarae gemau parti
cael hwyl gyda ffrindiau
cael llawer o hwyl gyda ffrindiau
- Tynnwch sylw at ei union eiriau:
O, hoffwn i gael parti.
Hoffwn i chwarae gemau parti.
Hoffwn i gael hwyl gyda ffrindiau.
Hoffwn i gael llawer o hwyl gyda ffrindiau.

Gofynnwch i'r disgyblion ydy **Hoffwn i** yn debyg i air cyfarwydd arall (**hoffi**) ac eglurwch yr ystyr:

Hoffwn i – *I would like / I'd like*

Os yw'n briodol, gallech chi egluro bod llythyren yn newid yn y gair sy'n dilyn yr ymadrodd hwn.

Rhaid ymarfer y patrwm hwn:

Beth wyt ti eisiau gwneud heno?

Hoffwn i nofio.

chwarae pêl-droed
chwarae gêm cyfrifiadur
fwyta pizza
wyllo'r teledu

Beth wyt ti eisiau gwneud nawr / rŵan?

Hoffwn i fynd allan i chwarae.

ddarllen
ddefnyddio'r cyfrifiadur

- Dangoswch y darn eto a thynnwch sylw at y patrymau. Tynnwch sylw penodol at y cwestiwn olaf yn y darn hwn:
Beth wyt ti eisiau yn y parti?
ac mae Izzy'n ateb:
Wel, hoffwn i gael ...

Eglurwch fod y disgyblion yn mynd i drefnu parti - parti i ddathlu diwedd y tymor, diwedd y flwyddyn neu ryw achlysur arall.

Gofynnwch iddyn nhw drafod yn gyffredinol beth hoffen nhw ei gael yn y parti hwn. Cyflwynwch

Cerdyn Siarad 41 i'w hysgogi nhw:

Rydych chi'n mynd i drefnu parti, ond beth ydych chi eisiau yn y parti?

Siaradwch am hyn.

Dylid cymharu syniadau.

- Dangoswch weddill y ffilm, lle mae Crad ac Izzy'n trefnu eu parti.

Yna gallech chi roi grid tebyg i'r un isod i bob disgybl, dangos y darn eto a gofyn iddyn nhw ysgrifennu'r penderfyniadau yn yr adrannau priodol.

Tynnwch sylw at yr ymadrodd newydd: **dillad pob dydd**

Parti Crad ac Izzy	
Ble:	
Pryd:	Dydd ... Amser
Bwyd:	
Diod:	
Pwy:	
Dillad:	
Gwneud:	

- Dangoswch y darn eto a stopiwch ar ôl i'r ateb i bob adran gael ei roi fel bod y disgyblion yn gallu gwirio'u gwaith.
- Yna, gofynnwch i'r disgyblion wneud map meddwl (tebyg i'r un a welir ar y ffilm o bosib) i'w cynorthwyo i drafod y parti maen nhw'n mynd i'w drefnu. Bydd hyn yn rhoi cyfle i adolygu'r patrymau iaith a gyflwynwyd ym Mhecyn 1, pan drefnodd Crad a Ffion barti Dydd Gŵyl Dewi, ac ym Mhecyn 2, pan drefnodd Dyfs ac Izzy i ddathlu Diwrnod y Llyfr. Tynnwch sylw penodol at y patrymau hyn:
Dw i'n cytuno.
Dw i ddim yn cytuno.
Dw i'n anghytuno.

Cyn iddyn nhw ddechrau, adolygwch y patrymau y bydd eu hangen arnyn nhw a chyflwynwch **Cerdyn Siarad 42** er mwyn cynnig cefnogaeth a chymorth.
Trefnwch eich parti chi.

Dylai'r disgyblion gwblhau'r mapiau meddwl tra byddan nhw'n trafod.

Gofynnwch i'r disgyblion gadw'r rhain yn ddiogel oherwydd bydd angen iddyn nhw ddweud wrth y disgyblion eraill am eu parti ar ddechrau Rhan 2.

- Dangoswch y darn eto, lle mae Crad yn cyfeirio at daflu tomatos ac orennau, a gofynnwch:

**Ble mae pobl yn taflu tomatos?
orennau**

**Pam mae pobl yn taflu tomatos?
orennau**

- Cyflwynwch y gyfrol **Dathlu** a chanolbwyntiwch ar yr adran sy'n ymwneud â thaflu tomatos a thaflu orennau yn ystod gwyliau yn Sbaen a'r Eidal (tudalennau 10 ac 11).

Gofynnwch:

Beth wyt ti'n feddwl o daflu tomatos / orennau?

Beth ydych chi'n feddwl o daflu tomatos / orennau?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n gyffrous iawn.

Mae'n ddiflas iawn.

Mae'n dwp / wirion iawn.

Yn fy marn i, mae taflu tomatos yn grêt / wych.

hwyl

ddiddorol

ofnadwy

gyffrous

ddiflas

dwp / wirion

frwnt / fudr

Dw i'n meddwl bod taflu tomatos yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod taflu tomatos yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod taflu tomatos yn dwp / wirion achos mae pobl eisiau bwyta tomatos.

Gofynnwch iddyn nhw ymateb i sylwadau ei gilydd:

Dw i'n cytuno achos ...

Dw i ddim yn cytuno achos ...

Darllenwch weddill y llyfr a chyflwynwch y gweithgareddau sy'n cael eu hawgrymu yn y cefn fel y bo'n briodol.

Uned 6: Rhan 2 – Faint o'r gloch ydy hi?

Nodau:

- Parhau â'r thema parti
- Adolygu **Bydda i'n ... a Bydd ...** a chyflwyno mwy o batrymau sy'n cyfeirio at y dyfodol: **Ble / Pryd fydd y parti?; Bydd y parti ...; Beth fydd yn y parti?; Beth fyddwn ni'n wneud?; Byddwn ni'n ...**
- Adolygu patrymau iaith a fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu sgysiau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. **Dw i'n cytuno achos ...; Dw i ddim yn cytuno achos ...; Dw i'n anghytuno achos ...**
- Gwneud gwaith mathemategol mewn perthynas â pharthau amser drwy gyfrwng y Gymraeg
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Ble fydd y parti? Bydd y parti yn y Pod-antur Cymraeg. Pryd fydd y parti? Bydd y parti wythnos nesa. Pwy fydd yn y parti? Beth fydd yn y parti? Bydd bwyd blasus yn y parti. Byddwn ni'n dawnsio. Byddwn ni'n chwarae gemau. Byddwn ni'n bwyta ... Byddwn ni'n cael hwyl. Fyddwn ni ddim yn taflu tomatos. Bydda i yno. Bydda i'n hapus. Bydd Sgrin yn hapus. Beth wyt ti eisiau dweud?	ar ffyn sosejis ar ffyn caws ar ffyn i ddechrau Amser un awr dwyr awr tair awr pedair awr plws adio ar y blaen i Gymru minws tynnu ar ôl Cymru

Cyfuno patrymau

Bydd parti yn y Pod-antur Cymraeg dydd Sadwrn nesaf am bedwar o'r gloch.
Byddwn ni'n dawnsio ac yn chwarae gemau ac yn bwyta bwyd blasus.

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Beth am anfon e-bost at Dyfs a Beca? Syniad da. Beth nesa(f)? Wyt ti eisiau dod i barti Sgrin? Ydw, os gwelwch yn dda. Am faint o'r gloch? Am bedwar o'r gloch. Faint o'r gloch ydy hi? Mae hi'n bump o'r gloch. Gawn ni help os gwelwch yn dda? Gawn ni weld map o'r byd? Cewch, wrth gwrs. / Na chewch, mae'n ddrwg gen i. / mae'n flin 'da fi. Beth sy'n bod? Wyt ti'n gallu gweld symbol ar y map? Ydw. / Nac ydw. Ble mae Tom?	parti wythnos nesaf dydd Sadwrn nesaf ffonio e-bostio tecstio sosejis dawnsio chwarae taflu tomatos orennau hwyl llawer o hwyl anfon ym Mharis yng Nghymru y Ffindir

Mae o yn Canberra dw i'n meddwl. Gorchmynion Edrychwch ar eich watshys. Edrycha ar y map. Paid ffonio ... Patrymau eraill Dw i'n cytuno. Dw i ddim yn cytuno. Mae ... yn dod. Dyma ni. Rydyn ni'n mynd i ... Mae hi'n bump o'r gloch. Mae hi'n bum munud wedi pump. Mae hi'n ddeg munud wedi pump.	'nôl yn drist yn unig heb os nac oni bai
--	--

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Dw i'n cytuno. Dw i'n anghytuno.

Gwrandda.; Gwrandewch.

Wyt t i eisiau ...? Ydw. / Nac ydw.; Ydych chi eisiau ...? Ydyn. / Nac ydyn.

Faint o'r gloch ydy hi?

Gawn ni help os gwelwch yn dda? Cewch, wrth gwrs.

Wyt ti'n gallu gweld ... (ar y map / yn y llun)?

Edrycha ar ... ; Edrychwch ar ...

Pardwn?

Dim problem.

Awgrymiadau cam-wrth-gam :

- Dangoswch y ffilm **Faint o'r gloch ydy hi?** (Uned 6, Rhan 2) hyd at y man lle mae Izzy'n anfon neges e-bost. Yn yr adran hon, mae Crad ac Izzy'n trafod y penderfyniadau maen nhw wedi'u gwneud ynglŷn â'r parti ac maen nhw'n defnyddio ffurfiau'r dyfodol wrth gyfeirio at y parti a **fydd** yn digwydd yn y dyfodol.

Tynnwch sylw at ffurfiau'r dyfodol yn y darn. Yna, dangoswch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion wrando am y ffurfiau **bydd** sy'n dynodi'r amser dyfodol. Gofynnwch i'r disgyblion godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed ffurfiau'r amser dyfodol.

Dyma'r ffurfiau a glywir ar y ffilm:

Ble fydd y parti?

Bydd y parti yn y Pod-antur Cymraeg.

Pryd fydd y parti?

Bydd y parti dydd Sadwrn nesaf.

Beth fydd yn y parti?

Bydd bwyd parti ... bydd brechedanau ...

Pwy fydd yn y parti?

Beth fyddwn ni'n wneud?

Byddwn ni'n dawnsio.

Dw i'n cytuno – byddwn ni'n dawnsio.

Byddwn ni'n chwarae gemau.

Dw i'n cytuno – byddwn ni'n chwarae gemau.

Byddwn ni'n taflu tomatos

Dw i DDIM yn cytuno – fyddwn ni DDIM yn taflu tomatos.

O wel ... byddwn ni'n taflu orennau.

Dw i ddim yn cytuno – fyddwn ni DDIM yn taflu orennau.

Byddwn ni'n cael hwyl.

Byddwn ni'n cael llawer o hwyl.

Bydd parti yn y Pod-antur Cymraeg.

Bydd parti yn y Pod-antur Cymraeg dydd Sadwrn nesaf am bedwar o'r gloch.

Byddwn ni'n dawnsio ... ac yn chwarae gemau ... ac yn bwyta bwyd blasus.

- Gofynnwch i'r disgyblion gyfeirio'n ôl at y parti maen nhw wedi'i gofnodi ar y map meddwl ac i ddweud wrth grwpiau eraill beth **fydd** yn digwydd yn y parti hwn. Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 43** er mwyn rhoi cymorth yn ôl yr angen:
Dwedwch wrth grŵp arall am eich parti chi.

- Yna, gallai'r disgyblion ddylunio gwahoddiadau lliwgar ar gyfer eu parti, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru uchod. Dylen nhw geisio dweud cymaint ag y bo modd am y parti.

Gallen nhw anfon llythyron neu negeseuon e-bost yn gwahodd eu ffrindiau i'w parti hefyd.

- Dangoswch y darn nesaf – y sgwrs gyda Beca – hyd at y man lle mae Beca'n gorffen ei sgwrs ar y ffôn.

Unwaith eto, tynnwch sylw at y patrymau, dangoswch y darn eto a gofynnwch i'r disgyblion godi llaw bob tro y byddan nhw'n clywed patrymau **bydd**.

Gofynnwch iddyn nhw restru'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y darn.

Trafodwch y cwestiynau hyn a'u rhestru ar y bwrdd gwyn. Dyma drawsgrif o'r darn priodol.

Beca:	Helo.
Crad:	Bonjour, Beca.
Beca:	Mmm ... Bonjour.
Crad:	C'est Crad ici.
Beca:	Crad ... sut wyt ti?
Crad:	Dw i'n dda iawn diolch, sut wyt ti?
Beca:	Da iawn, diolch.
Crad:	Gwranda. Wyt ti eisiau dod i barti Sgrin?
Beca:	Pryd?
Crad:	Dydd Sadwrn nesaf.
Beca:	Am faint o'r gloch?
Crad:	Am bedwar o'r gloch. Wyt ti eisiau dod?
Beca:	O, ydw, os gwelwch yn dda. Wwww, beth fydd yn y parti?
Crad:	Bydd bwyd blasus ... a miwsig ... a gemau.
Ffion:	Beth fyddwn ni'n wneud yn y parti?
Crad:	Byddwn ni'n bwyta bwyd blasus – wrth gwrs! Byddwn ni'n dawnsio a byddwn ni'n chwarae gemau parti.
Beca:	Gwych!

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 44** a gofynnwch i'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa debyg i'r un sydd ar y ffilm, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn:

Cerdyn Siarad 44

A: Crad wyt ti. Rwyt ti'n ffonio Beca.

**B: Beca wyt ti.
Siaradwch.**

Gallen nhw addasu'r sefyllfa hon fel eu bod yn gwahodd disgyblion o grwpiau eraill i'r parti maen nhw'n ei drefnu.

- Dangoswch y clip eto a thynnwch sylw at y gerddoriaeth gefndirol. Trafodwch hyn yn y dull arferol, e.e.
Pa offeryn ydych chi'n gallu clywed? (Gallech chi chwarae darnau eraill sy'n cynnwys acordion neu ddangos ffotograffau o'r offeryn yn cael ei chwarae mewn lleoliadau Ffrengig a.y.b. Yn ogystal, gallech chi drafod offerynnau 'cenedlaethol', e.e. y delyn, sy'n gysylltiedig â Chymru, a.y.b.)
Beth wyt ti'n feddwl o'r miwsig?
Dw i'n meddwl bod y miwsig yn ...
Sut wyt ti'n teimlo?
Dw i'n teimlo'n ...
- Cyn dangos rhan nesa'r ffilm adolygwch yr amser yn Gymraeg. Os yw'r disgyblion yn gyfarwydd â pharthau amser eisoes, adolygwch hyn hefyd.

Cyflwynwch yr ymadroddion:

plws
ar y blaen i

Dangoswch weddill y ffilm.

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu pum cwestiwn yr un ynglŷn â'r ffilm, e.e.

Faint o'r gloch ydy hi yng Nghymru / yn y Pod-antur Cymraeg? (Dylech chi ddychmygu bod y Pod-antur Cymraeg uwchben Cymru.)

Faint o'r gloch ydy hi ym Mharis?

Faint o'r gloch ydy hi yn Barcelona?

Faint o'r gloch ydy hi yn Canbera?

Ble mae Crad ac Izzy'n mynd gynta?

Ble mae Crad ac Izzy'n mynd wedyn?

Beth ydy'r symbol wrth ochr Paris?

Beth ydy'r symbol wrth ochr Canbera?

Beth ydy prifddinas y Ffindir / Norwy? (Mae hyn yn cyfeirio'n ôl at Uned 5.)

a.y.b.

- Canolbwyntiwch ar y map a thrafodwch y parthau amser. Tynnwch sylw at y symbolau ac eglurwch:

Edrychwch ar y symbol – plws (un / dau / tri).

Mae (enw lle) ... **un awr / dwy awr / tair awr / pedair awr / pump awr ...** **ar y blaen i Gymru.**

Rhaid adio (y rhif).

Mae hi'n un o'r gloch yng Nghymru – faint o'r gloch ydy hi yn ...?

Ar ôl ymarfer hyn, cyflwynwch y map yn y gyfrol **Amser** a gofynnwch i'r disgyblion ofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd. Mae'r patrymau iaith a'r eirfa'n cael eu rhestru ar dudalennau 8-9.

Er nad yw'r patrymau canlynol yn cael eu dangos ar y ffilm gallech chi gyflwyno'r rhain hefyd os yw'n briodol:

Edrychwch ar y symbol – minws (un / dau / tri).

Mae (enw'r wlad) ... **un awr / dwy awr / tair awr / pedair awr / pump awr ...** **ar ôl Cymru.**

Rhaid tynnu (y rhif).

Mae hi'n ddeg o'r gloch yng Nghymru – faint o'r gloch ydy hi yn ...?

Yna, gallech chi gyfeirio eto at y gyfrol **Amser** a gofyn i'r disgyblion drafod yr amser yn y gwledydd sydd i'r gorllewin o Gymru.

Gellid gwneud rhagor o waith mewn perthynas â pharthau amser fel y bo'n briodol.

- Yn ogystal, gallai'r disgyblion ddarllen rhannau eraill o'r gyfrol **Amser** cyn gwneud y gweithgareddau sy'n cael eu rhestru yng nghefn y llyfr.

Sylwer: mae cyfeiriadau at y cloc 24 awr ar dudalen 5 y llyfr. Er ein bod yn dweud *sixteen hundred hours, twenty one hours* yn Saesneg, rhaid i ni ddefnyddio'r dull arferol o ddweud yr amser yn Gymraeg, gan ychwanegu un o'r canlynol er mwyn egluro pa ran o'r dydd rydyn ni'n cyfeirio ati:

y bore (a.m.)

y prynhawn (p.m.)

y nos (p.m.)

Felly,

9:00 – **Mae hi'n naw o'r gloch y bore.**

21:00 – **Mae hi'n naw o'r gloch y nos.**

Gallai'r disgyblion wneud mwy o waith mewn perthynas â'r cloc 24 awr fel y bo'n briodol.

- Yna, gallen nhw fynegi barn am y gyfrol, e.e.

Beth wyt ti'n feddwl o'r llyfr?

Beth ydych chi'n feddwl o'r llyfr?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n ddiflas iawn.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol achos dw i'n hoffi dysgu am amser.

Yn fy marn i, mae'r llyfr yn ddiddorol achos dw i wedi dysgu am ...

Mae'r llyfr yn ddiddorol – heb os nac oni bai.

Dw i wedi mwynhau dysgu am amser.

Uned 6: Rhan 3 – Ffrindiau

Nodau:

- Parhau â'r thema parti; cymdeithasu mewn parti
- Galluogi disgyblion i siarad yn fanwl amdanyn nhw'u hunain
- Galluogi disgyblion i ysgrifennu proffil manwl amdanyn nhw'u hunain
- Cyflwyno **Mae gen i ...** (Gogledd Cymru); **Mae ... gyda fi.** (De Cymru)
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Wyt ti'n nabod ...? Ydw. / Nac ydw. Pryd mae dy ben-blwydd di? (Mae fy mhen-blwydd i ar ...) Chwefror chwech Beth wyt ti'n hoffi gwneud? Beth ydy dy hoff fwyd di? ... ydy fy hoff fwyd i. [Beth ydy dy gas fwyd di?] [... ydy fy nghas fwyd i.] De Cymru Oes ... gyda ti? Oes, mae ... gyda fi. [Nac oes, does dim ... gyda fi.] Oes brawd gyda ti? Oes, mae brawd gyda fi. [Nac oes, does dim brawd gyda fi.] Gogledd Cymru Oes gen ti ... (+ treigladd meddal)? Oes, mae gen i ... (+ treigladd meddal). [Nac oes, does gen i ddim ...] Oes gen ti frawd? Oes, mae gen i frawd. [Nac oes, does gen i ddim brawd.]	tŷ teras tŷ semi wrth ochr Chwefror Ebrill brawd chwaer anifail anwes o'r enw fy mrawd fy chwaer popeth

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Ble mae'r bwyd? Ble wyt ti'n byw? Beth ydy'r rhain? Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn. Patrymau eraill Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi. Dyma ... Mae e'n / o'n frown / ddu. Yn fy marn i ... Mae ... yn dda i chi. Dw i wrth fy modd yn ... Dw i eisiau bwyd.	neis fel parti pen-blwydd ffrind da ffyddlon mwynhau cerdded rhedeg cadw'n heini nofio gweryslla heb os nac oni bai anrheg, anrhegion yr Ail Ryfel Byd
Gweler y drawsgrif ar ddiwedd y rhan yma o'r uned.	

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Mae'n ddrwg gen i. / Mae'n flin 'da fi.; Dim problem.

Dyma'r ...

Beth ydy'r rhain?

Ydych chi'n barod? Ydyn. / Nac ydyn.

Awgrymiadau cam-wrth-gam :

- Dangoswch y ffilm **Ffrindiau** (Uned 6, Rhan 3) hyd at y man lle mae Crad yn mynd i nôl bwyd.

Tynnwch sylw at y patrymau canlynol a dangoswch y darn eto fel bod y disgyblion yn gallu eu clywed nhw'n glir:

Wyt ti'n nabod ...?

Dyma ...

Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod nhw mewn parti neu mewn sefyllfa debyg arall lle maen nhw'n gorfod cyflwyno dau gymeriad neu fwy i'w gilydd. Gofynnwch iddyn nhw actio'r sefyllfa hon gan ddefnyddio'r patrymau uchod.

- Tynnwch sylw at y bwrdd a gofynnwch:

Beth sy ar y bwrdd?

Platiau parti.

Mygiau parti.

Lliain bwrdd parti. (Bydd hwn yn newydd mwy na thebyg.)

Serviettes parti.

Gallai'r disgyblion gynllunio platiau parti, bocsys parti, bagiau parti, anrhegion parti, mygiau parti, napcynnau parti a.y.b. Tra byddan nhw'n gweithio, dylen nhw ddisgrifio yn Gymraeg beth maen nhw'n ei wneud:

Beth wyt ti'n ddefnyddio?

Dw i'n defnyddio ...

Beth wyt ti'n wneud?

Dw i'n tynnu llun ...

Dw i'n peintio.

Dw i'n sganio.

Dw i'n argraffu llun ...

Pa liw ydy'r ...?

Gallen nhw drefnu arddangosfa o'u gwaith a gwerthuso gwaith ei gilydd gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

- Wedyn, dangoswch naill ai ran nesa'r ffilm (fersiwn DE CYMRU) **neu'r** darn sy'n dilyn hwn (fersiwn GOGLEDD CYMRU), yn dibynnu ar leoliad yr ysgol. Peidiwch â dangos y ddau ddarn i'r disgyblion.

- Mae fersiwn DE CYMRU yn dangos Izzy a Ffion ac mae'n cynnwys ffurfiau deheuol.
- Mae fersiwn GOGLEDD CYMRU yn dangos Dyfs a Beca ac mae'n cynnwys ffurfiau gogleddol.

- Gofynnwch gwestiynau i'r disgyblion sy'n seiliedig ar y ffilm, e.e.

Ble mae Ffion / Dyfs yn byw?

Pryd mae pen-blwydd Ffion / Dyfs?

Beth mae Ffion / Dyfs yn hoffi gwneud?

Beth ydy hoff fwyd Ffion / Dyfs?

Dangoswch y darn eto a thynnwch sylw at y cwestiynau mae'r disgyblion yn gyfarwydd â nhw eisoes, h.y.

Ble wyt ti'n byw?

Beth wyt ti'n hoffi gwneud?

Beth ydy dy hoff fwyd di?

Os nad yw'r patrwm canlynol wedi cael ei gyflwyno eisoes, cyflwynwch e nawr - ond mae'r disgyblion yn debygol o fod yn gyfarwydd â **Pryd mae ..?** e.e.

Pryd mae dy ben-blwydd?

Chwefror chwech.
Mae fy mhen-blwydd i ar ...

Yna, dylai'r disgyblion chwarae rôl mewn sefyllfa lle maen nhw'n cyfarfod â dau berson mewn parti. Mae un ohonyn nhw'n gofyn ydy'r ddau arall yn adnabod ei gilydd. Mae e / hi yn eu cyflwyno i'w gilydd. Yna, mae'r ddau gymeriad yn gofyn y cwestiynau uchod i'w gilydd.

- Cyflwynwch y canlynol:

DE CYMRU

Oes brawd gyda ti?
Oes chwaer gyda ti?
Oes anifail anwes gyda ti?

Oes, mae brawd gyda fi.
Oes, mae chwaer gyda fi.
Oes, mae anifail anwes gyda fi.

Y ffurfiau negyddol - nid yw'r rhain i'w clywed ar y DVD:

Nac oes, does dim brawd gyda fi.
Nac oes, does dim chwaer gyda fi.
Nac oes, does dim anifail anwes gyda fi.

GOGLEDD CYMRU

Oes gen ti frawd?
Oes gen ti chwaer?
Oes gen ti anifail anwes?

Oes, mae gen i frawd.
Oes, mae gen i chwaer.
Oes, mae gen i anifail anwes.

Y ffurfiau negyddol - nid yw'r rhain i'w clywed ar y DVD:

Nac oes, does gen i ddim brawd.
Nac oes, does gen i ddim chwaer.
Nac oes, does gen i ddim anifail anwes.

Gallech chi roi grid tebyg i'r un isod i'r disgyblion, neu holiadur i'w ddefnyddio pan fyddan nhw'n gofyn y cwestiynau hyn i'w gilydd:

enw	brawd (✓ / ✗)	chwaer (✓ / ✗)	anifail anwes (✓ / ✗)

Gallen nhw ddatblygu'r sgwrs wrth iddyn nhw ddysgu mwy o Gymraeg a dod yn fwy hyderus yn yr iaith, e.e.:

DE CYMRU

Oes brawd gyda ti?
Oes, mae brawd gyda fi – mae e'n ... oed. Mae e'n mynd i ysgol ...

GOGLEDD CYMRU

Oes gen ti chwaer?
Nac oes, does gen i ddim chwaer ond mae gen i frawd o'r enw ... Mae o'n ... oed ac mae o'n mynd i Ysgol ...

Sylwer: Mae trawsgrif o'r sgysiau sydd ar y ffilm i'w gweld ar ddiwedd yr uned hon. Gallwch chi eu dosbarthu nhw pan fyddwch chi'n ymarfer y gwaith gyda'r disgyblion os ydych yn dymuno.

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 45** (DE CYMRU) neu **Cerdyn Siarad 46** (GOGLEDD CYMRU).

A: Rwyf ti mewn parti.
B: Rwyf ti mewn parti.
Siaradwch.

Dylai'r disgyblion actio'r sefyllfa hon, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn.

- Cyflwynwch y proffiliau sy'n cyd-fynd â'r gwaith hwn. Maen nhw wedi cael eu labelu fel a ganlyn:
Uned 6: Rhan 3 / Uned 6: Rhan 3 – y proffil ar gyfer ysgolion yn Ne Cymru
Uned 6: Rhan 4 / Uned 6: Rhan 4 – y proffil ar gyfer ysgolion yng Ngogledd Cymru

Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i batrymau penodol, e.e.

<i>I live in ...</i>	
<i>My birthday is on ...</i>	
<i>I have a ...</i>	
<i>He's five years old.</i>	
<i>I enjoy ...</i>	
<i>Sometimes ...</i>	
<i>I like ...</i>	
<i>I love ...</i>	
<i>I went to ...</i>	
<i>It was ...</i>	
<i>My favourite food is ...</i>	
<i>without a doubt</i>	
<i>I don't like ...</i>	
<i>... is my hero.</i>	

Yn ogystal, gallech chi gyflwyno'r ymadrodd:
Fy nghas fwyd i ydy ...

Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu darn tebyg amdanyn nhw'u hunain. Dywedwch wrthyn nhw am ysgrifennu cymaint ag a gallan nhw ac i ddefnyddio o leiaf ddeg o'r ymadroddion sydd yn y bocs.

- Cyflwynwch Cerdyn **Siarad 47**:
A: Rwyf ti'n eistedd yn y gadair goch.
Siarada amdanat ti dy hun ac ateba gwestiynau'r grŵp.
B: Rhaid gwrando ar A ac yna rhaid gofyn cwestiynau i A.

Er mai gweithgaredd yn y gadair goch yw hwn, gellid ei ystyried fel gêm. Dylai disgyblion unigol (Partner A) siarad am gyhyd ag y bo modd amdanyn nhw'u hunain, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau cyfarwydd eraill. Os yw'r grŵp (Partner B) yn credu ei fod wedi hepgor peth gwybodaeth, dylen nhw ofyn cwestiynau priodol. Yr enillwyr yw'r disgyblion hynny sy'n rhoi cymaint o wybodaeth amdanyn nhw'u hunain fel nad yw'r grŵp yn gallu meddwl am unrhyw gwestiynau ychwanegol i'w gofyn.

- Os yw'n briodol, gallai'r disgyblion dynnu llun / peintio hunanbortread a chyflwyno gwybodaeth amdanyn nhw'u hunain. Gellid defnyddio'r patrymau a gyflwynwyd uchod - **Mae ... gyda fi.** (DE CYMRU) a **Mae gen i ...** (GOGLEDD CYMRU) - er mwyn disgrifio pryd a gwedd, e.e.

DE CYMRU

Mae gwallt hir / byr / du / golau gyda fi.
Mae llygaid glas / gwyrdd / brown gyda fi.
Mae clustiau mawr / bach gyda fi.
Mae trwyn mawr / bach gyda fi.
Mae ceg fawr / fach gyda fi.

GOGLEDD CYMRU

Mae gen i wallt hir / byr / du / golau.
Mae gen i lygaid glas / gwyrdd / brown.
Mae gen i glustiau mawr / bach.
Mae gen i drwyn mawr / bach.
Mae gen i geg fawr / fach.

Gallai'r disgyblion ddisgrifio'u gwaith celf i ffrind a gallai'r ffrind hwnnw ei werthuso, gan ddefnyddio'r patrymau iaith sydd yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

- Dangoswch y darn priodol eto ac yna symudwch i'r darn byr olaf, lle mae'r anrhegion yn cael eu dangos. [Bydd angen i ysgolion De Cymru anwybyddu'r darn sy'n cynnwys y ddeialog ogleddol.]

Tynnwch sylw at yr eitemau gwahanol mae Crad yn eu rhestru:

addurniadau
gemau
bwyd
diod
anrhegion

Yna, gall y disgyblion ddechrau paratoi eu parti, h.y.

- Gallen nhw wneud addurniadau - baneri **trionglau isosgeles** neu **drionglau hafalochrog** efallai.
- Gallen nhw ddewis gemau addas ac ysgrifennu'r rheolau yn Gymraeg - **Rhaid** ... neu'r ffurfiau gorchmynnol.
- Gallen nhw baratoi bwyd a diod parti ac ysgrifennu'r ryseitiau yn Gymraeg - **Rhaid** ... neu'r ffurfiau gorchmynnol.

Yna, gallen nhw gynnal y parti – drwy gyfrwng y Gymraeg os oes modd – a chymdeithasu fel y gwna'r cymeriadau yn y parti yn y Pod-antur Cymraeg.

SGWRS 1 – DE CYMRU

Izzy:	Parti neis.
Ffion:	Neis iawn ... Mae e fel parti pen-blwydd.
Izzy:	Pryd mae dy ben-blwydd di?
Ffion:	Chwefror chwech.
Izzy:	Ble wyt ti'n byw?
Ffion:	Dw i'n byw yng Nghaerdydd. Dw i'n byw mewn tŷ teras gyda fy ngheulu i wrth ochr Stadiwm y Mileniwm.
Izzy:	O, neis iawn. Oes brawd neu chwaer gyda ti?
Ffion:	Oes. Mae brawd gyda fi. Mae e'n ddeg oed ac mae e'n mynd i'r ysgol.
Izzy:	Oes anifail anwes gyda ti?
Ffion:	Oes. Mae ci gyda fi o'r enw Pero. Mae e'n bump oed ac mae e'n frown a gwyn. Mae e'n neis iawn.
Izzy:	O, dyna neis. Beth wyt ti'n hoffi gwneud?
Ffion:	Dw i'n mwynhau cerdded, cadw'n heini a rhedeg. Weithiau, dw i'n cerdded a rhedeg yn y parc – mae'n hwyl. Dw i'n hoffi nofio hefyd achos mae nofio'n dda i chi – a dw i wrth fy modd yn darllen. O, dw i eisiau bwyd.
Izzy:	Beth ydy dy hoff fwyd di?
Ffion:	Salad ydy fy hoff fwyd i. Mae salad yn dda i chi.
Izzy:	O, dyma'r bwyd yn dod nawr ...

SGWRS 2 – GOGLEDD CYMRU

Beca:	Parti neis.
Dyfs:	Neis iawn ... Mae o fel parti pen-blwydd.
Beca:	Pryd mae dy ben-blwydd di?
Dyfs:	Ebrill deg.
Beca:	Ble wyt ti'n byw?
Dyfs:	Dw i'n byw yn y Drenewydd. Dw i'n byw mewn tŷ semi gyda fy ngheulu i yn y Drenewydd.
Beca:	O, neis iawn. Oes gen ti frawd neu chwaer?
Dyfs:	Oes. Mae gen i frawd a chwaer. Mae Siôn, fy mrawd, yn ddeg oed ac mae o'n mynd i'r ysgol. Mae Sioned, fy chwaer yn un deg tri oed ac mae hi'n mynd i'r ysgol hefyd.
Beca:	Oes gen ti anifail anwes?
Dyfs:	Oes. Mae gen i gi o'r enw Goliath. Mae o'n bump oed ac mae o'n ddu. Mae o'n neis iawn.
Beca:	O, dyna neis. Beth wyt ti'n hoffi gwneud?
Dyfs:	Dw i'n mwynhau chwarae pêl-droed a nofio. Dw i wrth fy modd yn nofio achos mae nofio'n dda i chi. Hefyd, dw i wrth fy modd yn gwersylla.
Beca:	O, gwersylla? Ble wyt ti'n gwersylla?
Dyfs:	Dw i'n gwersylla yn y goedwig. Dw i wrth fy modd yn gwrando ar yr adar yn y bore ... a gwneud den ... a cherdded yn y goedwig. Mae'n hwyl. Bobl bach dw i eisiau bwyd rŵan.
Beca:	Beth ydy dy hoff fwyd di?
Dyfs:	Pasta ydy fy hoff fwyd i. Yn fy marn i, mae pasta'n flasus iawn. O, dyma'r bwyd yn dod rŵan ...

Uned 6: Rhan 4 – Y parti

Nodau:

- Parhau â'r thema parti
- Pwysleisio **fy hoff**
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
fy hoff fara i fy hoff gaws i fy hoff gacennau i Dyma fy anrheg i. Beth sy yn dy frechdan di? Ffôn pwy? fy ffôn i Dyna drueni!	miwsig parti brechdan arwr colli

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Pwy sy yna? Beth sy ar y bwrdd? Pam mae ... ar y bwrdd? Achos ... Ga i weld yr anrhegion? Cei. / Na chei. Beth ydy'r anrheg? Pa gêm? Pa liw? Beth am chwarae'r gêm? Syniad da. Beth ydy'r rhain? Tapas – o Sbaen. Ble mae'r brechdanau? Gorchmynion Edrychwch. Patrymau eraill Mae Sgrin yn hapus. Roedd pobl yn yr Ail Ryfel Byd yn hoffi chwarae liwdo. Yn fy marn i, ...	croeso 'nôl anrheg, anrhegion bwyd gêm bara caws Sbaen Ffrainc Yr Almaen Yr Eidal Gwlad Belg Y Ffindir Ewrop tŷ gwyrdd melyn coch glas sosej siocled iogwrt dŵr yn hir neges

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Beth sy ar y bwrdd?

Dyma ti ...

Beth am (chwarae miwsig)?

Beth ydy hwn? ; Beth ydy'r rhain?

Pa liw wyt ti eisiau?

Yn fy marn i, mae ... yn ...

Dyna drueni!

Awgrymiadau cam-wrth-gam :

- Dangoswch y ffilm **parti** (Uned 6, Rhan 4) drwyddi.

- Gofynnwch i'r disgyblion:

Beth wyt ti'n feddwl o'r DVD?

Beth ydych chi'n feddwl o'r DVD?

Mae'n grêt / wych.

Mae'n ddiddorol.

Mae'n hwyl.

Mae'n ofnadwy.

Mae'n gyffrous.

Yn fy marn i, mae'r DVD yn ddiflas.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn grêt / wych.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol.

Dw i'n meddwl bod y DVD yn ddiddorol achos dw i'n hoffi mynd i barti.

Mae'r DVD yn ddiddorol – heb os nac oni bai.

Yna, gallech chi drosglwyddo'r patrymau hyn er mwyn siarad am y parti:

Beth wyt ti'n feddwl o'r parti?

Beth ydych chi'n feddwl o'r parti?

- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu 5 cwestiwn yr un sy'n seiliedig ar y ffilm. Yna, gellid eu defnyddio mewn cwis, e.e.

Ble mae Dyfs?

Beth ydy anrheg Dyfs?

Beth mae Crad yn wisgo?

Sut mae Sgrin yn teimlo?

Ydy Sgrin yn hapus?

Pwy sy'n chwarae liwdo?

- Ail-ddangoswch ddechrau'r ffilm hyd at y man lle mae'r cymeriadau'n gorffen dawnsio. Gofynnwch i'r disgyblion ganolbwyntio ar y ddawns.

I ddechrau, gallai'r disgyblion geisio ail-greu'r ddawns hon wrth iddyn nhw ei gwyllo hi. Yna, gallen nhw ei pherfformio'n annibynnol ar y DVD.

Yna, dylen nhw ysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar gyfer y ddawns. Gallen nhw gyfansoddi dawns parti newydd hefyd, gan roi cyfarwyddyd i'w gilydd ar sut i'w perfformio, e.e.

Rhaid cerdded ...

Rhaid troi ...

Ewch ...

Trowch ...

Cerddwch ...

... i'r chwith

... i'r dde

... syth ymlaen

Neidiwch ...

... i fyny

... i lawr

- Gallech chi chwarae amrywiaeth o gameuon / cerddoriaeth sy'n addas ar gyfer parti a gallai'r disgyblion werthuso'r darnau hyn gan ddefnyddio'r patrymau iaith sy'n cael eu rhestru yn y ddogfen **Patrymau Iaith P-aC4**.

- Dangoswch weddill y ffilm.

Gofynnwch:

Pa gêm oedd pobl yn chwarae yn yr Ail Ryfel Byd?

Liwdo.

Roedd pobl yn chwarae liwdo.

Ydych chi'n chwarae liwdo?

Pryd?

Gyda pwy?

- Gofynnwch i'r disgyblion enwi'r bwyd parti sydd i'w weld ar y sgrin. Gofynnwch iddyn nhw restru cymaint o fwyd parti ag y gallan nhw mewn 2 funud.

Ar ôl iddyn nhw wneud hyn, gofynnwch:

Pwy sy wedi gwneud y rhestr hira?

Sawl gair?

Gofynnwch i'r person hwnnw ddarllen y rhestr ar goedd; dylai'r disgyblion eraill roi tic gyferbyn â'r bwydydd sydd ar eu rhestr wrth iddyn nhw gael eu henwi. Gellid rhoi 5 pwynt i'r disgyblion am bob gair sydd heb dic ar y diwedd.

- Gallai'r cyfeiriad at fwydydd o Ewrop arwain at drafod o ble mae ein bwyd ni'n dod. Gallai'r disgyblion flasw bwydydd gwahanol a mynegi barn - yn union fel y cymeriadau ar y ffilm, e.e. **Yn fy marn i, mae ... yn flasus iawn.**

Yna, gallai'r disgyblion ysgrifennu am y bwydydd hyn.

- Ar ôl gweld enghreifftiau o **frechdanau arwyr**, gallai'r disgyblion weithio allan beth yw **brechdan arwr** (rholyn hir o fara wedi'i dorri'n hanner a'i lenwi gyda llenwadau amrywiol) ac ysgrifennu rysâit ar gyfer brechdan arwr iach, gan ddefnyddio'r fformat arferol ar gyfer rysâit o bosib:

(Teitl) Mae angen (rhestr o'r offer) Cynhwysion (rhestr o'r cynhwysion) Dull (rhestr wedi'i rhifo) 1. Rhaid pwyso ... / Pwyswch ...
--

- Dangoswch ddiwedd y ffilm eto a thynnwch sylw at yr ymadrodd **Dyna drueni!** Ceisiwch ddefnyddio'r ymadrodd hwn ac anogwch y disgyblion i'w ddefnyddio yn yr ystafell ddosbarth ar adegau priodol.
- I grynhoi cynnwys yr uned, gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu eu bod wedi bod i'r parti hwn. Gofynnwch iddyn nhw drafod y parti mewn grŵp.

Adolygwch batrymau iaith perthnasol:

Es i i'r parti yn y ...

Gwisgais i ...

Chwaraeais i ...

Bwytais i ...

Yfais i ...

Gwelais i ...

Clywais i ...

Dawnsiais i gyda ...

Siaradais i gyda ...

Roedd e'n / o'n ...

Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 48** er mwyn eu cynorthwyo gyda'r gwaith hwn:

Roeddech chi yn y parti yn y Pod-antur Cymraeg. Siaradwch am y parti.

- Nawr, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu am y parti ar ffurf dyddiadur. Anogwch nhw i ddefnyddio'r patrymau uchod ynghyd ag unrhyw batrymau perthnasol cyfarwydd eraill.

Uned 6: Rhan 5 – I ffwrdd â ni!

Nodau:

- Gorffen thema'r parti ac, yn wir, stori'r Pod-antur Cymraeg
- Adolygu mynegi barn, yn enwedig yn y gorffennol
- Edrych ymlaen at y dyfodol drwy adolygu patrymau'r dyfodol a gyflwynwyd yn Rhan 2 yr uned hon ynghyd â **Hoffwn i ...**, a gyflwynwyd yn Rhan 1
- Adolygu geirfa a phatrymau a ddysgwyd eisoes a'u defnyddio mewn cyd-destunau ystyrlon

Geirfa a phatrymau newydd

Patrymau	Prif eirfa
Dyna'r parti gorau erioed. Dw i'n gwybod bod pobl yn nofio yn Honolulu.	sgwbadeifio = sgwbablymio y Gorllewin Gwylt bod cowboi ffa

Edrych ymlaen i'r dyfodol

Patrymau
Bydda i'n mynd 'nôl i ... Bydda i'n aros yn y Pod-antur Cymraeg. Fydda i ddim yn mynd 'nôl. Bydd e'n / o'n grêt / wych. Bydd e'n / o'n ffantastig. Bydd e'n / o'n hwyl. Bydd e'n / o'n anhygoel. I ble wyt ti eisiau teithio? Hoffwn i deithio i ... Hoffwn i fynd i ... Hoffwn i ... (+ treigladd meddal) Hoffwn i fownsio ar y Lleuad. Hoffwn i sgïo ... Hoffwn i gerdded ar blaned Mawrth. Hoffwn i siarad â ...

Geirfa a phatrymau cyfarwydd

Patrymau	Prif eirfa
Cwestiynau ac atebion Gawn ni aros yn y Pod-antur Cymraeg os gwelwch yn dda? Cewch. / Na chewch. Ble mae Honolulu? Dw i ddim yn gwybod. Gorchmynion Edrychwch. Patrymau eraill Roedd y parti'n wych. Yn fy marn i, roedd y parti'n ... Mae hi'n oer / boeth. Mae pobl yn ... Dw i wrth fy modd yn ...	yn flasus yn hyfryd yn fendigedig yn anhygoel yn gyffrous yn ardderchog heb os nac oni bai amgueddfa yr Ail Ryfel Byd y Ganolfan Ewropeaidd y stiwdio deledu aros y Lleuad planed Mawrth dawns mynd 'nôl mewn amser dillad hardd dillad lliwgar gemwaith pabell reidio camel

Trosglwyddo patrymau i sefyllfaoedd pob dydd

Ceisiwch fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer cyfathrebu mewn sefyllfaoedd pob dydd. Byddai'n hawdd trosglwyddo llawer o'r patrymau sy'n cael eu cyflwyno a'u hadolygu yn y rhan hon o'r uned i gyd-destun yr ysgol, e.e.

Yn fy marn i, roedd ...

Gawn ni ...? Cewch. / Na chewch.

Beth wyt ti eisiau gwneud? Dw i eisiau ... [Hefyd: **Beth ydych chi eisiau gwneud? Rydyn ni eisiau ...**]

Awgrymiadau cam-wrth-gam :

- Dangoswch y ffilm **I ffwrdd â ni!** (Uned 6, Rhan 5) drwyddi.
- Gofynnwch rai cwestiynau cyffredinol er mwyn sicrhau bod y disgyblion wedi deall beth sy'n digwydd. Gallai hyn fod ar ffurf cwis, gyda dau dîm neu ragor yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, e.e.
Ble mae Dyfs / Izzy / Beca / Ffion / Crad eisiau mynd yn y Pod-antur Cymraeg?
Beth mae Dyfs / Izzy / Beca / Ffion / Crad eisiau gwneud yn y Pod-antur Cymraeg?
- Dangoswch ran agoriadol y ffilm eto, lle mae'r cymeriadau'n trafod y parti, a thynnwch sylw at y patrymau sy'n cael eu defnyddio wrth drafod y parti:
Roedd y parti'n wych.
Roedd y parti'n grêt.
Yn fy marn i, roedd y parti'n ffantastig ... yn wych ... yn grêt ... yn fendigedig ... yn ardderchog.
Yn fy marn i, roedd y bwyd yn dda iawn ... yn flasus ... yn hyfryd ... yn fendigedig ... yn ardderchog ... yn anhygoel.
Yn fy marn i, roedd y gemau'n dda iawn ... yn hwyl ... yn gyffrous ... yn hyfryd ... yn ardderchog.
Yn fy marn i, dyna'r parti gorau erioed – heb os nac oni bai.

Gofynnwch i'r disgyblion ail-ddarllen eu dyddiaduron, a ysgrifennwyd ar ddiwedd Rhan 4 yr uned hon, a gofynnwch iddyn nhw gynnwys barn am y parti. Os ydyn nhw wedi mynegi barn eisoes, gofynnwch ydyn nhw'n gallu gwella'u gwaith, e.e. drwy ddefnyddio'r ymadroddion canlynol:

iawn

yn fy marn i ...

heb os nac oni bai.

Gallen nhw ddefnyddio'r patrwm canlynol hefyd, wrth gwrs:

Dw i'n meddwl bod y parti'n ...

Yna, yn eu tro, gallen nhw ddarllen eu barn ar goedd.

- Ail-ddangoswch y darn lle mae'r cymeriadau'n dweud beth fyddan nhw'n ei wneud a beth hoffen nhw wneud yn y Pod-antur Cymraeg. Gofynnwch i'r disgyblion godi llaw bob tro byddan nhw'n clywed y patrwm **Hoffwn i**. Gallech chi wrando ar bob cymeriad fesul un os ydych yn dymuno.

Gofynnwch i'r disgyblion restru'r patrymau hyn ac ysgrifennwch nhw ar y bwrdd gwyn wrth i'r disgyblion eu rhestru.

Ffion

Hoffwn i fynd i'r Lleuad achos hoffwn i fynd i fownsio ar y Lleuad a sgïo i lawr y mynyddoedd ...

Hoffwn i fynd i blaned Mawrth.

Hoffwn i gerdded ar blaned Mawrth.

Beca:

Hoffwn i fynd i Honolulu.

Izzy

Hoffwn i fynd 'nôl mewn amser.

Hoffwn i fynd 'nôl i Oes y Tuduriaid

Hoffwn i siarad â hi (y frenhines Elizabeth).

Dyfs

Hoffwn i fynd i aros mewn pabell yn y Sahara.

Hoffwn i reidio camel.

Crad

Hoffwn i deithio i'r Gorllewin Gwyllt.

Hoffwn i reidio ceffyl.

Hoffwn i eistedd o gwmpas y tân, yn bwyta ffa.

Hoffwn i siarad â Billy the Kid a Jesse James.

Dywedwch wrth y disgyblion eu bod yn mynd ar antur yn y Pod-antur Cymraeg a gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r hyn yr hoffen nhw ei wneud, gan roi cymaint o fanylion ag y bo modd, e.e.

Hoffwn i deithio i ... achos ...

Hoffwn i fynd gyda ...

Hoffwn i fynd ... (pryd?)

Hoffwn i wisgo ...

Hoffwn i ... yno.

Yn y frawddeg olaf uchod, gallen nhw restru cynifer o bethau ag y bo modd wrth iddyn nhw sôn am beth hoffen nhw ei wneud yno.

Gallai'r disgyblion blygu eu papurau a'u rhoi wyneb i waered ar y bwrdd. Yna, yn eu tro, dylen nhw godi un o'r papurau a'i ddarllen ar goedd, gan geisio dyfalu dymuniad pwy maen nhw'n ei ddarllen, gan roi rheswm dros eu dewis os oes modd. Ni ddylai'r person a ysgrifennodd y dymuniad ddadlennu ar y dechrau mai fe/hi sydd wedi ei ysgrifennu.

- Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r patrwm hwn i drafod beth hoffen nhw ei wneud ar ôl symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, e.e.

Hoffwn i wneud ffrindiau newydd.

Hoffwn i astudio (+ enw'r pwnc)

Darllenwch y gyfrol **Edrych 'Nôl ... Edrych 'Mlaen**, sy'n ymarfer y patrwm hwn, gyda'r disgyblion.

Ar ôl i chi orffen, gofynnwch i'r disgyblion am eu barn am y llyfr ac yna canolbwyntiwrch ar y tudalennau sydd ar yr ochr dde. Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i batrymau y gallen nhw'u defnyddio ar gyfer disgrifio'u dymuniadau wrth iddyn nhw symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Rhestrwch y rhain ar y bwrdd gwyn, e.e.

Yn yr ysgol uwchradd:

Hoffwn i ddysgu sut i chwarae gemau gwahanol.

Hoffwn i ddysgu sgiliau newydd.

Hoffwn i wneud ffrindiau newydd.

Hoffwn i ddysgu Ffrangeg.

Hoffwn i fynd i aros gyda theulu yn Ffrainc ...

Hoffwn i astudio ...

Hoffwn i ddysgu mwy am ...

Hoffwn i ddysgu mwy o gymnasteg.

Hoffwn i ddysgu athletau.

Hoffwn i gystadlu mewn cystadlaethau mawr.

Hoffwn i fynd i'r clwb ...

Hoffwn i berfformio mewn sioe fawr.

Hoffwn i fynd ar dripiâu gyda'r ysgol.

- Gofynnwch iddyn nhw ystyried beth maen nhw eisiau / beth hoffen nhw wneud yn yr ysgol uwchradd maen nhw ar fin symud iddi:

Beth wyt ti eisiau gwneud yn yr ysgol uwchradd?

Beth ydych chi eisiau gwneud yn yr ysgol uwchradd?

Rhestrwch rai o'u syniadau ar y bwrdd gwyn ac yna cyflwynwch **Cerdyn Siarad 49:**

Beth ydych chi eisiau gwneud yn yr ysgol uwchradd?

Dylai'r disgyblion drafod hyn, gan ddefnyddio'r patrymau sy'n cael eu rhestru ar y cerdyn ynghyd ag unrhyw batrymau perthnasol cyfarwydd eraill.

Yn ogystal, gallen nhw ysgrifennu darn am beth y bydden nhw'n hoffi ei wneud yn yr ysgol uwchradd a gellid arddangos y darnau ar y wal fel eu bod nhw'n gallu darllen am ddyheadau ei gilydd.

- Fel gyda'r unedau eraill, gellid tynnu mwy o sylw at y gerddoriaeth gefndirol, y dawnsiau a'r dillad sydd ar y ffilm a gallwch chi ofyn i'r disgyblion chwilio am wybodaeth am Billy the Kid a Jesse James.
- Dangoswch y darn am y tro olaf ac yna gofynnwch i'r disgyblion fynegi barn am y gyfres.

Beth wyt ti'n feddwl o'r Pod-antur Cymraeg?
Beth ydych chi'n feddwl o'r Pod-antur Cymraeg?

Mae'n grêt / wych.
Mae'n ddiddorol.
Mae'n hwyl.
Mae'n ofnadwy.
Mae'n gyffrous.
Yn fy marn i, mae'r Pod-antur Cymraeg yn ddiflas.

Dw i'n meddwl bod y Pod-antur Cymraeg yn grêt / wych.
Dw i'n meddwl bod y Pod-antur Cymraeg yn ddiddorol.
Dw i'n meddwl bod y Pod-antur Cymraeg yn wych achos mae'r cymeriadau'n hwyl.
Mae'r Pod-antur Cymraeg yn ddiddorol – heb os nac oni bai.
Dw i wedi mwynhau'r Pod-antur Cymraeg achos ...

- Cyflwynwch **Cerdyn Siarad 50** er mwyn galluogi'r disgyblion i wneud y gweithgaredd hwn ar eu pen eu hunain.
Beth ydych chi'n feddwl o'r Pod-antur Cymraeg?